



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: WG47837

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, hysbysu gorfodol a rheoleiddio ac arolygu

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r prif feysydd a ganlyn:

- Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal
- Cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus
- Estyn y gofyniad o ran hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg
- Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol

Mehafin 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'n hymgyngoriad:

WG45428 – Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, hysbysu gorfodol a rheoleiddio ac arolygu

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 17 Awst 2022 a daeth i ben ar 7 Tachwedd 2022. Cafwyd 200 o ymatebion i'r ymarfer hwn oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

## **Camau i'w Cymrydd**

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## **Manylion cyswllt**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth  
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ  
E-bost: [YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru)

## **Copiâu ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: <https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig>

## Cynnwys

<b>Adran 1</b> .....	<b>4</b>
1.1. Cyflwyniad	4
1.2. Y cyd-destun a'r rhesymeg	4
1.3. Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa ac ymgysylltu	7
1.4. Ymateb i'r ymgynghoriad	8
<b>Adran 2</b> .....	<b>10</b>
2.1. Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru	10
2.1.1 - Pennod 1: Dileu elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	10
2.1.2 – Pennod 2: Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus	25
2.1.3 - Pennod 3: Estyn y gofyniad o ran hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg	32
2.1.4 - Penodau 4, 5 a 6: Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol	57
2.2. Y Camau Nesaf	86
Atodiad 1 - Rhestr o'r ymatebwyr	
Atodaid 2 – Ymatebion i'r ymgynghoriad	

## Adran 1

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o barhau i wella ansawdd y profiad i bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y llynedd, ymgynghorwyd ar gynigion ar gyfer newid i ddeddfwriaeth sylfaenol a fydd yn cyfrannu at welliannau i ofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r prif feysydd a ganlyn:

- Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal;
- Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus;
- Estyn y gofyniad o ran hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg;
- Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.

### 1.2 Y cyd-destun a'r rhesymeg

Gan adeiladu ar y weledigaeth a nodwyd ym Mhapur Gwyn 2011 ar *Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy*, mae cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei diwygio a'i chydgrynhoi drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016').

Sefydlodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Deddf 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, ar gyfer gofalcwyr y mae arnynt angen gofal a chymorth ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, a fframwaith ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy'r Rhaglen Lywodraethu, mae Gweinidogion Cymru yn ceisio gwella gofal cymdeithasol ymhellach yng Nghymru.

Y newidiadau arfaethedig hyn yw, yn gryno:

- **Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**  
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio creu newid drwy'r system gyfan ar gyfer gwasanaethau plant, er mwyn datblygu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol, er mwyn inni wneud ein gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau. Fel un elfen o hyn, yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Cynigiodd yr ymgynghoriad ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n caniatáu i ddarparwyr nid-er-elw

yn unig gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu. Byddai hyn yn golygu mai dim ond darparwyr nid-er-elw fyddai'n cael gweithredu yng Nghymru.

- **Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (GIP)**

Rydym yn ceisio grymuso pobl i gael mwy o lais a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth y maent yn ei gael, drwy alluogi oedolion sy'n gymwys am Ofal Iechyd Parhaus y GIG i gael mynediad at daliadau uniongyrchol, er mwyn iddynt allu prynu gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion orau. Mae cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer cyllid GIP i oedolion yn gofyn am ddiwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i gynnwys:

- pŵer i fyrddau iechyd lleol wneud taliadau uniongyrchol i oedolion (neu eu cynrychiolydd) y mae penderfyniad wedi'i wneud yn eu cylch sy'n golygu eu bod yn gymwys ar gyfer gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG;
- pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch taliadau uniongyrchol, gan ganiatáu i'r Gweinidogion ragnodi materion pellach yn ymwneud â pha fath o ofal iechyd y gellir gwneud taliadau uniongyrchol ar eu cyfer, eithriadau a gwaharddiadau, a sut y bydd y cynllun yn gweithredu;
- pŵer i fyrddau iechyd lleol wneud trefniadau i ddarparu cymorth i bersonau neu gyrff mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol; yn debyg i'r trefniadau sy'n bodoli ar gyfer cymorth i bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol am ofal cymdeithasol.

- **Estyn y gofyniad o ran hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2015, ymchwiliodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill nad ydynt yn sefydliadau'r wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr wedi cyflawni eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant rhag cam-drin a cham-fanteisio rhywiol. Yn ystod yr Ymchwiliad, cafwyd trafodaeth sylweddol ar 'hysbysu gorfodol' – y cyfeirir ato hefyd fel 'dyletswydd i hysbysu' – ac felly, ym mis Awst 2022, manteisiodd Gweinidogion Cymru ar y cyfle i ymgynghori ar newid i ddeddfwriaeth sylfaenol, i archwilio barn ar estyn y dyletswyddau presennol i roi gwybod am blant ac oedolion sy'n wynebu risg, o dan adrannau 128 a 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gwahoddodd yr ymgynghoriad - a lansiwyd cyn i IICSA gyhoeddi ei ganfyddiadau a'i argymhellion terfynol – farn am gyflwyno gofynion cyfreithiol i unigolion o fewn cyrff perthnasol (h.y. y rhai sy'n gweithredu ar ran 'partneriaid perthnasol' awdurdod lleol, sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau presennol) roi gwybod am blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg ac a fyddai hyn yn amddiffyn plant ac oedolion rhag niwed yn well. Byddai'r safbwyntiau hyn wedyn yn llywio syniadau polisi a llunio ymateb i unrhyw argymhelliad a wneir gan yr Ymchwiliad ar hysbysu gorfodol.

Cyhoeddodd IICSA ei adroddiad terfynol ar 20 Hydref 2022, a oedd yn cynnwys argymhelliad bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ill dwy yn

cyflwyno deddfwriaeth i greu dyletswydd statudol, ar unigolion a ddiffinnir fel 'y rhai dan fandad' i adrodd am gam-drin plant yn rhywiol.<sup>1</sup>

- **Diwygiadau i reoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016).**

Cyflwynodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') drefn cofrestru a rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth ('gwasanaethau rheoleiddiedig') yng Nghymru. Diwygiodd hefyd y system ar gyfer cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Yng ngoleuni'r profiad o weithredu Deddf 2016, a gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr y gwasanaeth a'r gweithlu, sef Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhai diwygiadau arfaethedig a fydd, yn ei barn hi, yn cyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol; datrys anghysonderau o fewn systemau sydd wedi dod i'r amlwg yn ymarferol; a/neu i gynorthwyo AGC a GCC yn eu prosesau a'u gweithgareddau rheoleiddio.

Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, darparwyr gwasanaethau a'u hunigolion cyfrifol dynodedig yn ymwneud ag ystod o faterion y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2016, gan gynnwys:

- a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig
- b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol
- c) Cyhoeddi adroddiadau arolygu
- d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad
- e) Unigolion cyfrifol
- f) Diffiniad o 'Ofal' i blant a phobl ifanc.

Cynigiwyd sawl diwygiad arfaethedig i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol gan GCC, yn ymwneud â:

- a) Hyd tymhorau swydd aelodau GCC
- b) Cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol gyda GCC yn amodol
- c) Gorchmynion dros dro, tra bo ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu gwneud
- d) Dirymu gorchmynion dros dro.

Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig diwygio Deddf 2016 i hwyluso estyn y diffiniadau o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys yr holl weithwyr gofal plant a chwarae, gan egluro rôl Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gefnogi'r gweithwyr hyn.

Mae'r penodau yn y ddogfen ymgynghori yn nodi mwy o fanylion am y cyd-destun a'r rhesymeg ar gyfer pob newid arfaethedig; yn esbonio pam y mae'r Gweinidogion yn

---

<sup>1</sup> [F.6: Adrodd Mandadol ar gyfer Cymru a Lloegr | Adroddiad Annibynnol IICSA i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#)

credu bod angen cyflwyno neu ddiwygio'r gyfraith yn y meysydd hyn, a beth y bwriedir i hyn ei gyflawni.

### 1.3 Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa, ac ymgysylltu

Cyhoeddwyd [Datganiad Ysgrifenedig](#) pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad, a darparwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad drwy e-bost gan Lywodraeth Cymru ar 17 Awst 2022 i ystod eang o sefydliadau<sup>2</sup> sy'n cynrychioli'r grwpiau canlynol:

- Darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, iechyd, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, addysg a gofal plant, a'u cynrychiolwyr
- Defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr
- Oedolion sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr
- Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio ganddynt sy'n ymgysylltu â hwy.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad hefyd mewn amrywiol newyddleni, gan gynnwys cylchlythyr Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, cylchlythyr Dysg a newyddlen GCC. Tynnwyd sylw hefyd at yr ymgynghoriad trwy weithgarwch y cyfryngau cymdeithasol.

Gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno eu barn ar-lein neu drwy e-bost.

Cyhoeddwyd [crynoded](#) un dudalen hefyd, ac yn ddiweddarach yn y cyfnod ymgynghori crëwyd fideo esboniadol wedi'i animeiddio yn Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a chyhoeddwyd crynodebau o benodau unigol. Mewn ymateb i geisiadau, crëwyd crynodeb Hawdd ei Deall a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hefyd.

Crybwyllwyd yr ymgynghoriad mewn nifer o gyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth ac i annog pobl i ymateb, gan gynnwys:

- Cyfarfodydd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cyfarfodydd â rhanddeiliaid gofal plant a chwarae.
- Cyfarfod o Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw yng Ngofal Plant sy'n Derbyn Gofal ym mis Medi.
- Cyflwyniadau, gan gynnwys gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, yn ystod y Gynhadledd Genedlaethol ar Ofal Cymdeithasol, lle bu stondin Llywodraeth Cymru hefyd yn hysbysebu'r ymgynghoriad.
- Cyfarfod grŵp ffocws â defnyddwyr y gwasanaeth GIP a Thaliadau Uniongyrchol a'u cynrychiolwyr ar 13 Hydref.
- Gweithgor Gofal Iechyd Parhaus sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, pobl anabl a sefydliadau cynrychioliadol ar 2 Tachwedd.

---

<sup>2</sup> Cyhoeddwyd [rhestr o ymgynghoreion](#) ym mis Medi 2022.

## 1.4 Ymateb i'r ymgynghoriad

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid ymatebodd pob un o'r ymgynghoreion i bob pennod o'r ymgynghoriad. Daeth 158 o ymatebion oddi wrth unigolion a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu sydd â gweithgareddau ledled y DU (y cyfeirir atynt wedyn yn y crynodeb hwn fel 'o'r tu mewn i Gymru'). Mewn 30 o achosion nid yw'n hysbys a oedd yr ymatebydd wedi'i lleoli yng Nghymru.

Dywedodd 65 o ymatebwyr ei bod yn well ganddynt na chaiff eu henwau a'u cyfeiriadau eu cyhoeddi. Mae ymatebwyr a allai gael eu hadnabod yn y ddogfen wedi rhoi eu caniatâd i Lywodraeth Cymru wneud hynny.

O ran o ba sector y daeth ymatebion:

- Daeth 30 o ymatebion i law gan ddarparwyr gofal cymdeithasol, yr oedd 8 ohonynt o gartrefi gofal plant, 6 o gartrefi gofal oedolion, 6 o wasanaethau maethu, 2 gan ddarparwyr gofal plant ac 8 gan fathau eraill o ddarparwyr. Roedd 28 o'r rhain o'r tu mewn i Gymru a 2 o'r tu allan i Gymru. Gofynnodd cyfanswm o 3 o'r ymatebion hyn i enwau a chyfeiriadau eu sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi.
- Daeth 42 o ymatebion i law gan gyrff cyhoeddus, gyda 21 ohonynt oddi wrth lywodraeth leol (gan gwmpasu 20 awdurdod lleol a rhai sefydliadau cynrychioliadol), 8 gan gyrff y GIG neu dimau'r GIG, 3 gan fyrddau diogelu neu arweinwyr, 3 gan yr heddlu, 3 gan gyrff rheoleiddio, 3 gan gomisiynwyr statudol ac 1 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Daeth y rhain i gyd o'r tu mewn i Gymru. Ni ofynnodd dim o'r ymatebion hyn i enwau a chyfeiriadau eu sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi.
- Daeth 15 o ymatebion i law gan gyrff cynrychioliadol, yr oedd 8 ohonynt gan gyrff cynrychioli gweithwyr proffesiynol, a 7 gan gyrff cynrychioli darparwyr. Daeth y rhain i gyd o'r tu mewn i Gymru. Ni ofynnodd dim o'r ymatebion hyn i enwau a chyfeiriadau eu sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi.
- Daeth 3 ymateb i law gan Undebau Llafur, pob un ohonynt o'r tu mewn i Gymru. Ni ofynnodd dim o'r ymatebion hyn i enwau a chyfeiriadau eu sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi.
- Daeth 25 o ymatebion i law gan sefydliadau'r trydydd sector / y sector gwirfoddol, gyda 23 o'r rheini o'r tu mewn i Gymru a 2 o'r tu allan i Gymru. Ni ofynnodd dim o'r ymatebion hyn i enwau a chyfeiriadau eu sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi.
- Daeth 40 o ymatebion i law gan unigolion y gellid nodi eu perthynas â gofal cymdeithasol neu ofal iechyd parhaus. Roedd 30 o'r rhain yn gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, roedd 2 yn ddefnyddwyr gwasanaeth, 1 yn aelod o'r teulu ac 1 yn ofalwr maeth, tra oedd gan 6 unigolyn arall gysylltiadau eraill â'r sector. Roedd 32 o'r ymatebion hyn o'r tu mewn i Gymru, 4 o'r tu allan i Gymru ac mewn 4 achos nid oedd yn hysbys a oedd yr unigolyn



o'r tu mewn neu'r tu allan i Gymru. Gofynnodd 25 o'r ymatebion inni beidio â chyhoeddi eu henwau a'u cyfeiriadau personol; roedd 22 ohonynt yn unigolion oedd yn gweithio yn y sector.

- Daeth 45 o ymatebion i law oddi wrth unigolion lle na nodwyd eu perthynas â gofal cymdeithasol a/neu ofal iechyd parhaus yn glir. Roedd yn ymddangos bod 17 o'r rhain yn dod o'r tu mewn i Gymru, 2 o'r tu allan i Gymru ac mewn 26 o achosion nid oedd yn glir a oedd y rhain yn dod o'r tu mewn neu'r tu allan i Gymru. Roedd 37 o'r ymatebion yn gofyn inni beidio â chyhoeddi eu henwau a'u cyfeiriadau, gan gynnwys 11 o'r tu mewn i Gymru, 2 o'r tu allan i Gymru a 24 lle nad oedd tarddiad yr ymateb yn glir.

## **Adran 2**

### **2.1 Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi gan Swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cyflwyno fel crynodeb o bob pennod; mae hyn yn cynnwys trosolwg o'r ymatebwyr i bob pennod.

#### **2.1.1 Pennod 1: Dileu elw ar gyfer gofal plant sy'n derbyn gofal**

##### **Crynodeb o'r ymatebion**

Mewn rhai achosion, roedd y materion a godwyd yn berthnasol i nifer o gwestiynau ymgynghori ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y crynodeb.

Atebodd 153 o'r 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad y cwestiynau yn y Bennod hon ac mae ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr ymatebion hyn yn yr adran hon.

##### **Cwestiwn 1.1: Ydych chi'n credu y bydd cyflwyno darpariaeth mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i ddarparwyr 'nid-er-elw' yn unig gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 8 ymateb i Gwestiwn 1.1.

Roedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn gan 35 o'r 72 o sefydliadau sector preifat ac unigolion yn y sector gofal plant a ymatebodd i'r cwestiwn. Ar y llaw arall, roedd cefnogaeth mewn 31 o'r 44 ymateb a dderbyniwyd gan gyrrff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i egwyddor y cynnig canolog i gofrestru darparwyr nid-er-elw yn unig yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd pryder ar draws pob sector am ganlyniadau anfwriadol gwneud hynny, yn enwedig yr effaith ar ddigonolrwydd ac addasrwydd lleoedd gofal preswyl a maeth i blant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer y plant hynny sydd angen lleoliadau arbenigol.

Mynegodd rhanddeiliaid o amrywiaeth o sectorau bryder, oherwydd aflonyddwch ymhlith y rhwydwaith darparwyr, na fyddai awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau i ddarparu llety addas i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal. Roeddent yn teimlo y gallai hyn olygu bod mwy o blant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau anghofrestredig, yn cael eu gadael gartref fwyfwy mewn sefyllfaoedd anniogel, neu ddim yn cael eu hanghenion wedi'u diwallu'n iawn oherwydd nad oedd dewis ac amrywiaeth ar gael o ran lleoliadau. Roedd pryder am weithredu'r ymrwymiad hwn nawr yn ystod argyfwng economaidd ac wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal ddechrau cynyddu hefyd yn nodwedd gyffredin mewn ymatebion hefyd.

Cafwyd adroddiadau anecdotaidd gan 12 ymatebydd bod tarfu yn cael ei deimlo nawr gyda rhai darparwyr eisoes yn penderfynu peidio â pharhau i fuddsoddi yng Nghymru, tynnu'n ôl yn gyfan gwbl neu ddechrau cyfyngu lleoliadau i blant o Loegr yn unig oherwydd eu bod yn teimlo y gallai'r rhain fod yn destun contractau hirach

na'r rhai sy'n cael eu cynnig, yn y tymor byr, yng Nghymru o ystyried bwriadau Llywodraeth Cymru.

Roedd pryderon hefyd y byddai'r cynigion yn gwaethygu'r pwysau presennol ar y gweithlu gofal cymdeithasol, gyda llawer o ofalwyr a staff yn dewis gadael y sector er-elw. Dadleuwyd y gallai hyn, o'i wireddu, arwain at ddiwedd heb ei gynllunio i lawer o leoliadau gofal preswyl a maeth a cholli sgiliau a phrofiad arbenigol.

Roedd 15 o'r ymatebwyr yn teimlo na allent ateb y cwestiwn yn llawn heb ddiffiniad o nid-er-elw, tra bod rhai yn dweud bod angen i bob busnes wneud rhyw lefel o elw neu warged i barhau'n hyfyw. Awgrymodd rhai ymatebwyr ddewisiadau amgen i'r cynnig megis cyflwyno cap ar elw, neu fesurau i sicrhau bod canran benodol o arian yn cael ei hail-fuddsoddi, er nad oedd yr ymatebwyr hyn yn cynnig unrhyw fanylion ynghylch sut y gellid cyflawni hyn.

Gwahaniaethodd 14 o ymatebwyr rhwng sefydliadau rhyngwladol mawr sy'n cymryd elw gormodol a busnesau bach sy'n cael eu rhedeg gan berchnogion bach sy'n ail-fuddsoddi'r mwyafrif o elw. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn y byddai'n well ganddyn nhw gael cap ar elw sylweddol neu ormodol.

Codwyd cwestiynau ynghylch pa gymorth fyddai ar gael i fusnesau sy'n ystyried newid i fodel busnes nid-er-elw, yn ogystal ag ynghylch rôl Arolygiaeth Gofal Cymru wrth fonitro unrhyw ofyniad statudol i ail-fuddsoddi gwarged, o ystyried natur fasnachol sensitif cyllid cwmnïau. Cododd sylw pellach faterion ymarferol yn ymwneud â'r hyn y byddai gofyn i gwmnïau ei wneud i newid i nid-er-elw, megis a fyddai angen ffurfio cwmnïau newydd, newid strwythurau'r cwmni, neu newid erthyglau'r cwmni.

Er bod rhai ymatebwyr yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi'r newid i fodel nid-er-elw, codwyd pryderon gan 8 o'r ymatebwyr ynghylch yr amserlen ar gyfer y newidiadau arfaethedig a'r angen i roi'r ddarpariaeth nid-er-elw angenrheidiol ar waith cyn cyflwyno'r gofyniad i sefydliad fod yn nid-er-elw er mwyn cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cytunodd 4 ymateb yn llawn y dylid dileu grymoedd y farchnad o ofal plant a dweud nad oedd cyflwyno marchnad ar gyfer gofal wedi cynyddu digonolrwydd dros y blynyddoedd, ond yn hytrach bod cystadleuaeth wedi creu gwastraff ac ailadrodd, gyda chost gofal yn codi a chanlyniadau i blant yn gwaethygu mewn rhai achosion.

**Cwestiwn 1.2: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:**

- **Manteision ac anfanteision;**
- **costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ac arbedion;**
- **Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;**
- **Materion ymarferol eraill megis materion trawsffiniol.**

**Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol. Esboniwch eich ateb.**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 15 ymateb i Gwestiwn 1.2.

Roedd yna gytundeb gan 41 o ymatebwyr y byddai'r cynnig yn bodloni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ac yn anfon arwydd cryf at blant a phobl ifanc na ellir caniatáu i gwmnïau wneud elw ar eu hanghenion gofal cymdeithasol.

Roedd cytundeb hefyd mewn 21 o'r ymatebion a dderbyniwyd y gallai fod mwy o reolaeth dros y farchnad, yn enwedig mewn perthynas â math ac ansawdd y lleoliadau a ddatblygir, darpariaeth i gefnogi anghenion cymhleth a lleoliadau diogel. Roedd rhai o'r rhain yn teimlo y byddai'r cynnig yn arwain at farchnad o ddarparwyr y mae eu gwerthoedd craidd yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi da a sefydlog i blant ynghyd â chynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu darpariaeth leol a chadw plant yn agos at adref.

Roedd 3 ymatebydd yn teimlo hefyd y gallai staff a gofalwyr maeth gael eu 'rhyddhau' i gofrestru gydag awdurdodau lleol, gan dynnu rhai darparwyr 'er-elw' o'r farchnad, gan ganiatáu ehangu darpariaeth awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd barn i'r gwrthwyneb gan 38 o ymatebwyr hefyd, sef y byddai staff a gofalwyr maeth y sector preifat yn dewis gadael y sector yn hytrach na gweithio i awdurdodau lleol neu ddarparwr nid-er-elw oherwydd yr hyn a ystyrir yn amodau llai ffafriol.

Awgrymodd adborth arall y byddai'r cynnig yn cynnig y potensial i ostwng a rheoli'r cynnydd parhaus yng nghostau lleoliadau preifat y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd, a byddai darparwyr yn fwy tueddol o ddarparu gwell amodau hyfforddiant a gwaith gan y byddai ganddynt lai i'w ennill trwy gadw eu gwariant yn ôl. Nododd 1 ymateb y byddai plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at leoliadau sy'n cyfateb yn well i'w hanghenion gan arwain at ganlyniadau gwell, a dywedwyd y gellid defnyddio arbedion a gynhyrchwyd trwy beidio â chyfeirio cyllid at ddarpariaeth breifat i ddarparu mwy o gymorth ataliol a therapiwtig o bosib a fyddai yn ei dro yn helpu gyda sefydlogrwydd lleoliadau.

Cadarnhaodd 47 o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â dim o'r cynnig a'u bod yn teimlo mai dim ond anfanteision sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Mynegodd eraill bryder bod y newid mawr hwn mewn polisi'n cael ei gynnig ar adeg o ansefydlogrwydd sylweddol yn wleidyddol ac economaidd yn y DU ac ar adeg pan fo effaith hirdymor Covid ar iechyd a lles emosiynol plant yn dal i gael ei deall.

Dyweddodd 8 ymatebydd, er bod y bwriad yn iawn yn eu barn nhw, nad oes digon o leoliadau eisoes ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Felly, gallai'r newidiadau arfaethedig gynnig gwasanaeth sylweddol lai i blant sy'n derbyn gofal, gan effeithio ar awdurdodau lleol sydd â dyletswydd statudol i ddarparu gofal yn eu hardal leol i blant sy'n derbyn gofal.

Yn gyffredinol, teimlwyd y byddai cost cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn uchel, ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai angen buddsoddiad mawr o arian cyhoeddus er mwyn i awdurdodau lleol ddarparu gofal o ansawdd uchel, a gallai gymryd cryn amser. Yn ogystal, roedd barn bod cost lleoli plant mewn lleoliadau awdurdodau lleol yn debyg i'r gost o'u rhoi yn narpariaeth y sector preifat ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw arbedion cost.

Crybwyllodd 19 o ymatebwyr y risg y gallai'r amserlen arfaethedig bresennol orfodi darparwyr 'er-elw' naill ai i roi'r gorau i'w gweithrediadau neu eu tynnu'n ôl yng Nghymru, a thrwy hynny dynnu cyflenwad oddi ar y farchnad a gwaethygu'r risgiau o gostau uwch i awdurdodau lleol, diffyg darpariaeth briodol, neu ddiffyg darpariaeth ddigonol ar gael yn gyffredinol. Awgrymwyd y bydd newid o fod yn ddarparwr 'er-elw' i ddarparwr 'nid-er-elw' yn golygu y byddai gofyn i ddarparwyr newid yn strwythurol, sy'n broses a all gymryd llawer o amser. Ni fydd gan bob darparwr sy'n dymuno pontio yr arbenigedd i wneud y newidiadau strwythurol hyn, ac ni fydd pob darparwr sy'n dymuno pontio yn gallu pontio ar yr un cyflymder ac o fewn yr amserlen arfaethedig.

Roedd 26 o ymatebwyr o'r farn y bydd angen i awdurdodau lleol a darparwyr deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a bod buddsoddiad ar gael drwy gydol y broses bontio i ddod yn ddarparwr 'nid-er-elw'. Roedd angen gwneud gwaith a wnaed i annog darpariaeth 'nid-er-elw' newydd mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol. Yn ogystal, o ran lleoliadau gofal preswyl, byddai angen ystyried y gall agor lleoliad o'r fath fod yn broses hir a bydd angen ystyried meysydd fel amserlenni a gofynion cynllunio.

Awgrymwyd bod angen i Lywodraeth Cymru weithio'n fwy cydweithredol â darparwyr 'nid-er-elw' presennol i gael gwybod a yw'r capasiti ganddynt i ehangu ai peidio, ac os felly, i'w cefnogi drwy gydol y broses ehangu. Ar gyfer darparwyr 'nid-er-elw' sydd am ehangu ond nad yw'r capasiti ganddynt i wneud hynny, neu i ddarparwyr 'nid-er-elw' sy'n ansicr ynghylch ehangu, amlinellwyd bod angen i Lywodraeth Cymru roi cymhellion i'r darparwyr hyn ehangu a'u cefnogi drwy gydol y broses.

Codwyd materion yn ymwneud â chyflenwi staff y bydd eu hangen, a allai danseilio gallu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau yn ddifrifol. Awgrymwyd y dylid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol dalu staff ar lefel sy'n gymesur â'r sgiliau sydd ganddynt a'r cyfrifoldeb sy'n cael ei roi arnynt ar gyfer gofal a lles plant. Teimlwyd bod angen ariannu'r sector nid-er-elw'n ddigonol i sicrhau ei fod yn denu'r unigolion gorau sy'n cael eu gwobrwyo am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Nododd 4 o'r ymatebwyr nad oes gan rai awdurdodau lleol unrhyw wasanaethau preswyl mewnol ac nad ydynt yn fedrus nac wedi trefnu pethau ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer achosion cymhleth fel mewn lleoliadau arbenigol a rheoledig iawn. Yn ogystal, cydnabuwyd gan 18 o ymatebwyr fod gan lawer o'r darparwyr preifat yng Nghymru strwythurau, sgiliau a rhinweddau sydd wedi'u datblygu dros flynyddoedd lawer, ac mae darpariaeth o'r fath yn darparu gofal a chymorth (therapiwtig) o ansawdd uchel/arbenigol, ynghyd â hyfforddiant, datblygiad a chymorth i ofalwyr sy'n darparu'r cymorth hwnnw. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo, pe byddent yn gadael y farchnad, y byddai'r sefydliadau hyn yn golled sylweddol i blant y mae angen gofal arnynt mewn cartrefi gofal yng Nghymru lle mae dibyniaeth fawr ar y sector preifat. Dywedwyd hefyd bod llawer o gartrefi plant llai yn darparu gofal rhagorol, arbenigol i blant, rhai ohonynt wedi bod ar agor ers amser maith ac y mae plant o Gymru yn eu hystyried yn deuluoedd a chartrefi iddynt.

Teimlwyd, o ystyried ffin Cymru â Lloegr, fod angen ystyried sut y bydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu mewn perthynas â phlant o Loegr sy'n cael eu lleoli yng

Nghymru ac i'r gwrthwyneb. Roedd barn y gallai hyn weithio yn erbyn ysbryd y cynnig ac ysgogi darparwyr 'er-elw' yn groes i'r bwriad i weithio gyda phartneriaid ac awdurdodau lleol yn Lloegr, yn hytrach na gorfod newid eu harferion.

Awgrymodd 23 o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru symud ei ffocws i ffwrdd o 'ddileu elw' a thuag at 'ailgydbwyso' y farchnad gofal cymdeithasol i blant fel bod mwy o ddarparwyr 'nid-er-elw' yn gallu sefydlu neu ehangu, heb ddileu darparwyr 'er-elw' mewn cyfnod rhy fyr. Wrth wneud hynny, dadleuwyd y gellid cynyddu'r cyflenwad i ateb y galw yn y fath fodd fel y bydd awdurdodau lleol yn wynebu llai o anhawster wrth leoli plant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal priodol, ac y byddai troi'r farchnad i un sy'n cynnwys darparwyr 'nid er-elw' yn unig yn broses sy'n cael ei gwneud yn ddiogel gan darfu cyn lleied â phosib ar blant a phobl ifanc.

Cynigiwyd y gallai fod angen dull arloesol a modern ar gyfer partneriaethau cydweithredol effeithiol fel y nodwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Byddai hyn yn golygu bod awdurdodau lleol, darparwyr ac eraill o bosibl megis cyrff iechyd ac addysg, yn cydweithio mewn partneriaeth. Teimlwyd y byddai'r dull hwn yn cynnig model ariannol gwerth am arian sy'n darparu prisio teg, ail-fuddsoddi mewn twf ac ansawdd ac elw realistig i ddarparwyr. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai'r dull hwn yn cymryd amser i ddatblygu a'i gyflwyno i'r farchnad gyfan, a byddai angen dealltwriaeth bod cydgynhyrchu a chydweithio yn golygu bod gofyn i awdurdodau lleol a darparwyr rannu gweledigaeth a gwerthoedd tebyg wrth iddynt weithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion plant agored i niwed.

**Cwestiwn 1.3: Un ffordd bosibl o fynd ati yw i'r ddeddfwriaeth ddiffinio 'nid-er-elw' o ran y mathau o sefydliadau a fyddai'n gymwys. Ydych chi'n ystyried y dylid hefyd gyfyngu ar y ffordd y mae unrhyw arian masnachu dros ben yn cael ei wario? Beth fyddai effeithiau a goblygiadau hyn?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 30 ymateb i Gwestiwn 1.3.

Dywedodd 20 o ymatebion bod y cwestiwn yn anodd ei ateb heb ddiffiniad clir o 'elw' a manylion am y mathau o sefydliad 'nid er-elw' a fyddai'n cael eu caniatáu yng Nghymru. Yn ogystal, dywedodd 22 o ymatebwyr eu bod wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn o gwbl gan nad oeddent yn cytuno â chyfeiriad y polisi yn ei gyfanrwydd.

O'r rhai a ymatebodd, roedd llawer yn cytuno y byddai nodi'r mathau o sefydliadau 'nid er-elw' a all weithredu yng Nghymru'n rhoi eglurder ynghylch cyflawni'r polisi ac yn ei gwneud yn haws i awdurdodau comisiynu weld gyda phwy y gallant contractio. Awgrymwyd er mwyn cyflawni'r nod polisi bod angen nodweddu sefydliadau nid-er-elw fel rhai sy'n cael eu llywio gan werthoedd ac yn ymatebol i anghenion y gymuned ynghyd â sicrhau bod eu cynnig yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn llawn.

Roedd teimladau cymysg ar gyflwyno cyfyngiadau ar sut y gellir gwario gwargeddi. Amlygodd 25 o ymatebion y gallai ffocws ar sut mae'r gwarged yn cael ei ail-fuddsoddi fod yn allweddol i gyflawni'r polisi hwn yn llwyddiannus. Cytunodd 13 o ymatebion y dylid ei gwneud yn glir y dylid defnyddio unrhyw elw a wneir i wella gwasanaethau gyda'r plant sy'n derbyn gofal wrth wraidd y penderfyniad hwn, yn hytrach nag anghenion cyfranddalwyr. Awgrymwyd ymhellach y dylai'r prosesau

craffu perthnasol fod ar waith i atal darparwyr gwasanaeth “er-elw” rhag canfod ffyrdd o ddefnyddio'r system er eu budd eu hunain a dylai'r system gefnogi'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaeth yn lleol.

Gwnaeth 14 o ymatebwyr y pwynt bod angen i bob sefydliad wneud a chadw lefel o elw neu warged er mwyn cynnal eu gweithgaredd. Pe bai Llywodraeth Cymru'n cyfyngu ar lefel y gwaged, gallai hyn atal elusennau'r trydydd sector a sefydliadau nid-er-elw rhag datblygu partneriaethau a darpariaeth arbenigol arloesol yn ogystal ag atal twf yn y sector.

Cydnabuwyd y gallai rhoi cyfyngiadau ar warged masnachu gyfyngu hefyd ar wariant ar yr hyn y mae'r sefydliad yn asesu sydd ei angen i ddiwallu anghenion y plant a chyfyngu ar sut maent yn diwallu'r anghenion unigol hyn.

Awgrymwyd bod angen cyflwyno profion cadarn i sicrhau bod sefydliadau'n gallu dangos eu bod yn sefydliad nid-er-elw yn unig ac nid yn is-gwmni o sefydliadau sy'n gwneud neu'n cael eu llywio gan elw. Ar ben hynny, fel rhan o hyn, teimlwyd y dylai'r broses sicrhau bod y sefydliadau hynny sy'n dangos y gwerthoedd cywir yn ailfuddsoddi gwagedion ar gyfer datblygu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. I gefnogi hyn, awgrymwyd bod pob darparwr yn ymrwmo i fframwaith comisiynu (megis yr un a ddarperir ar hyn o bryd gan Gonsortium Comisiynu Plant Cymru (4C's)) er mwyn bod yn ddarparwr cymeradwy yng Nghymru ar gyfer plant Cymru. Roedd cynnig arall yn cynnwys cyflwyno cynllun gwariant sy'n cael ei arwain gan anghenion y gellid ei gynllunio a'i gytuno gan reoleiddwyr.

Amlygwyd bod llais plant a phobl ifanc yn bwysig i'w hystyried wrth i'r polisi gael ei weithredu ac felly dylai'r bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniadau hyn gael rhywfaint o lais ynghylch sut mae'r gwaged yn cael ei ddefnyddio. Teimlwyd y byddai hyn yn eu grymuso i wneud penderfyniadau ariannol am ansawdd y gofal.

Roedd consensws na ddylid peryglu ansawdd y gofal i blant yn ystod y broses hon.

#### **Cwestiwn 1.4: Ydych chi'n credu y dylai'r ddeddfwriaeth sylfaenol gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o 'nid-er-elw' drwy is-ddeddfwriaeth?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni wnaeth 39 ddarparu ymateb i Gwestiwn 1.4, cyfeirio at eu hymateb i Gwestiwn 1.3, neu ddweud eu bod angen rhagor o wybodaeth arnynt i ddarparu ateb.

Fe wnaeth y cwestiwn hwn yn ennyn ymateb cymysg gan ymatebwyr. Nododd 51 o ymatebion a oedd yn gefnogol i'r cynnig sawl rheswm pam y byddai hyn o fudd gan y byddai'n cynorthwyo gyda hyblygrwydd yn y diffiniad, yn sicrhau y gellir cau bylchau os, neu pan fyddant yn codi, yn caniatáu i'r diffiniad gael ei newid heb ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol os nad yw'n gweithio, neu'n bodloni'r amcan a nodir; a chaniatáu i fathau newydd o ymgorffori gael eu cyflwyno mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

O'r rhai oedd yn cytuno â'r cynnig cyflwynwyd sawl cafeat megis, dim ond os bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu manylion llawn is-ddeddfwriaeth mewn ymgynghoriad

â rhanddeiliaid y dylid ei gynnwys, gan gynnwys paratoi Memorandwm Esboniadol ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Roedd y rhesymau a roddwyd gan 51 o ymatebion eraill nad oeddent yn cytuno â rhoi'r pŵer i Weinidogion ddiwygio'r diffiniad o 'nid-er-elw' drwy is-ddeddfwriaeth yn cynnwys pwysigrwydd ymgynghori wrth ddiwygio diffiniadau, pryderon ynghylch buddsoddi a datblygu cwmnïau yng Nghymru pe gallai'r diffiniad newid heb rybudd a allai rwystro tryloywder ac erydu ymddiriedaeth mewn Gweinidogion.

Roedd barn hefyd nad oedd angen ychwanegu'r pŵer hwn os oes gofyniad i gofrestru fel 'nid-er-elw' gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gan y byddai hyn yn ddigonol. Roedd eraill yn teimlo bod y diffiniad yn sylfaenol i'r polisi ac felly mae angen ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol yn unig. Dywedodd un sylw ei fod yn teimlo'n 'annemocrataidd' ac y gallai arwain at ddiffyg craffu ac atebolrwydd.

### **Cwestiwn 1.5: Beth yw eich barn chi ar yr amseriadau sy'n cael eu cynnig o ran pryd y byddai'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cael effaith?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 26 ymateb i Gwestiwn 1.5.

Er bod ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cytuno'n gyffredinol â'r amseriad arfaethedig ar gyfer cofrestru darparwyr newydd o 1 Ebrill 2026 ymlaen, roedd pryder eang am yr amserlen i ddarparwyr er-elw cyfredol bontio i ddarpariaeth nid-er-elw yn unig. Teimlwyd bod amseriad arfaethedig cyflwyno'r gofynion ar gyfer darparwyr presennol ar 1 Ebrill 2027 yn rhy uchelgeisiol ac roedd yn peri risg i ddiogelwch plant a phobl ifanc sydd angen lleoliad sefydlog cofrestredig o ansawdd da.

Cododd 41 y mater o ddigonolrwydd gan ddweud bod angen i ddigon o awdurdod lleol a chapasiti nid-er-elw fod ar gael ac adnoddau addas yn gyntaf cyn symud i system gwbl nid-er-elw.

Roedd un ymatebydd yn cydnabod bod angen torbwynt, fel arall byddai'r ymrwymiad i ddileu elw yn parhau i fod yn uchelgais na ellir ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd 7 o'r farn bod angen cynllunio amseroldeb cyflwyno gofynion ar gyfer darparwyr ond yna eu bod yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau cyfnod pontio diogel i blant sy'n derbyn gofal.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd yr amserlen 5 mlynedd a gynigiwyd yn ddigon hir, nid oedd consensws ynghylch beth fyddai amserlen fwy priodol ac ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn cynnig dewis arall.

### **Cwestiwn 1.6: A oes yna unrhyw faterion yr hoffech dynnu ein sylw atynt mewn perthynas â'r broses bontio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 47 ymateb i Gwestiwn 1.6 neu roeddynt yn teimlo bod eu hymatebion i bwyntiau blaenorol yn ymdrin â chwestiwn 1.6.



Soniodd 49 o ymatebion am risg gynyddol i blant a phobl ifanc a gefnogir ar hyn o bryd trwy gartrefi gofal preifat annibynnol a gofalwyr maeth. Os yw'r darparwyr hyn yn dechrau gadael y farchnad, gallai hyn amharu arnynt. Yn gyffredinol, teimlwyd nad oes digon o ddarpariaeth yng Nghymru ar hyn o bryd i alluogi plant a phobl ifanc i fyw'n agos at eu cartref, ac os na chaiff y polisi hwn ei reoli'n ofalus, gallai achosi effeithiau andwyol i blant a phobl ifanc mewn gofal.

Awgrymwyd y gallai'r polisi atal llawer o sefydliadau newydd rhag ymuno â'r farchnad, felly ni fydd darpariaeth gofal yn seiliedig ar anghenion ar gael yn rhwydd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol. Codwyd y risg y gallai llawer o blant gael eu lleoli y tu allan i'r sir a'r tu allan i Gymru, a fyddai'n effeithio ar hunaniaeth, treftadaeth a chyswllt y plentyn â theulu ac eraill.

Roedd 11 o ymatebwyr yn teimlo bod llawer o blant sy'n cael eu lleoli mewn darpariaeth breifat yn blant ag anghenion eithaf cymhleth nad oes gan staff awdurdodau lleol y sgiliau i'w cefnogi. Credwyd, felly, na fyddai digon o leoliadau i ddiwallu'r anghenion hyn heb y cymorth arbenigol hwn, gan arwain at weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn profi pwysau ychwanegol i ddod o hyd i leoliadau addas nad ydynt ar gael yn rhwydd yng Nghymru o reidrwydd. Ynghyd â hyn, teimlwyd y byddai angen i'r gweithwyr cymdeithasol hyn dreulio amser ychwanegol mewn rôl sydd eisoes yn rhoi cryn bwysau arny'n nhw, trosglwyddo plant o leoliadau sefydlog i leoliadau newydd – gan gynyddu'r niwed a'r trawma i'r plant hynny.

Mynegodd 6 ymatebydd bryderon ynghylch y ffaith bod llawer o blant sy'n byw mewn gofal sy'n gwneud elw yn y tymor hir wedi ymgartrefu'n dda gyda'r gofalwyr hynny ac na fyddant yn troi'n oedolion cyn y pwynt terfyn arfaethedig. Bydd y plant hyn yn derbyn gofal sy'n diwallu eu holl anghenion, a gall unrhyw newid achosi aflonyddwch sylweddol os na fydd eu darparwr gofal neu ofalwr maeth yn pontio. Awgrymwyd y bydd angen datblygu meini prawf eithriadau i'w defnyddio fesul achos, megis mewn amgylchiadau lle nad yw gofalwyr yn fodlon dod yn ofalwyr awdurdod lleol, a gallai sefyllfa debyg godi mewn cyfleuster darpariaeth breswyl 'pwrpasol' neu fach iawn.

Roedd awgrym arall yn cynnwys mabwysiadu dull athreuliad naturiol a fyddai'n caniatáu i'r plant hynny sydd mewn lleoliadau 'er-elw' presennol aros yn eu lleoliad presennol nes iddynt drosglwyddo i fod yn oedolyn/byw'n annibynnol/ailuno gyda pherthnasau biolegol. Yna gallai unrhyw drefniadau lleoli newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r system ofal gael eu cefnogi gan y sector nid-er-elw. Roedd cytundeb cyffredinol bod angen i bontio fod yn ddi-dor lle bo angen hynny.

Awgrymodd adborth gan 6 o'r ymatebwyr fod cefnogaeth i deuluoedd maeth drwy ddarpariaeth awdurdod lleol yn hollbwysig, gan fod llawer o deuluoedd wedi dewis peidio â maethu gyda'r awdurdod lleol oherwydd eu bod yn teimlo na fyddant yn cael lefel dda o gefnogaeth. Teimlwyd, pe bai ansawdd y ddarpariaeth o safon uwch, yna byddai teuluoedd yn cael eu denu oddi wrth y sector er-elw yn naturiol. Awgrymwyd felly bod angen dull llawer mwy cydweithredol a phartneriaeth, gyda strategaeth wedi'i diffinio'n glir gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector wrth symud ymlaen, i gefnogi recriwtio a nifer y lleoliadau sydd eu hangen. Roedd cytundeb cryf bod yn rhaid i blant a phobl ifanc fod yn ganolog i unrhyw benderfyniad a wneir neu strategaeth a ddatblygir, gan fod pob symudiad i blentyn yn ddigwyddiad bywyd

trawmatig, ac mae angen bod yn ofalus i sicrhau nad yw pethau'n cael eu gwaethygu iddyn nhw yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Amlinellodd yr adborth fod angen ystyried y broses o drosglwyddo gofalwyr maeth o asiantaeth annibynnol i'r awdurdod lleol. Roedd cytundeb y gallai rhai gofalwyr maeth 'roi'r gorau iddi' os yw'r broses yn rhy fiwrocraidd ac yn cymryd llawer o amser. Yn ogystal, gyda'r cynnydd posibl o ofalwyr maeth sy'n trosglwyddo i awdurdodau lleol, crybwyllwyd capasiti staff yn yr awdurdod lleol i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol mewn byr amser fel agwedd bwysig i'w hystyried.

Awgrymodd 9 o'r ymatebwyr nad yw'n glir ar hyn o bryd beth fydd y darpariaethau cyfreithiol arfaethedig yn ei olygu i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru i ofalu am bobl ifanc 16-25 oed. Bydd angen eglurhad ynghylch sut mae'r darpariaethau "nid er-elw" yn newid mewn senario lle mae trosglwyddo'n 18 oed yn digwydd gydag un darparwr.

### **Cwestiwn 1.7: Beth yw eich barn chi ar gyhoeddi canllawiau i helpu i weithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 46 ymateb i Gwestiwn 1.7.

Roedd 83 o'r ymatebion yn gefnogol i gyhoeddi canllawiau i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol, pe bai'n cael ei chyflwyno. Tynnodd llawer a gefnogodd gyflwyno canllawiau sylw at ofynion y canllawiau a'r ffactorau i'w hystyried wrth eu datblygu, megis sicrhau bod unrhyw ganllawiau'n realistig, yn fanwl, yn glir a chryno, wedi'u cyhoeddi mewn iaith glir, wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch, ac mewn fformat hawdd ei ddefnyddio.

Ynghyd â hyn, tynnwyd sylw at yr angen i gyhoeddi canllawiau sy'n hygyrch i bobl ifanc yn ogystal â'r angen i ddatblygu canllawiau sy'n cael eu cyd-gynllunio gan bobl ifanc i'w helpu i ddeall y newidiadau a sut y gallent gael eu heffeithio ganddynt. Pwysleisiodd 10 sylw yr angen i gydweithio â rhanddeiliaid, darparwyr, gofalwyr, a'r rhai sydd â phrofiad byw i ddisgrifio'r modelau sefydliadol priodol wrth ddatblygu'r canllawiau.

Codwyd yr amserlen sy'n gysylltiedig â chyhoeddi canllawiau mewn llawer o'r sylwadau gan ymatebwyr, gyda 14 yn dweud bod angen i hyn fod ar gael cyn gynted â phosibl, neu mewn modd amserol. Yn ogystal, teimlwyd bod angen hyrwyddo unrhyw ganllawiau ymhell cyn unrhyw newidiadau deddfwriaethol, gan ganiatáu digon o amser i drafod ac ymgynghori â'r cyhoedd cyn eu cyhoeddi.

Awgrymodd sylwadau eraill gan gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau da yn y canllawiau, yn ogystal â darparu gweithgareddau ategol eraill megis sesiynau gwybodaeth, gweithdai neu gyngor un i un, mynegodd sawl ymateb y farn y bydd angen hyfforddiant ar draws pob sector.

### **Cwestiwn 1.8: Beth yw eich barn chi ar ddefnyddio deddfwriaeth i osod cyfyngiad ar awdurdodau lleol i gomisiynu lleoliadau gan sefydliadau 'nid-er-elw' yn unig? Yn arbennig:**

- **Ydych chi'n meddwl y byddai'n ein helpu i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru?**
- **Beth fyddai manteision, anfanteision a goblygiadau eraill dull o'r fath?**
- **Beth fyddai'n amserlen briodol ar gyfer gweithredu dull o'r fath, pe bai'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru?**

O'r 153 o ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni wnaeth 34 naill ai ddarparu ymateb i Gwestiwn 1.8 neu roeddent yn teimlo bod eu hymatebion i gwestiynau blaenorol yn ymdrin â'u barn ar Gwestiwn 1.8.

Cadarnhaodd 4 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r bwriad polisi ac felly fe wnaethant ddewis peidio â darparu ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ychydig iawn o gefnogaeth a gafwyd i'r cyfyngiad pellach hwn. Roedd pryder sylweddol, gan amrywiaeth o bartneriaid cyflawni, y byddai atal awdurdodau lleol rhag comisiynu unrhyw ddarpariaeth er-elw yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt gyflawni eu dyletswyddau ac y byddai'n cyfyngu ar bŵer awdurdodau lleol i gomisiynu lleoliad sy'n diwallu anghenion a nodwyd yn y ffordd orau i blant unigol o dan eu dyletswyddau statudol.

Roedd rhai (4) yn teimlo y gallai'r cynnig wrthdaro â hawl plentyn i gael y gofal gorau posibl gan eu rhiant corfforaethol. Tynnwyd sylw at risgiau penodol i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen gwasanaethau gofal integredig gydag elfen iechyd neu addysg arbenigol a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, ynghyd â risg i blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau tymor hir ac sy'n derbyn gofal sefydlog, o ansawdd da y tu allan i Gymru.

Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch a fyddai cyfyngiad o'r fath yn atal y defnydd o leoliadau y tu allan i Gymru. Teimlwyd yn gyffredinol, lle mae diffyg darpariaeth addas ar gyfer plentyn, y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i gomisiynu'r gwasanaeth a fydd yn diwallu anghenion y plentyn orau. Awgrymwyd, lle mae'r awdurdod lleol yn gallu dangos ei fod wedi ystyried pob opsiwn posibl o ran nid-er-elw, dylai fod ganddo'r hyblygrwydd i sicrhau'r gofal a'r cymorth gofynnol trwy leoliad er-elw.

Cynigiwyd cyflwyno proses adolygu glir y gellir cael mynediad iddi os yw awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliad addas a bod effaith ar ddigonolrwydd lleoliad. Roedd awgrymiadau pellach i gefnogi'r cysyniad hwn yn cynnwys cyflwyno gofyniad i gael cymeradwyaeth gan Weinidogion, neu gytundeb bwrdd neu gorff y dirprwyir y dasg iddo gan Weinidogion.

Amlinellodd 5 ymateb yr angen i ystyried nifer y lleoliadau a gomisiynir yn Lloegr ar hyn o bryd. Teimlwyd, os yw awdurdodau lleol Cymru eisoes yn comisiynu nifer sylweddol o leoliadau Cymreig gan ddarparwyr 'gwneud elw' yn Lloegr, yna gallai hyn fod yn broblem ac amharu ar leoliadau presennol o bosib, gan gael effaith niweidiol ar blant a phobl ifanc gan y bydd rhai o'r plant hyn yn byw mewn lleoliadau sefydlog tymor hir lle maent wedi'u paru'n dda.

**Cwestiwn 1.9: Beth yw eich barn chi ar weithgareddau posibl a wneir mewn ymateb i'r cynigion deddfwriaethol hyn a fyddai'n tanseilio'r bwriad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru? Oes yna unrhyw gamau a fyddai'n gwarchod rhag gweithgareddau o'r fath?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni wnaeth 54 naill ai ddarparu ymateb, neu fe wnaethant ddweud nad oedd ganddynt unrhyw farn bellach mewn perthynas â Chwestiwn 1.9.

Amlinellodd 4 o'r ymatebwyr nad oeddent yn teimlo bod y wybodaeth na'r arbenigedd ganddynt i ateb y cwestiwn hwn, gyda rhai'n cadarnhau nad oeddent yn deall y cwestiwn. Dewisodd 19 o ymatebwyr beidio ag ymateb gan eu bod yn anghytuno â'r cynnig yn ei gyfanrwydd, gan nodi'r risgiau a'r anfanteision a nodwyd mewn atebion blaenorol.

Cadarnhaodd 8 o'r ymatebwyr ei bod yn anodd ateb y cwestiwn hwn heb ddiffiniad clir o elw a'r mathau o fodolau busnes a fydd yn dderbyniol yng Nghymru. Awgrymwyd felly y byddai angen ymgynghori pellach i gasglu digon o wybodaeth am y mater hwn.

Awgrymodd adborth gan dri ymatebydd nad oedd unrhyw ddull posibl a allai ddiogelu'n llwyr rhag i sefydliadau gynnal elw. Ategwyd bod angen i sefydliadau gael digon o elw i fuddsoddi i redeg y busnes a gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Teimlwyd, oherwydd bod gwrthwynebiad eang i bolisi Llywodraeth Cymru ymhlith rhai darparwyr, y bydd sefydliadau'n dod o hyd i ffordd o osgoi ei fwriad. Nodwyd y model a gyflwynwyd yn yr Alban ar gyfer gwasanaethau maethu nid-er-elw, ac argymhellwyd bod Llywodraeth Cymru'n ceisio dysgu o brofiad Llywodraeth yr Alban gan fod elw'n dal i gael ei wneud, er gwaethaf bwriad y polisi.

Dywedodd 11 o ymatebion y bydd angen mesurau gorfodi a gwrth-osgoi i wrthsefyll y gwahanol ddulliau anuniongyrchol o wneud elw, megis talu taliadau rheoli gormodol neu log ar fenthyciadau rhwng cwmnïau a thalu tâl gormodol. Roedd barn ymhlith 17 o ymatebwyr na fydd yn ddigonol dim ond sefydlu meini prawf cymhwysedd ar gyfer cofrestru fel darparwr gyda diffiniadau cysylltiedig angenrheidiol. Awgrymodd yr adborth fod angen gofyniad i barhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd, a fydd yn gofyn am wirio o bryd i'w gilydd gan ddarparwyr, o fewn fframwaith i roi sicrwydd parhaus.

Awgrymwyd hefyd y byddai angen digon o bwerau ar Arolygiaeth Gofal Cymru i allu canfod ac atal unrhyw 'hapchwarae' gyda threfniadau, ac y gallai fod mewn sefyllfa well na'r Comisiwn Elusennau neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i wybod a yw taliadau penodol yn uwch na chyfradd y farchnad. Awgrymwyd hefyd y gallai mecanwaith i drydydd partion roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am ddiffyg cydymffurfio posibl neu wirioneddol fod yn briodol. Dywedodd adborth arall y gallai Llywodraeth Cymru elwa o ddysgu o brofiadau'r Comisiwn Elusennau a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r maes hwn.

Mewn modd tebyg, er mwyn ceisio sicrhau na fyddai elw'n cael ei wneud cafwyd awgrymiadau pellach: rhaid sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer panel craffu i

sicrhau, pan fydd sefydliadau'n datgan nad ydynt er-elw, eu bod felly mewn gwirionedd; bod gwarged masnachu'n cael ei fuddsoddi lle y dylai; a bod darpariaeth gofal o ansawdd uchel. Roedd awgrym bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda sefydliadau ac awdurdodau lleol i gydgyhyrchu a phenderfynu beth sy'n dderbyniol o ran yr hyn y gellir / na ellir ei ystyried yn elw, a lle mae yna elw, sut y dylid ei ddefnyddio i ddatblygu gwasanaethau pellach. Roedd cytundeb cyffredinol bod angen cyfrifyddu cadarn, tryloywder a monitro gwasanaethau/prosesau comisiynu'n effeithiol.

**Cwestiwn 1.10: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau deddfwriaethol er mwyn dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 45 ymateb i Gwestiwn 1.10.

Roedd 16 o ymatebwyr yn ansicr a fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg, gyda rhai'n gweld dim cydberthynas o gwbl rhwng y cynigion deddfwriaethol a'r defnydd o'r Gymraeg neu fawr ddim effaith os o gwbl, yn enwedig o ystyried y gofynion deddfwriaethol presennol yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer pob sefydliad.

O'r rhai oedd yn gweld effaith bosibl, mynegodd 44 o ymatebion y gallai neu y byddai cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Rhoddwyd sawl rheswm pam y gallai hyn fod yn wir, ond roedd llawer yn teimlo y gallai fod angen lleoli mwy o blant yn Lloegr oherwydd diffyg darpariaeth addas yng Nghymru pe bai darparwyr er-elw yn gadael y farchnad. Dadleuwyd y byddai hyn yn arwain at lai o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at y Gymraeg neu gyfle i'w defnyddio yn y pen draw. Credwyd bod y potensial i wireddu'r canlyniad hwn yn cynyddu pe na bai digon o amser yn cael ei roi i'r newidiadau arfaethedig gael eu gweithredu. Roedd eraill yn teimlo y gallai siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu sector preifat presennol gael eu colli pe baent yn dewis peidio â throsglwyddo i ddarpariaeth nid-er-elw neu awdurdod lleol.

O'r 15 ymatebydd a gredai y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol, dywedodd 10 y byddai hyn oherwydd datblygu mwy o ddarpariaeth leol a llai o leoliadau trawsffiniol. Gwnaed y pwynt os bydd uwch wneuthurwyr penderfyniadau mewn sefydliadau yng Nghymru mae'n debygol y bydd mwy o ffocws a blaenoriaeth ar bwysigrwydd y Gymraeg. Awgrymwyd y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol drwy nodi disgwyliadau clir ynghylch Cymraeg ymgeiswyr newydd y farchnad.

O'r 15 o ymatebwyr a oedd yn credu y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol, dywedodd 10 mai'r rheswm am hyn oedd datblygu darpariaeth fwy lleol a llai o leoliadau trawsffiniol. Gwnaed y pwynt, os yw uwch benderfynwyr mewn sefydliadau yng Nghymru, mae'n debygol y bydd mwy o ffocws a blaenoriaeth ar bwysigrwydd y Gymraeg. Awgrymwyd y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol drwy bennu disgwyliadau clir ynghylch y Gymraeg ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r farchnad.

Rheswm arall a roddwyd am pam y byddai'r effaith yn gadarnhaol oedd y cyfle i fwy o arian gael ei ail-fuddsoddi mewn hyfforddiant staff ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 1.11: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r newidiadau deddfwriaethol i helpu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

O'r 153 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 91 ymateb i Gwestiwn 1.11, roedd 20 arall yn teimlo bod eu hateb i gwestiwn 1.10 yn ymdrin â'r cwestiwn hwn hefyd ac roedd 4 yn ansicr sut y gellid newid y cynnig er mwyn cael neu gynyddu effeithiau cadarnhaol. Felly mae'r isod yn crynhoi'r sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan 58 o ymatebwyr.

Roedd 7 o'r ymatebwyr yn glir, yn eu barn nhw, nad oedd unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud a fyddai'n cael effaith gadarnhaol, nac yn cynyddu'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan y byddai unrhyw darfu ar blant a phobl ifanc yn negyddol ac yn y pen draw byddai materion digonolrwydd yn arwain at fwy o blant o Gymru'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru. Roedd 3 o'r ymatebwyr yn teimlo mai'r unig newid y gellid ei wneud oedd i'r cynigion deddfwriaethol beidio â dod i rym o gwbl gan nad oeddent yn cytuno â'r cynigion ac yn teimlo y dylid eu hailystyried. Ar y llaw arall, nid oedd dau ymatebydd yn gweld unrhyw anfantais i'r cynigion hyn mewn perthynas â'r Gymraeg.

Rhodddwyd rhai awgrymiadau ynghylch sut y gallai effeithiau'r cynnig fod yn fwy cadarnhaol, ond nid oedd y rhain yn gysylltiedig â gwneud newidiadau i'r cynigion deddfwriaethol hyn o reidrwydd. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno gofynion deddfwriaethol newydd i ddarparwyr wneud eu gwasanaethau'n ddwyieithog; cael staff gofal cymdeithasol dwyieithog; i staff feddu ar gymhwyster yn yr iaith Gymraeg neu fod yn gweithio tuag ato fel amod cyflogaeth; buddsoddi mewn recriwtio, hyfforddi, talu a chadw lleol; i leoliadau gofal gael hyrwyddwyr y Gymraeg i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith; neu annog recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd lle mae'n cael ei siarad yn fwy rheolaidd, neu fel gofyniad ar gyfer rhai swyddi.

Awgrymodd ymateb pellach y dylid cynnwys asesiad o nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg yn lleoliad arfaethedig gwasanaeth i lywio'r broses o recriwtio'r gweithlu, ynghyd ag asesiad o gyfleusterau lleol, ac addysg a all gefnogi'r defnydd o Gymraeg iaith gyntaf. Pwysleisiodd un arall bwysigrwydd y broses baru a sut y gallai lleoli plant sy'n siarad Cymraeg gyda gofalwyr sy'n siarad Cymraeg gynyddu'r effeithiau positif.

Thema a oedd yn codi'n aml yn yr awgrymiadau mewn ymatebion i gwestiwn 1.11, oedd y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy annog twf yn y ddarpariaeth bresennol yng Nghymru gan ddarparwyr nid-er-elw, gan gynnwys argaeledd cymorth cyfalaf.

**Cwestiwn 1.12: Mae'r bennod hon wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, ac rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt.**

O'r 153 o ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r bennod hon o'r ymgynghoriad, ni roddodd 79 ymateb i Gwestiwn 1.12 neu nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu.

Mae llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u cynnwys yn y crynodebau'n ymwneud â chwestiynau eraill yn y bennod hon.

Roedd rhai ymatebion yn mynegi pryder nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad â'r sector cyn y penderfyniad i gyflwyno'r polisi i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Roedd rhai awgrymiadau (15) y dylai unrhyw newid i wasanaethau plant fod yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau, gyda llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oes tystiolaeth gyhoeddedig y bydd dileu elw'n arwain at hyn. Rhai pwyntiau a ategwyd oedd y bydd unrhyw gyfyngiad ar ddarparwyr er-elw yn niweidiol i'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, a bod angen sicrhau cronfa fawr o ddarparwyr sy'n gallu diwallu anghenion cymhleth plant sy'n amrywiol ac yn newid yn barhaus.

Codwyd cwestiynau ynghylch pam nad oedd Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar leihau neu reoli elw yn well a gwnaeth sawl ymateb y pwynt na roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r lefelau uchel o arbenigedd, profiad a gwybodaeth yn y sector preifat ac mai cwmnïau bach sy'n gwneud lefel resymol o elw sy'n cael eu taro galetaf.

Mynegwyd rhywfaint o bryder bod y cynnig wedi bod ar y gweill ers peth amser a'i bod yn ymddangos nad oes gan y polisi gyfeiriad. Felly, gofynnodd rhai (4) ymatebion am amserlen fanwl i gefnogi dibenion cynllunio. Yn ogystal, dywedodd rhai (2) o ymatebion ei bod yn hanfodol i'r rhaglen hon gael ei hadolygu'n barhaus yn ystod y cyfnodau trosiannol i sicrhau bod unrhyw risgiau a mesurau lliniaru'n cael eu rheoli yn eu trefn, er mwyn helpu i sicrhau bod gofal plant a phobl ifanc yn gwbl ganolog i waith cynllunio a gweithredu.

Pwysleisiodd ymatebion pellach bwysigrwydd rhoi lle canolog i leisiau pobl ifanc â phrofiad gofal wrth ddatblygu modelau gwasanaeth newydd. Dywedwyd y bydd gwrando arnyn nhw a gweithredu ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrth Lywodraeth Cymru'n gwella'r gallu i gyflawni ar eu rhan nhw a'r plant a'r bobl ifanc a ddaw ar eu hôl.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld plant a phobl ifanc yn byw'n ddiogel gyda'u teuluoedd, gyda llawer llai yn gorfod mynd i ofal o gwbl. I'r plant hynny sy'n mynd i ofal, rydym am i'w harhosiad fod mor fyr ag sy'n gydnaws â diwallu eu hanghenion, yn agos at eu cartref a gyda chysylltiadau cryf â'u cymuned leol. Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn sicrhau rhwydwaith cynaliadwy o ddarpariaeth, mae'n rhaid i siâp, graddfa a strwythur y trefniadau presennol ar gyfer llety plant a

phobl ifanc newid yn sylfaenol i sicrhau bod darpariaeth sefydlog, integredig ac atebol yn lleol yn cael ei datblygu.

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref gan amrywiaeth o gyrff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i egwyddor y cynnig canolog i gofrestru darparwyr nid-er-elw yn unig yng Nghymru ac rydym yn cydnabod y gwrthwynebiad a ragwelir i'r cynnig gan sefydliadau ac unigolion yn y sector preifat a'r trydydd sector hefyd. Rydym yn cydnabod hefyd bod pryderon eang am yr effaith ar ddigonolrwydd ac addasrwydd lleoedd gofal preswyl a maeth i blant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer y plant hynny sydd angen lleoliadau arbenigol.

Rydym yn derbyn bod heriau'n gysylltiedig â gweithredu ein cynigion ond rydym wedi sefydlu trefniadau rheoli rhaglenni cadarn i asesu effaith ac i liniaru yn erbyn risg, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bydd defnyddio £68m ychwanegol yn y sector dros y tair blynedd nesaf yn hanfodol hefyd i gefnogi a sbarduno'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Bydd y cyllid hwn yn canolbwyntio ar adeiladu darpariaeth gofal preswyl a maeth mewnol ac nid er-elw, ar symud plant allan o ofal preswyl yn ôl i leoliad teuluol, ar ddarparu gwasanaethau wedi'u lleoli a'u cynllunio'n lleol, gan gynnwys darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth ac ar wella canlyniadau i blant.

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau defnyddiol ar amrywiaeth o faterion posibl eraill i'w datrys er mwyn cynorthwyo gyda phontio llwyddiannus i fodel gofal nid-er-elw.

Codwyd amseriad arfaethedig cyflwyno'r gofynion ar gyfer darparwyr presennol ar 1 Ebrill 2027 fel pryder penodol, yn ogystal ag effaith y cynnig i gyfyngu ar awdurdodau lleol rhag comisiynu darpariaeth er-elw. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth bellach i'r naill bwynt a'r llall gyda'r bwriad o sicrhau bod buddiannau gorau plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir gwneud trefniadau i reoli'r broses bontio'n effeithiol ac, yn benodol, y gellir cynnal trefniadau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth, heb fod oedi i'r amserlen gyffredinol a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Wrth weithredu'r diwygiadau arfaethedig, bydd Llywodraeth Cymru bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc.



## **2.1.2 Pennod 2: Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG**

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Atebodd 90 o'r 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad y cwestiynau yn y Bennod hon ac felly rydym wedi canolbwyntio ein dadansoddiad ar yr ymatebion hyn yn yr adran hon. Atebodd rhai ymatebwyr ar ran grŵp o sefydliadau e.e. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ymateb ar ran sawl Awdurdod Lleol.

### **Cwestiwn 2.1: Rydym ni wedi amlinellu ein cynigion i gyflwyno llais a rheolaeth bellach i oedolion sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion hyn? Esboniwch eich ateb.**

Atebodd pob un o'r 90 ymatebydd y cwestiwn hwn. Roedd 78 yn cytuno â'r cynigion neu'n cytuno mewn egwyddor. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf. Cafwyd cefnogaeth bron yn unfrydol o fewn y 78 ymateb i'r cysyniad o lais, dewis a rheolaeth well i bobl sydd ag angen iechyd sylfaenol. Cyfeiriodd sawl un at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a dweud y byddai'r cynnig hwn yn ymateb i'r egwyddorion sydd ynddo. Roedd rhai yn teimlo nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell, ac y dylai deddfwriaeth greu dyletswydd yn hytrach na phŵer i Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) ddarparu Taliadau Uniongyrchol lle mae'r claf yn dewis a lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno mewn egwyddor yn cefnogi llais a rheolaeth ond roedd ganddynt bryderon ymarferol ynghylch gweithredu taliadau uniongyrchol a'r angen i sicrhau ansawdd gofal i dderbynwyr Gofal Iechyd Parhaus os na fyddai hyn yn cael ei ddarparu yn uniongyrchol gan staff y GIG neu asiantaethau o dan gontract uniongyrchol.

Er eu bod yn cefnogi nod cyffredinol y cynigion, rhestrodd ymatebwyr o BILI fwy o bryderon a materion na'r rhai gan awdurdodau lleol (ALLau), derbynwyr GIP a/neu ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol, neu'r rhai sy'n eu cynrychioli neu'n eu cefnogi. Gall pryderon y BILI gael eu crynhoi gan un ymateb a ddywedodd eu bod '*Yn cytuno bod angen llais a rheolaeth bellach i oedolion sy'n cael GIP a rhywfaint o reolaeth dros eu pecyn gofal; fodd bynnag, rhaid bod Fframwaith Llywodraethiant cryf i gefnogi hyn.*'

Dim ond 3 o ymatebwyr ddywedodd nad oeddent yn cytuno â'r cynigion, tra dywedodd 9 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynigion.

### **Cwestiwn 2.2: Beth yn eich barn chi yw effeithiau tebygol y cynnig? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:**

- **Manteision, ac anfanteision;**
- **Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;**
- **Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;**
- **Materion ymarferol eraill megis materion trawsffiniol neu drosglwyddo i'r trefniadau newydd.**

## **Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.**

### **Esboniwch eich ateb.**

Cafwyd amrywiaeth eang iawn o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 74 yn ymateb i'r cwestiwn ei hun yn ogystal â rhai sylwadau pellach a allai fod yn berthnasol mewn ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad na chawsant eu trefnu'n benodol yn ôl y cwestiynau a ddarparwyd. Am y rheswm hwn mae'r niferoedd a roddir yn ddangosol ac yn seiliedig ar y ffit gorau. Awgrymwyd llawer o effeithiau cadarnhaol a negyddol, fel y dangosir isod.

Roedd manteision penodol a awgrymwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

- Mwy o lais, dewis a rheolaeth, a gwell urddas i dderbynwyr gofal (64 o ymatebion)
- Gwell parhad gofal mewn perthynas â staff a phecynnau, diogelwch i dderbynwyr gofal a'r cyflogeion. Mewn rhai achosion, teimlwyd y gallai'r newid hefyd helpu gyda materion capasiti yn y system (32 o ymatebion)
- Gwell ansawdd gofal oherwydd pecyn gofal mwy addas (30 o ymatebion)
- Efallai y bydd mwy o bobl sy'n gymwys i gael GIP yn cytuno i'w gael (19 o ymatebion)
- Gallai costau darparu gofal drwy ddulliau gofal eraill ostwng (13 o ymatebion)
- Efallai na fydd rhaid i fwy o dderbynwyr gofal gyfrannu at gost eu gofal eu hunain mwyach (9 o ymatebion - 12%)
- Gallai gweithio mewn partneriaeth yn well, gan gynnwys gweithio ar draws ffiniau, arwain at welliannau mewn prosesau ac amserlenni GIP (7 o ymatebon – 9.5%)
- Gallai trefniadau pontio gwell fod ar gael o Ofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc i GIP oedolion (7 o ymatebion)
- Gwelliannau i gynorthwywyr personol gan gynnwys mynediad at hyfforddiant a phroffil gwell i'r rôl (7 o ymatebion)

Roedd yr anfanteision yn cynnwys:

- Gall ansawdd gofal ddiodef os na ellir sicrhau bod y gofal sy'n cael ei ddarparu yn bodloni'r safon ofynnol, neu os nad yw'n cael ei reoleiddio. (18 o ymatebion)
- Efallai na fydd teuluoedd yn gallu dod o hyd i wasanaethau addas neu gynorthwywyr personol sy'n gallu diwallu eu hanghenion, yn enwedig o gofio'r heriau presennol o ran capasiti yn y system gofal cymdeithasol (16 o ymatebion)
- Efallai na fydd teuluoedd neu unigolion am gael y cyfrifoldeb o ddod yn gyflogwr neu gallant gael trafferth rheoli PA drwy daliadau uniongyrchol, gyda'r gwaith cysylltiedig o adrodd ar oriau gwaith etc. (13 o ymatebion – 14%)
- Gallai greu amodau tlotach i gynorthwywyr personol weithio ynddynt, ac efallai y byddant yn teimlo eu bod yn cael eu hecsbloetio (5 o ymatebion)
- Efallai y bydd materion diogelu ychwanegol i'w hystyried (8 o ymatebion)
- Gallai costau gynyddu gan fod mwy o bobl yn cytuno i dderbyn GIP (8 o ymatebion)

- Gallai pobl anabl ddioddef canlyniadau niweidiol os na chânt eu cefnogi i wneud penderfyniadau da ar sut i wario taliadau uniongyrchol (8 o ymatebion)

### **Cwestiwn 2.3: Pa wersi y gallwn ni eu dysgu o arfer gwledydd eraill yn y maes hwn?**

O'r 90 o ymatebwyr i'r bennod, atebodd 42 y cwestiwn hwn. Y prif awgrym gan unigolion a ymatebodd oedd edrych i Loegr am arferion da neu arbenigedd yn y maes hwn, gyda 30 o'r 42 o ymatebwyr yn awgrymu y byddai hyn yn ffordd ddefnyddiol ymlaen, gan fod taliadau uniongyrchol wedi bod ar waith yno ar gyfer GIP ers 2014. Dywedodd rhai unigolion y byddai'n bwysig sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r gwahaniaethau diwylliannol, daearyddol a chymdeithasol-economaidd rhwng Cymru a Lloegr wrth ddefnyddio enghreifftiau o Loegr i ddatblygu model i Gymru.

O'r cyfanswm o 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 13 o ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol edrych ar awdurdodau lleol Cymru am arweiniad o gofio bod taliadau uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol wedi bod ar waith ers tro.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol ymgynghori ag yswirwyr atebolrwydd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon sy'n cefnogi Taliadau Uniongyrchol, a chyda defnyddwyr Cyllidebau Iechyd Personol i ofyn am gyngor, gyda 6 o ymatebwyr yn awgrymu'r dull hwn fel ffordd ymlaen.

Yn ogystal â'r meysydd sydd eisoes wedi'u crybwyll uchod, cyfeiriwyd at bapurau a ysgrifennwyd gan unigolion amrywiol ynghylch Taliadau Uniongyrchol a roddodd gefndir defnyddiol ar y maes polisi.

### **Cwestiwn 2.4: Ydych chi'n credu bod unrhyw ddulliau eraill neu ddulliau ategol y dylen ni fod yn eu hystyried i gyflawni'r un effaith? Os felly, nodwch nhw isod.**

O'r cyfanswm cyffredinol o 90 o ymatebion a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad, atebodd 43 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio fwyaf oedd ymchwilio i system gyffredin rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i weinyddu taliadau uniongyrchol a/neu sefydlu trefniant cronfa gyfun, gyda 19 o ymatebion yn awgrymu hyn fel dull posibl.

Awgrymodd 8 o ymatebion y gellid defnyddio ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol fel dull gweithredu dros dro a allai helpu. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebion, er hynny, na fyddai ymddiriedolaethau yn cyflawni'r un canlyniad â newid yn y gyfraith i ganiatáu taliadau uniongyrchol, yn ogystal â nodi na fyddent yn addas i bawb.

Daeth awgrymiadau hefyd yn dweud y dylid ystyried caniatáu'r un mynediad at daliadau uniongyrchol yn achos plant, er mai dim ond 6 o ymatebion awgrymodd hyn fel ffordd ymlaen. Dywedodd 4 o ymatebwyr nad oeddent yn credu bod unrhyw ddulliau gweithredu eraill y dylid eu hystyried ar wahân i newid yn y gyfraith.

Gwnaed awgrymiadau pellach mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, megis sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol neu ficrofentrau i ddarparu gofal er nad oedd cymaint o gefnogaeth i'r rhain, gyda 3 neu lai o ymatebwyr yn awgrymu'r rhain fel ffordd ymlaen.

**Cwestiwn 2.5: Byddwn yn gweithio i sicrhau bod unrhyw newid deddfwriaethol yn cael ei gefnogi gan ganllawiau cadarn i helpu'r rhai sy'n derbyn taliadau ac ymarferwyr i ddeall sut y bydd y system yn gweithredu. Allwch chi nodi unrhyw beth y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys yn y canllawiau hyn? Pa gymorth arall y dylid ei ddarparu?**

Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r 90 o ymatebion i'r bennod ymgynghori, rhoddodd 54 ateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd 41 o'r 54 ymateb yn nodi y byddai'n hanfodol i unrhyw ganllawiau a gynhyrchir fod yn glir ac yn ddealladwy i'r derbynnydd arfaethedig. Ceir crynodeb o'r atebion a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn isod:

- Dylai canllawiau a chymorth clir gael eu darparu i'r person a'i Gynorthwydd Personol (Cynorthwywyr Personol). Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen yswiriant fod ar gyfer y derbynnydd taliad uniongyrchol os ydynt yn cyflogi staff, ac y gallai'r yswiriwr hefyd fod yn ffynhonnell dda o gyngor a chanllawiau. Nodwyd gan lawer y byddai fersiynau Hawdd eu Darllen yn fuddiol (33 o ymatebion)
- Dylid darparu canllawiau dealladwy clir ar rolau a chyfrifoldebau sefydliadau i gefnogi pecyn gofal, i gynnwys gwybodaeth hefyd ar bwy ddylai dalu am unrhyw gostau cyfreithiol os yw'n berthnasol – er enghraifft yn achos ymddiriedolaeth defnyddwyr annibynnol (31 o ymatebion)
- Dylai canllawiau clir fod ar gael ar yr hyn y bydd y pecyn cyllido GIP yn ei ariannu ac na fydd yn ei ariannu yn ogystal â chanllawiau ar reoli achosion, archwilio ac yn y blaen. Dylid amlinellu'r broses i'w dilyn os yw'r derbynnydd taliad uniongyrchol yn defnyddio arian yn amhriodol (23 o ymatebion)
- Dylai lefelau priodol o lywodraethiant, diogelu, hyfforddiant ac yswiriant fod ar gael i gynorthwywyr personol (15 o ymatebion)
- Dylai canllawiau fod ar gael ynghylch cyflogi staff ar gyfer defnyddwyr taliad uniongyrchol (14 o ymatebion)
- Canllawiau ynghylch pontio o daliadau uniongyrchol mewn Gofal Cymdeithasol i lechyd (ac yn ôl eto lle bo hynny'n briodol), a pharhau i weithio mewn partneriaeth drwy gydol y broses hon (12 o ymatebion)
- Dylai canllawiau clir fod ar gael ar bwy all sefyll dros yr unigolyn a'i gynrychioli a gweithio er ei fudd gorau lle nad oes ganddo alluedd ei hun (8 o ymatebion)
- Dylai canllawiau ar gymhwysedd, ar ystyried a chymeradwyo neu wrthod ceisiadau am daliadau uniongyrchol, ac ar y broses a argymhellir, fod ar gael. Nodwyd y gallai canllawiau tebyg i'r hyn sy'n bodoli yn Lloegr fod o gymorth (8 o ymatebion)
- Dylai Fframwaith Dirprwyo fod ar gael i'w ddefnyddio gan fwrdd iechyd a hefyd gan gyflogwyr, gan roi cyfarwyddyd i gynorthwywyr personol ar ddarparu ymyriadau meddygol (8 o ymatebion)

- Dylid darparu canllawiau ar y broses wrth gefn ar gyfer byrddau iechyd sy'n camu i mewn i ddarparu gofal os nad oes un ar gael neu os bydd gofal yn torri i lawr (6 ymateb)
- Dylai canllawiau fod ar gael ar y broses i ganiatáu i fyrddau iechyd roi arian i unigolyn i brynu ei ofal iechyd eu hunain. (5 o ymatebion)

Gwnaed awgrymiadau hefyd ynghylch cynnwys adrannau penodol ar sut i reoli'r broses bontio'n effeithiol o Ofal Parhaus Plant a Phobl Ifanc i GIP i oedolion wrth gael mynediad at daliadau uniongyrchol. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael rhai enghreifftiau o astudiaethau achos i'w dilyn ar gyfer sefydliadau. Gwnaeth dau ymateb i'r cynigion hyn.

**Cwestiwn 2.6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

O'r 90 o ymatebwyr i'r bennod hon, atebodd 48 y cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 35 o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion o fudd o ran y Gymraeg oherwydd bod mynediad at daliadau uniongyrchol yn rhoi mwy o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio a gofyn am fwy o wybodaeth drwy eu dewis iaith, boed Cymraeg neu Saesneg.

Dyweddodd 5 arall o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu y gallai'r newidiadau arwain at heriau o ran unigolion sy'n ceisio dod o hyd i staff Cymraeg eu hiaith mewn rhai ardaloedd. Dywedodd 5 yn rhagor o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo na fyddai'r newidiadau yn cael unrhyw effaith o gwbl.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr hefyd at ddiwallu anghenion gwybodaeth defnyddwyr ieithoedd cymunedol eraill, yn ogystal â chael opsiwn i gyflogi cynorthwyr personol sy'n siarad ystod amrywiol o ieithoedd. Crybwyllwyd dulliau eraill o gyfathrebu cynhwysol (Makaton/BSL/PECS (System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau) etc hefyd mewn rhai ymatebion. Pwysleisiodd yr ymatebion hyn y gellir ac y dylid teilwra gofal a ddarperir o dan daliadau uniongyrchol i adlewyrchu'r nifer o ieithoedd sy'n cael eu siarad gan bobl sy'n cael mynediad at GIP.

**Cwestiwn 2.7: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai ein cynigion ar gyfer cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ymatebodd 21 o'r rhai a ymatebodd i'r bennod i'r cwestiwn hwn hefyd.

Cyfeiriodd 20 o'r ymatebion a ddaeth i law yn ôl at eu hatebion i gwestiwn 2.6 wrth ateb y cwestiwn hwn, oherwydd y tebygrwydd rhwng y ddau faes. Nid yw'r ymatebion hynny wedi'u rhestru eto yma.

O'r ymatebion sy'n weddill, awgrymwyd y meysydd canlynol fel ffyrdd posibl o gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg:

- Roedd 5 ymateb yn teimlo y byddai darparu cronfa genedlaethol ganolog ar gyfer dogfennau wedi'u cyfieithu mewn amrywiaeth o ieithoedd yn fuddiol.
- Dywedodd 5 ymateb eu bod yn teimlo y gallai cynyddu hyfforddiant neu gyfleoedd i gynorthwyr personol gael mynediad at gyrsiau dysgu Cymraeg helpu.
- Roedd 4 ymateb yn awgrymu y dylai sefydliadau cyfagos gydweithio i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg penodol gyda chronfa o gynorthwyr Cymraeg eu hiaith.

**Cwestiwn 2.8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Ni wnaeth 54 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd, manteisiodd 16 o ymatebion ar y cyfle i nodi y dylid mabwysiadu dull Cymru gyfan o gyflwyno taliadau uniongyrchol gyda chanllawiau yn cael eu darparu drwyddi draw i sicrhau dull cyson gyda dangosyddion a thargedau perfformiad allweddol cysylltiedig ledled Cymru.

Canolbwyntiodd 11 o ymatebion eraill eu sylwadau ar gyfraddau tâl a gofynion cofrestru ar gyfer cynorthwyr personol, yn enwedig y ffaith bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gyffredinol yn ennill mwy na gweithwyr gofal cymdeithasol ar hyn o bryd a allai greu problemau gan nad oes cydraddoldeb tâl ac amodau i gynorthwyr personol sy'n gwneud tasgau tebyg o dan daliadau uniongyrchol.

Maes arall a ddaeth i'r amlwg yn aml oedd sicrhau bod unrhyw newidiadau yn hygyrch i unigolion â nodweddion gwarchoddedig, gydag 11 o ymatebwyr yn nodi hyn fel blaenoriaeth. Gwnaed awgrymiadau i ystyried cyllid ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i gefnogi unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig i ddefnyddio eu llais ac arfer rheolaeth.

Dadleuodd 4 ymateb pellach fod y newid i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn cael ei groesawu ond y byddai angen newid cyfatebol mewn diwylliant ac ymarfer o fewn sefydliadau cyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn bod yn llwyddiannus.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i wneud hyn, ac felly croesewir y lefel uchel o gefnogaeth i'r egwyddor o lais a rheolaeth gynyddol i'r rhai sy'n derbyn GIP yng Nghymru sydd wedi'i gyfleu trwy'r ymgynghoriad.

Yn y tymor byr, mae trefniadau i wella'r rhyngwyneb rhwng GIP a thaliadau uniongyrchol yn cael eu datblygu nad ydynt yn cynnwys newid deddfwriaethol ond a

fydd yn gosod y sylfeini ar gyfer taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, os byddant yn cael eu cyflwyno. Mae'r fframwaith GIP diwygiedig (sy'n weithredol o fis Ebrill 2022) yn cynnwys cyfeiriad at fecanweithiau i gefnogi llais a rheolaeth sy'n bosibl o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, sy'n cynnwys defnyddio ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol a'r bwrdd iechyd sy'n cyflogi personél a oedd yn cael eu cyflogi yn flaenorol trwy daliadau uniongyrchol. Mesurau dros dro yw'r rhain a allai, o'u rhoi ar waith mewn achos penodol, fynd rywfaint o'r ffordd tuag at wella maint y llais a'r rheolaeth sydd gan bobl dros eu gofal. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bosibl nad ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol, hyd yn oed fel mesur dros dro, yw'r opsiwn a ffefrir i rai pobl ag anableddau sydd am gael dull mwy uniongyrchol o reolaeth unigol. Ar hyn o bryd mae canllawiau i gefnogi gweithredu ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol yn cael eu cydgynhyrchu â rhanddeiliaid gan gynnwys BILlau, Awdurdodau Lleol, pobl anabl a'u sefydliadau cynrychioliadol.

Yn ogystal â'r lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer gwell llais a rheolaeth, roedd yn ddefnyddiol i lawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi materion posibl i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cyflwyno yn llwyddiannus ar gyfer GIP. Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi arwydd clar o'r ystod o faterion, y gellir mynd i'r afael â rhai ohonynt mewn rheoliadau neu ganllawiau os caiff taliadau uniongyrchol eu cyflwyno. Gellir dysgu llawer, fel y mae'r ymgynghoriad wedi nodi, o fodelau sy'n bodoli mewn mannau eraill, fel yr un yn Lloegr lle mae taliadau uniongyrchol wedi bod ar waith ers 2014. Bydd llawer i'w wneud, er hynny, gan bartneriaid yma yng Nghymru er mwyn ymwreiddio dull sy'n gweddu i'r cyddestun yng Nghymru os caiff taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP eu cyflwyno yng Nghymru. Bydd y pwyntiau a wneir yn yr ymgynghoriad yn llywio'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y cyfamser yn ogystal ag unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd yn y dyfodol i sicrhau mwy o lais a rheolaeth i dderbynwyr GIP.

### 2.1.3 Pennod 3: Estyn y gofyniad o ran hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg

#### Crynodeb o'r ymatebion

Atebodd 100 o'r 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad y cwestiynau yn y Bennod hon.

**Cwestiwn 3.1: Beth yw eich barn ar yr egwyddor o osod dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg (fel y'i diffinnir yn adran 130(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yn uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol?**

**Cwestiwn 3.2: Beth yw eich barn ar yr egwyddor o osod dyletswydd i hysbysu am oedolyn sy'n wynebu risg (fel y'i diffinnir yn adran 126(1) o Ddeddf 2014) yn uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol?**

Rhoddodd 91 o ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.1, ac o'r rheini:

- roedd 57 yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r egwyddor o osod dyletswydd uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol i hysbysu am blant sy'n wynebu risg;
- roedd 15 yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r egwyddor o osod y ddyletswydd hon; ac
- roedd 19 yn ansicr neu ddim wedi datgan safbwynt pendant.

Rhoddodd 81 o ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.2, ac o'r rheini:

- roedd 46 yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r egwyddor o osod dyletswydd uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg;
- roedd 16 yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r egwyddor o osod y ddyletswydd hon; ac
- roedd 19 yn ansicr neu ddim wedi datgan safbwynt pendant.

Rhoddodd 72 o'r ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.1 a Chwestiwn 3.2, gyda 67 o'r un farn neu farn debyg mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y crynodeb isod.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod gosod dyletswyddau i hysbysu am blant<sup>3</sup> neu oedolion<sup>4</sup> sy'n wynebu risg ar unigolion sy'n gweithio gyda 'phartneriaid perthnasol' – awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, yr heddlu, y gwasanaethau prawf a Thimau Troseddau Ieuencid – yn hanfodol er mwyn sicrhau camau priodol i'w hamddiffyn rhag niwed, ac y byddai hynny'n cefnogi'r neges a'r ddealltwriaeth bod hysbysu am bryderon diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Cafwyd sylwadau ynghylch sut y byddai gosod dyletswyddau ar unigolion yn pwysleisio cyfrifoldeb personol, yn gwella atebolrwydd ac yn gosod disgwyliadau clir o fewn arferion diogelu. Byddai hyn hefyd yn negyddu'r ddibyniaeth ar gyfeirio trydydd parti; gallai leihau problemau diwylliannol neu systemig gyda hysbysu sefydliadol; ac ni fyddai'n caniatáu i bobl guddio y tu ôl i eraill.

<sup>3</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/130/welsh>

<sup>4</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/126/welsh>



Nododd un ymatebydd (mewn perthynas â hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg) nad yw prosesau sefydledig a chyfarwydd yn cael eu dilyn bob amser hyd yn oed, felly byddai hyn yn atgyfnerthu cyfrifoldebau o fewn y fframwaith cyfreithiol. Roedd un arall yn teimlo y dylai gweld niwed arwyddocaol i blentyn, neu amau ei fod yn wynebu risg, sbarduno dyletswydd sy'n gorfodi person i hysbysu. Mynegwyd y farn hefyd nad yw'n bosibl gorbwysleisio pwysigrwydd diogelu plant. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'n briodol i rai unigolion – yn unol â chyfrifoldebau eu rôl e.e. swyddogion diogelu arweiniol neu ddynodedig – fod â dyletswydd statudol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd un arall yn teimlo bod yn rhaid cael ffyrdd mwy systemig o wneud gwelliannau na bygwth camau cyfreithiol.

Daeth thema gref i'r amlwg o sawl ymateb na ddylai unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol ar unigolion leihau na disodli cyfrifoldebau diogelu sefydliadau (neu gyflogwyr). Roedd llawer yn teimlo ei bod yn bwysig bod pobl mewn sefydliadau'n cael eu cefnogi i hysbysu, yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol i ddeall y dyletswyddau perthnasol a'u galluogi i weithredu'n unol â nhw. Pwysleisiodd sawl ymatebydd fod yn rhaid i sefydliadau fabwysiadu polisïau diogelu plant ac oedolion cadarn, a hyfforddi eu staff a'u gwirfoddolwyr yn rheolaidd, fel bod pawb yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau wrth amddiffyn pobl. Awgrymwyd y dylai trefniadau hyfforddi a goruchwylio sefydliadol gefnogi'r holl staff parhaol, staff dros dro a staff llanw, yn ogystal â gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

Roedd un ymatebydd, a oedd yn tueddu i anghytuno â gosod dyletswyddau ar unigolion (mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg) yn teimlo ei bod hi'n bwysig cael system agored a hygyrch o fewn amgylchedd gwaith, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu hysbysu yn gywir ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Roedd un arall o'r farn bod y cyfrifoldeb dros sicrhau gallu unigolion i adnabod materion diogelu a hysbysu amdanynt yn effeithiol, yn bendant ar ysgwyddau'r sefydliad sy'n eu cyflogi; mai anaml yr oedd methiant i hysbysu – ym mhrofiad yr ymatebydd – oherwydd bod unigolion yn penderfynu peidio â gweithredu, a phe bai dyletswyddau'n cael eu gosod ar unigolion, y gallai hyn arwain at greu bychod dihangol. Roedd sawl ymatebydd o'r farn bod yn rhaid cefnogi dyletswyddau i hysbysu gyda threfniadau chwythu'r chwiban cadarn, er mwyn rhoi'r hyder i unigolion fynegi pryderon yn eu sefydliad.

Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, o'r farn eu bod wedi bod yn gweithredu yn yr ysbryd hwn ers peth amser, gan atgyfnerthu cyfrifoldebau eu gweithluoedd drwy hyfforddiant a dulliau cytundebol. Roedden nhw'n teimlo y byddai'n fwy effeithiol yn ymarferol i wella rhannu gwybodaeth a chefnogi gweithio amlasiantaethol yn well, gan gynnwys gwell asesiadau, gwneud penderfyniadau a gweithio gyda dinasyddion, ar bob cam o'u cysylltiad â'r system ddiogelu. Roedd un awdurdod lleol o'r farn y byddai tynnu sylw at gyfrifoldebau unigolion a'u hatgyfnerthu, fel rhan o ofynion hysbysu sefydliadol, yn fwy priodol a chymesur na gosod dyletswyddau cyfreithiol. Roedd ymatebwyr eraill yn cwestiynu a fyddai gosod dyletswyddau ar unigolion yn gwneud y system bresennol yn fwy cadarn ac yn teimlo bod mandad cryf eisoes i 'bartneriaid perthnasol' weithredu, drwy'r dyletswyddau presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Roedd sawl galwad am dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd y dyletswyddau cyfreithiol presennol hyn; nododd rhai ymatebwyr nad oedd eu hadolygiadau rheolaidd o atgyfeiriadau ac archwiliadau diogelu'n awgrymu nad oedd partneriaid statudol yn hysbysu'n unol â'u dyletswyddau, a bod dealltwriaeth sefydledig ohonynt. Awgrymodd eraill bod angen archwilio a oedd y dyletswyddau presennol wedi arwain at gynydd mewn hysbysu, gwella'r gallu i adnabod plant ac oedolion sy'n wynebu risg ac, yn y pen draw, a ydyn nhw'n diogelu mwy o bobl rhag niwed.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd llawer o wybodaeth i gefnogi'r syniad y byddai gosod dyletswyddau ar unigolion yn sicrhau llai o risg i blant neu oedolion; nad oedd y dystiolaeth hyd yma wedi dangos yn bendant fod gweithredu dyletswyddau o'r fath yn effeithiol; na bod cyflwyno hysbysu gorfodol yn gwella deilliannau (i blant). Daeth sawl galwad – gan gynnwys gan Gomisiynydd Plant Cymru a Fforwm Gofal Cymru – am ymgysylltu, archwilio a dadansoddi diben, cwmpas a goblygiadau cyflwyno unrhyw ddyletswyddau newydd ymhellach. Mynegodd rhanddeiliaid ddi-ddordeb mewn cyfleoedd pellach i drafod a llywio dull Llywodraeth Cymru o ddiwygio hysbysu gorfodol. Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig ystyried dyletswyddau i hysbysu yn y cyd-destun diogelu ehangach a sicrhau y byddai mecanweithiau cymorth hanfodol (a buddsoddiad) yn cyd-fynd â'u gweithredu.

Tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng manteision tebygol gosod dyletswydd i hysbysu ar unigolion, y risgiau posibl, a'r beichiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwneud hynny, yn enwedig pe bai'r ddyletswydd yn absoliwt. Soniodd ymatebwyr am yr angen i sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau'n cael eu hystyried mewn ffordd sy'n ceisio atal canlyniadau anfwriadol a chynnal rhywfaint o farn broffesiynol neu ddisgresiwn rhesymol – i wneud y penderfyniadau cywir ar yr adeg gywir, gan gydnabod efallai na fydd hysbysu er lles gorau'r plentyn neu oedolyn (yn eu hamgylchiadau unigol) bob amser neu y gallai fod yn groes i'w dymuniad. Mynegwyd pryder ynghylch yr effaith niweidiol y gallai hysbysu gorfodol heb gymhwyster ei chael ar bobl sy'n ceisio cymorth, gofal a thriniaeth, neu'n destun trefnu hynny ar eu cyfer (pe bai gweithwyr proffesiynol yn gorfod hysbysu). Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhagdybio y byddai gweithwyr proffesiynol yn hysbysu am gam-drin plant, ac eithrio mewn rhai sefyllfaoedd amddiffynadwy, gan ddadlau y gallai mabwysiadu agwedd ddeuaidd amharu ar ddatblygu perthynas â phlant, a pheri i lai o bobl ifanc ddatgelu, neu deimlo'n ddiogel i ddatgelu. Pe bai hysbysu gorfodol yn cael ei gyflwyno, roedd galwadau hefyd i fod yn glir pa awdurdod y dylid ei hysbysu ac am rywfaint o ddisgresiwn o ran yr amserlenni ar gyfer hysbysu, er mwyn ystyried amgylchiadau pob achos.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai hysbysu fod yn fater o egwyddor broffesiynol, o fewn codau ymarfer yn hytrach na dyletswydd ddeddfwriaethol, gan nad oedd hysbysu pryderon byth yn fater du a gwyn. Soniwyd y dylai codau ymarfer proffesiynol presennol nodi cysylltiadau mwy eglur â dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd un ymatebydd, tra'n cytuno â hysbysu gorfodol lle y datgelwyd neu y gwelwyd camdriniaeth, yn tynnu sylw at sut mae'r dyletswyddau presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cynnwys rhywfaint o asesu a yw pobl yn profi neu'n wynebu risg o gam-drin, esgeulustod neu niwed, rhywbeth na fyddai'r rhan fwyaf o bobl – heb hyfforddiant

priodol – yn gallu ei wneud. Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai dyletswyddau unigol yn cael eu diffinio a'u rhoi ar waith yn ymarferol; yr angen am ganllawiau ar weithredu a monitro hynny, ac ar ganlyniadau peidio â chydymffurfio. Byddai angen trafod gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur i sicrhau bod dyletswyddau'n gymesur a realistig. Gallai dyletswydd absoliwt i hysbysu am bob amheuaeth resymol fod yn feichus iawn os yw'n ofynnol i sefydliadau bach gwirfoddol neu wirfoddolwyr unigol.

Mynegwyd rhywfaint o bryder y byddai gosod dyletswyddau'n uniongyrchol ar unigolion yn cynyddu hysbysu yn anghymesur, heb fynd i'r afael â'r risgiau sylfaenol, ac y gallai arwain at or-hysbysu, gydag unigolion yn fwy tebygol o hysbysu'n amhriodol er mwyn diogelu eu hunain o bosib yn hytrach nag atgyfeirio ar ôl ystyried haenau risg priodol. Er mewn rhai achosion y gallai cynyddu hysbysu helpu i nodi achosion difrifol na fyddai wedi cael sylw fel arall, gallai greu llawer o weithgarwch hefyd a fyddai'n tynnu sylw awdurdodau oddi wrth yr achosion mwyaf difrifol, a hynny'n arwain at gynyddu'r risg o golli golwg ar niwed a risg gwirioneddol. Disgrifiwyd y senario hon gan un ymatebydd fel un lle mae'r das wair yn tyfu a'r gwaith o ddod o hyd i'r nodwydd yn mynd yn anoddach. Roedd un arall yn teimlo y gallai gosod dyletswydd ar unigolion fod yn wrthgynhyrchiol, gan na fyddai hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng gwasanaethau a'u cymunedau, ond yn hytrach yn gwaethygu'r diffyg ymddiriedaeth mewn gofal cymdeithasol sy'n bodoli eisoes. Cafwyd sawl sylw bod yn rhaid cyflwyno unrhyw ddyletswyddau hysbysu manylach law yn llaw â chynnydd sylweddol yn y capasiti mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol i ymchwilio a gweithredu arnyn nhw. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai'n cynyddu hyder yn y system pe bai awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n hysbysu am ganlyniad eu hatgyfeiriad.

Gwnaed rhai sylwadau ynghylch y sefydliadau a'r grwpiau hynny y dylai dyletswyddau fod yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghwestiwn 3.6. Roedd galw am fwy o eglurder ynghylch pwy sydd yn 'bartneriaid perthnasol': a ydyn nhw, er enghraifft, yn cynnwys aelodau etholedig a'r sector addysg; ac a ddylid ehangu'r diffiniad o 'bartneriaid perthnasol' i gynnwys cyrff cyhoeddus nodedig eraill, megis y rhai sy'n cael eu rhestru yn adran 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>5</sup>. Nododd rhai sylwadau y gallai rhoi dyletswydd i hysbysu am leoliadau gwaith chwarae, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010<sup>6</sup> ar hyn o bryd, gyfrannu at gryfhau trefniadau diogelu; ac y dylid ystyried a ddylai cynorthwywyr personol, yn y sector gofal cymdeithasol, fod yn destun cofrestru. Roedd eraill yn teimlo y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y mae 'partneriaid perthnasol' yn dangos eu cydymffurfiaeth a sut y caiff unigolion eu dwyn i gyfrif.

Ymhlith y materion eraill a gafodd eu crybwyll wrth ymateb i Gwestiwn 3.1 roedd y risgiau i ymreolaeth pobl ifanc a'r egwyddor o gael llais yr unigolyn wrth wraidd y broses ddiogelu; ofnau y gallai dyletswyddau i hysbysu olygu bod plant yn llai tebygol o ddatgelu pryderon neu achosion o gam-drin; ac awgrym bod angen archwilio dyletswydd hysbysu orfodol ar bob oedolyn sy'n ddinesydd (fel yn nhalaith Tiriogaeth y Gogledd, Awstralia).

<sup>5</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/6/welsh>

<sup>6</sup> <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents/wales/welsh>

Roedd y sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i Gwestiwn 3.2 yn cynnwys y byddai gosod dyletswydd i hysbysu am unigolion mewn 'cyrff perthnasol' yn cryfhau amddiffyniad a diogelwch oedolion sy'n wynebu risg; bod yr egwyddor hon yn un gadarnhaol; na ddylid trin oedolion yn wahanol i blant yn hyn o beth; bod angen i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg fod ar sail gyfartal ag amddiffyn plant a phobl ifanc; ac y byddai manteision i gael dull safonol o weithredu mewn deddfwriaeth, ac un set o weithdrefnau, ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Roedd un ymatebydd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith fod 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn golygu unrhyw unigolyn dros 18 oed sydd ag anghenion gofal a chymorth a allai ei atal rhag amddiffyn ei hun. Gallai hyn gynnwys pobl sy'n gadael gofal, pobl ag anghenion ychwanegol ac unigolion sydd wedi profi trawma neu gamfanteisio. Mae'n hanfodol felly nad oes unrhyw ostyngiad mewn amddiffyniad na chymorth pan fydd pobl yn troi'n 18 oed. Roedd ymatebydd arall yn teimlo y dylai fod angen i'r rhai sy'n cefnogi a gweithio gydag oedolion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, fod yn fwy effro a gwyliadwrus; tynnu sylw at y ffaith y gallai rhai oedolion hŷn a phobl ag anableddau fod yn wynebu risg uwch nag eraill, yn cynnwys risg yn eu cartrefi eu hunain. Soniodd un darparwr gofal cymdeithasol i oedolion fod ganddo ofynion cytundebol i hysbysu ar waith eisoes, ac y byddai'n ystyried hynny'n ddisgwyliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd.

Tra'n cefnogi'r ddyletswydd sefydliadol bresennol i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg, mynegodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sawl pryder ynghylch cyflwyno dyletswydd gyfreithiol ar rai unigolion. Mae'n bwysig cydnabod hawliau ac ymreolaeth pobl hŷn ac i'w dymuniadau a'u teimladau gael eu hystyried yn llawn wrth benderfynu ar gamau sy'n ymwneud â phryderon diogelu, fel arall roedd risg y gallai eu lleisiau gael eu gwthio i'r cyrion. Er mwyn i ymyriadau diogelu fod yn effeithiol, roedd y Comisiynydd yn teimlo bod angen caniatáu i ymarferwyr ddefnyddio eu sgiliau gwneud penderfyniadau proffesiynol fesul achos unigol. Gallai dyletswydd i hysbysu, yn enwedig o'i orfodi drwy sancsiynau, atal pobl hŷn rhag gwneud datgeliadau cynnar (a allai fod wedi helpu i atal cam-drin rhag gwaethygu) a gallai arwain at arferion anghymesur i osgoi unrhyw risg (lle mae ymarferwyr yn mynegi pryderon fel mater o drefn, heb wirio manylion sefyllfa). Gallai hysbysu cynamserol niweidio perthynas pobl â'i gilydd (rhwng pobl hŷn ac ymarferwyr; a rhwng pobl hŷn ac aelodau o'r teulu) a allai waethygu yn hytrach na helpu i ddileu cam-drin. Dywedodd ymatebwyr eraill fod yn rhaid i farn oedolion fod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau; a bod dealltwriaeth ymarferwyr o faterion cydsynio a galluedd yn hanfodol. Parch at egwyddorion arweiniol eraill fel cyfrinachedd; Sêl y Gyffes; urddas; tynnwyd sylw at hunanbenderfyniaeth a hawliau goroeswyr, ynghyd â gwrthdaro posibl rhyngddynt â dyletswyddau absoliwt i hysbysu.

Tra'n cefnogi hysbysu gorfodol am gam-drin plant mewn egwyddor – gan deimlo ar y cyfan bod y manteision yn fwy na'r risgiau, ond gyda nifer o amodau ynghlwm wrth hynny – roedd BMA Cymru ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â gosod dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg ar unigolion mewn 'cyrff perthnasol', gan nodi'r heriau cyfreithiol a moesegol gwahanol iawn sy'n ymwneud ag oedolion bregus. Yn eu barn hwy, dylai meddygon annog oedolion â galluedd i chwilio am gymorth priodol a'i dderbyn ond gan gydnabod bod yr hawl ganddyn nhw i wneud penderfyniadau ynghylch sut maen nhw'n rheoli risgiau sydd ar waith, ac y dylid parchu penderfyniadau o'r fath fel arfer. Nododd y Gymdeithas Gwarchod

Meddygol (MPS) fod gofyniad rheoleiddiol eisoes i feddygon ystyried hysbysu awdurdodau perthnasol pan fo oedolyn yn wynebu risg o ddioddef cam-drin neu esgeulustod, ond mae hyn yn fwy cynnil na gofyniad cyfreithiol i hysbysu am bob achos. Gall gosod dyletswydd o'r fath beri risg o fod yn groes i'r dull sy'n rhoi'r claf yn ganolog y mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ei argymhell. Gallai'r MPS ddeall gosod dyletswydd i hysbysu lle nad yw'r galluedd gan oedolyn i wneud y penderfyniad ar ddatgelu, ac y byddai hysbysu er eu lles gorau neu lle gallai methu â hysbysu beri i eraill wynebu risg o farwolaeth neu niwed difrifol.

Dywedodd un ymatebydd fod angen cydbwysedd priodol mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd o ran cyfrifoldebau sefydliadau a'u staff, a'i fod yn teimlo y gallai trosglwyddo'r cyfrifoldeb i unigolyn arwain at fethiant gan sefydliadau i gydnabod a chyflawni eu cyfrifoldebau cyffredinol, ac y gallai hynny greu neu gyfrannu at ddiwylliant o feio. Fodd bynnag, o'i drafftio'n dda, gallai deddfwriaeth newydd annog cyflogwyr i ddarparu'r hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol. Dywedodd ymatebydd arall y gallai gosod dyletswyddau ar unigolion gael effeithiau negyddol ar staff – a bod angen ymchwilio ymhellach i hynny – tra bod trydydd ymatebydd yn anghytuno â gosod dyletswyddau ar staff rheng flaen, gan y gallai hyn lesteirio recriwtio mewn maes lle mae hynny'n anodd eisoes. Pe bai dyletswydd o'r fath yn cael ei chyflwyno, tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr angen am ymgyrch addysg glir a rhagweithiol i sicrhau bod yr holl bobl berthnasol yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.

### **Cwestiwn 3.3: Beth yn eich barn chi fyddai'r manteision, anfanteision, risgiau, costau, arbedion ac effeithiau ar gydraddoldeb, sy'n debygol o ddull o'r fath? Esboniwch eich ateb.**

Rhoddodd 36 o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, gyda llawer yn nodi buddion posibl ac anfanteision posibl ynghlwm wrth roi dyletswyddau i hysbysu ar unigolion mewn 'cyrff perthnasol'. Nododd 26 o leiaf un fantais bosibl, a nododd 23 o leiaf un anfantais. Yn ogystal, roedd sawl ymateb yn ystyried y goblygiadau tebygol o ran costau ac arbedion. Cafwyd rhai sylwadau'n ymwneud ag effeithiau posibl ar gydraddoldeb.

O ran y manteision posibl a nodwyd, thema gyffredin oedd y gallai gosod dyletswyddau ar unigolion arwain at fwy o atebolrwydd neu berchnogaeth wrth nodi a hysbysu am bryderon diogelu, a thrwy hynny atgyfnerthu'r egwyddor fod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. O dan y thema hon, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai hysbysu gorfodol yn sicrhau bod unigolion mewn 'cyrff perthnasol' yn fwy tebygol o hysbysu am risgiau a pheidio â chymryd yn ganiataol y bydd eraill (yn y sefydliad neu asiantaethau eraill) yn hysbysu. Teimlwyd hefyd y gallai hyn gryfhau atebolrwydd proffesiynol ac atgyfnerthu dyletswyddau sefydliadol i hysbysu. Wrth ystyried diwylliant sefydliadol, teimlwyd y byddai gosod dyletswyddau ar unigolion yn cryfhau newidiadau cadarnhaol o fewn diwylliannau gwaith, yn hybu chwilfrydedd proffesiynol ac yn gallu ysgogi gweithredu ar achosion hanesyddol.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith y gallai hysbysu gorfodol leihau dibyniaeth ar atgyfeirio trydydd parti; annog adnabod risgiau'n gynt; lleihau dyblygu neu oedi wrth hysbysu; cynyddu ymwybyddiaeth o hysbysu ymysg y boblogaeth ehangach; a gwella tryloywder a gonestrwydd o fewn sefydliadau. Teimlwyd y byddai hyn yn

arwain at fwy o amddiffyniad ac atgyfnerthu neu estyn trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Manteision eraill a ystyriwyd oedd y gallai dyletswyddau hysbysu gymell unigolion i ystyried diogelu fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi unrhyw sefyllfa, a phe byddai hynny'n arwain at fwy o atgyfeiriadau, gallai olygu hefyd bod gan awdurdodau lleol fwy o wybodaeth i symud ymlaen ag achosion a allai fod wedi'u cau fel arall. Nodwyd gwelliannau o ran casglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth ac asiantaethau perthnasol yn gweithio'n well mewn partneriaeth fel manteision posibl, o ran atal y rhai a allai fod yn wynebu risg rhag llithro drwy'r bylchau – yn enwedig o ran trosglwyddo oddi mewn i'r system – a sicrhau bod llai o achlysuron i ymyrryd, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu colli. Pwysleisiodd ymateb arall sut y byddai dyletswyddau cyfreithiol yn galluogi rheoleiddwyr i gymryd camau gorfodi pe bai darparwyr neu unigolion yn methu â hysbysu.

Wrth ystyried yr anfanteision a'r risgiau tebygol ynghlwm wrth osod dyletswyddau ar unigolion, nododd llawer y potensial i hyn gynyddu nifer yr atgyfeiriadau a fyddai'n cael eu derbyn gan awdurdodau lleol. Roedd rhai'n teimlo y gallai hyn sbarduno dyblygu atgyfeiriadau, neu hysbysu er mwyn bod yn ddiogel, ac y gallai hynny arwain at fethiant i weithredu tra'n cynyddu'r pwysau ar wasanaethau, a hynny wedyn yn gallu arwain at oedi wrth ymdrin â'r achosion mwyaf difrifol. Ynghyd â hyn, teimlad rhai oedd bod perygl o gynyddu biwrocraziaeth heb ennill fawr ddim, gyda llai o ystyried risgiau a rheolaeth briodol ohonynt – mwy o weithredu wedi'i arwain gan broses, o fewn hinsawdd osgoi risg. Nododd un ymatebydd sut y gallai gosod dyletswyddau ar unigolion, yn ymarferol, arwain at ostwng y trothwy presennol (o 'amheuaeth resymol') ar gyfer hysbysu. Rhywbeth arall a oedd yn cael ei ystyried yn anfantais oedd mwy o ymyrraeth ym mywydau pobl a theuluoedd.

O ran yr effeithiau ar unigolion a allai fod yn destun dyletswyddau newydd, teimlwyd y gallai rhai godi pryderon oherwydd ofn wynebu cosb os nad yw hysbysu'n digwydd, yn hytrach na rhoi ystyriaeth ddyledus i'r sefyllfa. Awgrymodd eraill y gallai arwain at ddychwelyd i ddiwylliant o feio a gwneud y rhai nad ydynt yn hysbysu yn fychod dihangol. Gallai hyn alluogi sefydliadau i drosglwyddo eu cyfrifoldebau diogelu i unigolion, gan wanhau dyletswyddau hysbysu sefydliadol presennol. Rhybuddiodd sawl ymatebydd am y risgiau o gael gwared ar arfer barn broffesiynol, tra bod eraill yn teimlo na fyddai hysbysu gorfodol ynddo'i hun yn gwella ansawdd crebwyll ymarferwyr nac i wybod y ffordd orau o ymateb lle gallai plant neu oedolion fod yn wynebu risg.

O ran cynnydd tebygol mewn atgyfeiriadau, dywedodd llawer o'r ymatebwyr y byddai angen adnoddau ychwanegol i reoli hyn, o fewn timau diogelu awdurdodau lleol; ar gyfer hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'u dyletswydd, a chanlyniadau peidio â chydymffurfio; ac wrth ddatblygu'r gweithlu, ar adeg pan fo adnoddau'n gynyddol dynn. Roedd rhai'n teimlo y gellid defnyddio'r costau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio a chosbi unigolion sy'n methu â hysbysu yn fwy effeithiol, er mwyn atal neu ymateb i niwed.

Nodwyd risgiau ac anfanteision yn ymwneud â'r potensial ar gyfer mwy o bwysau ar unigolion a sectorau, a allai arwain at golli cyfleoedd hysbysu. Yn ei dro gallai hynny effeithio'n uniongyrchol ar staff, gan achosi pryder ac euogrwydd os ydynt yn pryderu

nad ydynt wedi hysbysu mewn modd amserol. Gallai fod risgiau posibl hefyd i ddiogelwch personol y rhai sy'n hysbysu a staff penodol, y gallai fod angen iddynt fynychu gwrandawiadau llys yn fwy rheolaidd. Teimlwyd hefyd bod risg y byddai unigolion yn dewis peidio â gweithio yn y sector, neu rhag ymgymryd â rolau penodol oherwydd y cyfrifoldeb statudol ychwanegol. Yn ei dro gallai hyn arwain at fwy o heriau gweithlu i sefydliadau.

Soniwyd am oblygiadau posibl i chwythwyr chwiban hefyd, ac er y cydnabuwyd bod deddfwriaeth a pholisïau'n cynnig rhywfaint o amddiffyniad i unigolion rhag unrhyw ganlyniadau yn sgil gwneud datgeliad gwarchoddedig, fodd bynnag gallai'r rhai sy'n hysbysu am bryderon diogelu fod yn agored i niwed yn y gweithle.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at gwestiynau allweddol yn eu tyb hwy yn ymwneud â hysbysu gorfodol, fel:

- Pwy fydd yn rheoli'r ddyletswydd?
- Beth fydd y broses ar gyfer peidio â chydymffurfio?
- Sut bydd rhwymedigaeth gyfreithiol o'r fath yn cael ei hariannu?
- Sut bydd unigolion yn cael eu hadnabod, o ba broffesiynau, ac ar ba lefelau mewn 'cyrff perthnasol'?
- Sut bydd hyn yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau a'r gofynion cofrestru sydd eisoes ar waith ar gyfer rhai gweithwyr proffesiynol, fel y rhai sy'n cael eu rheoleiddio gan Gyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru?

Cyfeiriodd ambell un o'r ymatebwyr at effaith negyddol bosibl hysbysu gorfodol ar y berthynas therapiwtig rhwng gweithwyr proffesiynol a chleientiaid. Gallai ddarbwylllo'r rhai sy'n wynebu risg rhag meithrin perthnasoedd dibynadwy â gweithwyr proffesiynol, a datgelu gwybodaeth iddynt, neu beri i rai ymarferwyr fod yn amharod i ymgymryd ag ymyriadau neu drafodaethau a allai sbarduno dyletswydd i hysbysu.

O ran costau ac arbedion, fel y manylwyd uchod, nododd llawer o ymatebwyr y byddai angen adnoddau ychwanegol, er enghraifft mewn perthynas â hyfforddiant a gorfodi. Roedd dau ymatebydd yn teimlo bod arbedion yn bosibl, drwy orfodi dirwyon, neu drwy nodi a rheoli ffactorau yn gynt, a allai waethygu fel arall, gyda'r angen, er enghraifft, am gymorth iechyd meddwl neu eiriolaeth maes o law.

O ran effeithiau cydraddoldeb, roedd yr ymatebion yn gymysg, gydag un ymatebydd yn teimlo y byddai'r rhain yn cael eu gwella'n sylweddol, un arall yn teimlo na fyddai hysbysu gorfodol yn effeithio ar gydraddoldeb, ond byddai angen monitro'r gydymffurfiaeth i ddangos a oedd unrhyw annhegwch o ran camau gorfodi. Nododd dau ymatebydd risgiau posibl mewn perthynas â chydaddoldeb, er enghraifft, lle gallai tlodi gael ei gamgymryd am esgeulustod, ac, fel y mae ymchwil academaidd wedi'i ddarganfod, bod gweithdrefnau amddiffyn yn anghymesur o ran ymwneud ag unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol neu incwm isel.

### **Cwestiwn 3.4: Pa wersi gallwn ni eu dysgu o'r dyletswyddau i hysbysu mewn gwledydd eraill?**

Rhoddodd 26 o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, gyda llawer yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu gwersi o wledydd eraill. Nododd ychydig o ymatebion wledydd gyda deddfau hysbysu gorfodol ar waith: roedd y rhain yn cynnwys Gogledd

Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Awstralia, rhai taleithiau yn Unol Daleithiau America, Canada, Denmarc a Ffrainc.

Cyfeiriodd wyth o'r ymatebwyr at y dystiolaeth fyd-eang gymysg, gyda rhai'n dweud nad oes unrhyw ganlyniadau niweidiol sylweddol wedi'u nodi ac eraill heb fod yn ymwybodol o unrhyw effeithiau sylweddol ar gadw plant yn ddiogel. Pwysleisiodd sylwadau eraill yr angen am ddadansoddi mwy ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol mewn gwledydd lle mae hyn wedi'i roi ar waith a sut y gallai hyn effeithio ar Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar unrhyw gynnydd cychwynnol mewn hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn gysylltiedig â gweithredu dyletswyddau cyfreithiol.

Nododd sawl ymatebydd yr anhawster o sefydlu casgliadau pendant oherwydd y rheolau, canllawiau a chyd-destunau gwahanol yn y gwledydd hynny lle mae hysbysu gorfodol ar waith. Pwynt arall a nodwyd oedd bod cynllun hysbysu gorfodol wedi cael ei ystyried ar lefel y DU yn ddiweddar a'i wrthod.

Roedd ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at y dystiolaeth o effaith negyddol mewn gwledydd sydd â dyletswyddau hysbysu gorfodol mwy cyffredinol, gyda sylwadau'n nodi nad yw plant yn cael eu diogelu'n well yn ymarferol a'i fod wedi arwain at wasanaethau cymdeithasol yn cael eu boddi gan hysbysu disylwedd. Mae rhai sylwadau'n dyfynnu adolygiadau cynnar o gynlluniau o'r fath mewn mannau eraill sydd wedi awgrymu'r angen am ddull mwy cynnil, ac mai prin iawn oedd y lle ar gyfer barn broffesiynol o fewn y dyletswyddau hyn, sy'n cael effaith ar ymreolaeth plentyn sy'n ddiodeffwr a diffyg parch at hawliau plentyn unigol. Nododd sylw pellach fod ymyriadau'n targedu'r rhai heb alluedd yn aml, ac o'r herwydd, y gellid ystyried eu bod yn gwahaniaethu ac yn allgáu pan fo prosesau penderfynu a gefnogir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn absennol.

Roedd un sylw'n ystyried tystiolaeth o Dde Affrica, a themlai fod yn rhaid cyflwyno unrhyw gynllun hysbysu gorfodol o'r fath yng Nghymru law yn llaw â gwelliannau mwy cyffredinol i'r system amddiffyn plant. Roedd gwersi ychwanegol a nodwyd yn cynnwys yr anhawster wrth weithredu'r newidiadau a'r mesurau peidio â chydymffurfio, gyda'r ymatebydd yn mynd ymlaen i dynnu sylw at bwysigrwydd ymgynghoriad trylwyr ar unrhyw broses weithredu.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod hyn yn gyfle i Lywodraeth Cymru fod yn arweinydd yn y maes hwn a dysgu gan wledydd sydd wedi rhoi deddfau o'r fath ar waith, yn ogystal â deall yn well a oes mantais i wahaniaethu rhwng cam-drin ac esgeulustod wrth hysbysu. Tynnodd eraill sylw at ymchwil sy'n dangos tystiolaeth fod deddfau hysbysu gorfodol yn gysylltiedig â gwell adnabyddiaeth o achosion<sup>7</sup> neu fesurau ymyrraeth gynnar, megis tynnu sylw at nifer uchel o ddigwyddiadau hysbysadwy.

### **Cwestiwn 3.5: Pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno – ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg – a ddylai'r rhain fod ochr yn ochr â'r dyletswyddau presennol ar sefydliadau o dan Ddeddf 2014, neu gymryd eu lle?**

<sup>7</sup> Mathews, B. 2014. "Mandatory Reporting Laws and Identification of Child Abuse and Neglect: Consideration of Differential Maltreatment Types, and a Cross-Jurisdictional Analysis of Child Sexual Abuse Reports" *Social Sciences* 3, rhif 3: 460-482. <https://doi.org/10.3390/socsci3030460>



Rhoddodd 67 o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, ac o'r rheini:

- roedd 43 yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, y dylent fod ochr yn ochr, neu gael eu cynnwys yn, neu alinio â'r dyletswyddau sefydliadol presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg;
- roedd 8 yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, y dylent ddisodli'r dyletswyddau presennol;
- roedd 6 yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol; a
- roedd 10 yn ansicr neu ddim wedi datgan safbwynt pendant.

Roedd 43 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, y dylent fod ochr yn ochr, neu gael eu cynnwys yn, neu alinio â'r dyletswyddau sefydliadol presennol, a rhoddwyd nifer o resymau am hyn. Un rheswm oedd bod gan sefydliadau gyfrifoldeb i sicrhau bod polisïau a systemau diogelu effeithiol ar waith, a bod gan staff y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth berthnasol i ymgymryd â'u rolau. Dywedodd un ymatebydd, er bod trefniadau ar waith, nad yw unigolion yn cyflawni eu rolau fel sy'n ofynnol bob amser, felly dylai'r ddwy ddyletswydd fod ar waith. Roedd ymatebydd arall yn cydnabod y potensial ar gyfer methiannau ar lefel unigol a sefydliadol.

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo na ddylid gwanhau dyletswyddau presennol sydd gan sefydliadau na gweithdrefnau sefydledig ar gyfer hysbysu, gyda sylwadau'n cynnwys:

- na ddylai unrhyw ddyletswyddau newydd ddisodli neu ryddhau sefydliadau o'u dyletswyddau;
- bod angen o hyd i sefydliadau gael eu dwyn i gyfrif a bod yn atebol o hyd;
- bod angen perchnogi'r dyletswyddau; ac
- y byddai cynnal dyletswyddau presennol yn atal cyflogwyr rhag troi cefn ar eu cyfrifoldeb.

Roedd sawl ymatebydd arall yn cydnabod bod dyletswyddau sefydliadol yn allweddol i hybu ymwybyddiaeth a sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei gyflwyno, ar draws cyrff corfforaethol; yn ogystal â bod yn hanfodol o ran ymgorffori diogelu yn eu diwylliant a'u harferion gwaith cyffredinol. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys yr angen i gynnal y pwyslais ar sefydliadau i sicrhau bod eu gweithluoedd wedi'u hyfforddi'n ddigonol, yn gymwys ac yn hyderus i hysbysu; y dylai sefydliadau barhau i fod yn gyfrifol ar y cyd am unrhyw fethiannau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; ac y gallai sefydliadau fod mewn lle gwell i hysbysu, oherwydd adnoddau a materion eraill.

Cyfeiriwyd at y ffaith y gallai dyletswyddau unigol – law yn llaw â dyletswyddau sefydliadau – gynyddu perchnogaeth bersonol ac arfer chwilfrydedd proffesiynol, y mae adolygiadau diogelu wedi tynnu sylw atynt. Roedd galw am gyflwyno unrhyw ddyletswyddau unigol mewn ffordd sy'n cryfhau arferion presennol, heb ansefydlogi dulliau a phrosesau sefydledig sydd wedi gwella gweithdrefnau diogelu yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai'r dyletswyddau redeg yn gyfochrog i ddechrau, er mwyn atal achosion rhag syrthio drwy'r craciau, ac y dylid parhau i'w hadolygu.

Roedd 8 o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai unrhyw ddyletswyddau newydd ddisodli'r dyletswyddau presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Ymhlith y rhesymau a roddwyd oedd y gallai arwain at ofynion a allai fod yn gwrthdaro; bod angen i unrhyw ddyletswyddau fod yn glir ac yn hygyrch, heb unrhyw ddryswch yn bosibl; y dylid symleiddio dyletswyddau newydd a chyfredol, er mwyn lleihau'r risg o hysbysu dyblyg; ac y dylid canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn deall eu dyletswyddau a pha gamau sydd angen iddynt eu cymryd. Argymhellodd un ymatebydd adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol i amddiffyn plant, a byddai'n cefnogi ei disodli gyda deddfwriaeth newydd i gwmpasu pob lleoliad ac amddiffyn plant rhag pob math o niwed.

Roedd sylwadau a wnaed gan y 6 ymatebydd a oedd yn anghytuno â chyflwyno dyletswyddau unigol yn cynnwys na ddylid cyflwyno gofynion cyfreithiol o dan lefel rheolwyr, gan beidio ag atal unigolion rhag arfer eu hawl i hysbysu; bod dyletswyddau sefydliadol yn fwy tebygol o arwain at atgyfeiriadau brys yn cael eu gwneud yn briodol; a bod gosod dyletswydd yn debygol o ddarbwyllio unigolion rhag dilyn gyrfa mewn rhai proffesiynau a pheri i eraill adael. Awgrymodd un ymatebydd y gallai fod yn fwy effeithiol, er mwyn lleihau cam-drin plant ac oedolion, pe bai deddfwriaeth yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r rhai sy'n gyfrifol am y cam-drin; gofynnodd un arall a oedd tystiolaeth i ddangos nad oedd y dyletswyddau presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn gweithio.

Ymhlith y pwyntiau eraill a grybwyllwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd bod gormod o gyfrifoldebau eisoes yn gorgyffwrdd yn y maes diogelu a bod angen sicrhau bod pawb yn atebol – o'r rhai sy'n gwirfoddoli yn eu clwb lleol i swyddi uwch yn y llywodraeth, gan gynnwys gwleidyddion. Galwodd un ymatebydd am ddadansoddi sut y byddai unrhyw ddyletswydd newydd ar unigolion yn rhyngweithio â dyletswyddau statudol a hysbysu cyfredol eraill, er mwyn helpu i osgoi anghysondebau o ran dull gweithredu a gwahanol safonau o ran rhwymedigaeth a sancsiynau. Gofynnodd un arall am fwy o wybodaeth am unrhyw ddyletswyddau arfaethedig cyn teimlo ei fod yn gallu ateb y cwestiwn.

**Cwestiwn 3.6: Pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, a ddylen nhw fod yn berthnasol i weithlu'r 'partneriaid perthnasol' presennol o dan adran 162 o Ddeddf 2014 (gan gynnwys timau troseddau ieuenctid mewn perthynas â phlant), neu'n ehangach, er enghraifft i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau crefyddol neu chwaraeon, etc., ac yn benodol:**

**a) Beth yw eich barn am hyn o ran plant (o dan 18 oed)?**

**b) Beth yw eich barn am hyn o ran oedolion?**

Rhoddodd 66 o ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.6(a), ac o'r rheini:

- roedd 2 yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol mewn perthynas â phlant sy'n wynebu risg yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol i weithlu 'partneriaid perthnasol' presennol;
- roedd 53 yn teimlo, pe bai'r dyletswyddau hysbysu unigol hyn yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol ar sail ehangach;
- roedd 4 yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol; ac
- roedd 7 yn ansicr neu ddim wedi mynegi safbwynt pendant.

Rhoddodd 60 o ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.6(b), ac o'r rheini:

- roedd 2 yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol mewn perthynas ag oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol i weithlu 'partneriaid perthnasol' presennol;
- roedd 46 yn teimlo, pe bai'r dyletswyddau hysbysu unigol hyn yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol ar sail ehangach;
- roedd 4 yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol;
- roedd 1 yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol mewn perthynas ag oedolion; ac
- roedd 7 yn ansicr neu ddim wedi mynegi safbwynt pendant.

Rhoddodd 59 o'r ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.6(a) a Chwestiwn 3.6(b), gyda 54 o'r un farn neu farn debyg mewn perthynas â chyflwyno dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y crynodeb isod.

Roedd 53 o'r ymatebwyr mewn perthynas â Chwestiwn 3.6(a) a 46 mewn perthynas â Chwestiwn 3.6(b) – yn teimlo y dylai dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg fod yn berthnasol ar sail ehangach na 'phartneriaid perthnasol' presennol awdurdod lleol, yn unol â'r diffiniad yn adran 130(5) ac adran 128(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd sylwadau gan y rhai a oedd yn arddel y farn hon yn cynnwys na ddylai oedran person sy'n wynebu risg fod o bwys; os yw unrhyw wasanaeth yn darparu cymorth i blant neu oedolion sy'n wynebu risg, dylai fod dyletswydd i'w diogelu; ac y byddai'n cryfhau arferion diogelu pe bai'r gweithlu ehangach i gyd yn gweithio yn ôl yr un canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer hysbysu. Roedd llawer o'r farn ei bod yn hanfodol bod dyletswyddau hysbysu yn berthnasol ar sail ehangach, gyda rhai'n dweud bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn fwy tebygol o fod wedi datblygu gwell perthynas â nhw; yn fwy tebygol, yn y lle cyntaf, o ddatgelu'r peryglon sy'n eu hwynebu iddynt; ac y gall arwyddion o gam-drin fod yn fwy amlwg i'r rhai sy'n arwain gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau anffurfiol gan gynnwys lleoliadau crefyddol, chwaraeon a chymunedol, yn hytrach nag i ymarferwyr mewn asiantaethau statudol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser.

Tra'n cytuno y dylai dyletswyddau fod yn berthnasol ar sail ehangach, roedd sawl ymatebydd yn cydnabod yr anawsterau posibl o ran cyflawni hyn. Cyfeiriodd rhai at effeithiau negyddol ar staffio, gan ei bod yn bosibl na fydd unigolion yn fodlon ymgymryd â rolau pe bai cyfrifoldebau statudol ychwanegol. Byddai gorfodi unrhyw ddyletswyddau ar ddarparwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn anodd a gallai arwain at lai o wasanaethau'n gweithredu, pe bai gofynion rheoleiddio ar waith yn hytrach nag arfer gorau. Byddai angen bodloni anghenion hyfforddi sylweddol hefyd pe bai dyletswyddau'n berthnasol ar sail ehangach. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau o roi dyletswyddau ar sefydliadau ehangach, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull hwn, er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i nodi a diogelu'r rhai sy'n wynebu risg.

Roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai a oedd yn teimlo y dylai dyletswyddau fod yn berthnasol i weithlu 'partneriaid perthnasol' yn unig – 2 ymatebydd yr un i Gwestiwn 3.6(a) a Chwestiwn 3.6(b) – yn cynnwys, fel uchelgais, yr angen i'r ddyletswydd fod yn berthnasol ar sail ehangach ond nad oeddent yn siŵr sut y byddai'r ddeddfwriaeth yn gweithio'n ymarferol, sut y byddai hyn yn cael ei reoli; ac

yn lle gosod dyletswydd ar leoliadau ehangach, megis grwpiau crefyddol a chwaraeon, dylai fod cymorth a hyfforddiant ychwanegol ar gael.

Roedd rhai ymatebwyr - 4 ymatebydd yr un i Gwestiwn 3.6(a) a Chwestiwn 3.6(b) - yn anghytuno â chyflwyno dyletswyddau unigol. Unwaith eto roedd y rhesymau'n cynnwys y gallai ei gwneud yn anoddach i recriwtio o fewn y sectorau ble byddai ar waith. Pe bai dyletswyddau unigol yn cael eu cyflwyno'n ehangach, nododd un ymatebydd y gallai arwain at system lle'r oedd dyletswyddau i hysbysu ar rai unigolion ond nid ar eu sefydliad. Teimlai un arall fod unigolion yn dda am hysbysu am risgiau yn gyffredinol ond bod awdurdodau'n wael am weithredu arnynt, ac y gallai dyletswyddau unigol, o'u cyflwyno, dynnu sylw oddi wrth fethiannau systemig i weithredu. Roedd ymatebydd arall yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol, yn benodol mewn perthynas ag oedolion.

O ran pwy ddylai fod yn destun y dyletswyddau, roedd 27 o'r rhai a atebodd Gwestiwn 3.6(a) yn teimlo y dylai fod gan bawb sy'n gweithio gyda phlant ddyletswydd i hysbysu. Roedd 22 o'r rhai a ymatebodd i Gwestiwn 3.6(b) o'r un farn neu farn debyg mewn perthynas ag oedolion sy'n wynebu risg. Dywedodd 22 o'r rhai a atebodd Gwestiwn 3.6(a) a 22 o'r rhai a ymatebodd i Gwestiwn 3.6(b) yn benodol y dylai'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau crefyddol neu chwaraeon fod yn destun y dyletswyddau. Croesawyd hynny gan un ymatebydd, o ystyried yr hyn y cyfeiriodd ato fel amllder digwyddiadau hysbys yn y lleoliadau hynny. Nododd un arall fod monitro hysbysu a diogelu yn y lleoliadau hyn wedi bod yn anodd yn y gorffennol, ac er bod gwelliannau yn eu trefniadau diogelu wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, byddai cyflwyno dyletswydd orfodol yn sicrhau eu bod yn symud tuag at gydymffurfio gwell.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill o ran pwy ddylai fod yn destun dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg, roedd: ysgolion bonedd; grwpiau plant fel Rainbows, Sgowtiaid, Geidiaid ac ati; grwpiau gofal plant a grwpiau chwarae; clybiau cymunedol/grwpiau wedi'u trefnu; elusennau; busnesau cofrestredig; cyrff cysylltiedig; cartrefi nyrsio preifat a chartrefi gofal; y rhai sy'n darparu gofal a chymorth i oedolion sy'n wynebu risg e.e. pobl hŷn, y rhai sydd ag anableddau dysgu ac anableddau eraill; cymorth i bobl sy'n gadael gofal ac eraill ag anghenion ychwanegol.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg - o dan oruchwyliaeth, heb oruchwyliaeth, gyda thâl neu'n ddi-dâl - gael eu cynnwys yn y diffiniad o fod mewn swyddi o ymddiriedaeth. Awgrymodd ymatebydd arall fod y ddyletswydd i hysbysu yn cael ei hestyn i'r rhai y mae'r Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu<sup>8</sup> yn cyfeirio atynt.

Roedd sylwadau pellach yn yr ymatebion i Gwestiynau 3.6(a) a 3.6(b) yn cynnwys:

- Mae camddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd fod pob sefydliad o'r fath yn cael eu gwirio a'u cofrestru.

---

<sup>8</sup> <https://www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu>

- Nid oes angen i lawer o leoliadau ffydd gofrestru fel darparwyr gofal plant a chwarae yn sgil cael eu heithrio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
- Mae llawer o sefydliadau'n cyflogi gweithwyr proffesiynol heb eu rheoleiddio (lle nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru) sy'n codi cwestiynau ynghylch a fyddai'n rhaid sefydlu corff disgyblu annibynnol (i gefnogi unrhyw ddyletswydd a osodir arnynt) neu a fyddai hyn yn dibynnu ar weithdrefnau disgyblu mewnol sefydliadau.
- Roedd dau ymatebydd yn cefnogi'r farn bod pawb mewn cymdeithas yn gyfrifol am ddiogelu, felly, dylai fod dyletswydd ar bob oedolyn i hysbysu am bryderon diogelu.
- Roedd yn bwysig cydnabod nad yw oedolion yn 'oedolion sy'n wynebu risg' o reidrwydd.
- Dylai unrhyw leoliad sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg fod â system glir o hysbysu, gydag offer ac adnoddau priodol i rymuso eu gweithlu i ddarparu gofal cynhwysol a phriodol, gyda mesurau diogelu. Awgrymodd yr ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru roi fframwaith ar waith i gefnogi datblygu systemau clir a chyson.
- Dylai'r gyfraith ystyried unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â dyletswyddau i hysbysu fel achos o gynorthwyo'r cyflawnwr, a bod yn rhaid i sancsiynau ei gwneud yn glir bod amddiffyn plant [ac oedolion sy'n wynebu risg] yn hollbwysig. Nid yw methu ag ymateb i gam-drin yn opsiwn derbyniol.
- Gallai cosbau i'r rhai mewn lleoliadau crefyddol neu chwaraeon fod yn "llai".
- Dylai dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg fod yn glir ac yn gryno, yn debyg i'r ddyletswydd ar weithwyr proffesiynol rheoledig yng Nghymru a Lloegr i hysbysu am anffurfio organau cenhedlu benywod<sup>9</sup>.

**Cwestiwn 3.7: Pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, pa fathau o alwedigaeth neu rolau ddylai fod yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd (e.e. aelodau o broffesiynau rheoleiddiedig; staff cyflogedig, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu rheoleiddio; gwirfoddolwyr), ac yn benodol:**

- Beth yw eich barn am hyn o ran plant (o dan 18 oed)?**
- Beth yw eich barn am hyn o ran oedolion?**

Rhoddodd 62 o ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.7(a), ac o'r rheini:

- roedd 37 yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol mewn perthynas ag oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol i'r holl fathau o alwedigaethau a nodwyd (e.e. gweithwyr proffesiynol rheoledig, unrhyw staff cyflogedig a gwirfoddolwyr);
- roedd 8 yn teimlo, pe bai'r dyletswyddau hysbysu unigol hyn yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol i unrhyw staff cyflogedig (boed yn cael eu rheoleiddio ai peidio);
- roedd 4 yn teimlo, pe bai'r dyletswyddau hysbysu unigol hyn yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol weithwyr proffesiynol rheoledig;
- roedd 5 yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol; a
- gwnaeth 8 awgrymiadau eraill.

<sup>9</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/31/section/5B>

Rhoddodd 52 o ymatebwyr ateb i Gwestiwn 3.7(b), ac o'r rheini:

- roedd 31 yn teimlo, pe bai dyletswyddau hysbysu unigol mewn perthynas ag oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol i'r holl fathau o alwedigaethau a nodwyd (e.e. gweithwyr proffesiynol rheoledig, unrhyw staff cyflogedig a gwirfoddolwyr);
- roedd 7 yn teimlo, pe bai'r dyletswyddau hysbysu unigol hyn yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol i unrhyw staff cyflogedig (boed yn cael eu rheoleiddio ai peidio);
- roedd 3 yn teimlo, pe bai'r dyletswyddau hysbysu unigol hyn yn cael eu cyflwyno, y dylent fod yn berthnasol weithwyr proffesiynol rheoledig;
- roedd 5 yn anghytuno â'r egwyddor o ddyletswyddau hysbysu unigol; a
- gwnaeth 6 awgrymiadau eraill.

Roedd pob un o'r 52 ymatebydd a roddodd ateb i Gwestiwn 3.7(b) wedi ateb Cwestiwn 3.7(a) hefyd, gyda 42 yn mynegi'r un farn neu farn debyg mewn perthynas â chyflwyno dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y crynodeb isod.

Pe baen nhw'n cael eu cyflwyno, roedd 37 ymatebydd mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(a) a 31 ymatebydd mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(b) – yn teimlo y dylai pob galwedigaeth a nodir yn y cwestiwn fod yn destun dyletswyddau unigol i hysbysu am y rhai sy'n wynebu risg. Rhoddodd llawer y rhesymeg dros eu hateb, er enghraifft, i atal amwysedd; i sicrhau bod y posibilrwydd o gam-drin yn cael ei gydnabod mewn cyd-destunau fel chwaraeon neu weithgareddau diwylliannol; neu i helpu i hybu ymwybyddiaeth a gwyliadwriaeth y cyhoedd. Roedd nifer o'r ymatebwyr hyn yn ystyried yr effeithiau posibl, yn enwedig ar wirfoddoli, pe bai dyletswydd statudol i hysbysu ar waith; yn ogystal â'r heriau ymarferol o weithredu a rheoleiddio ar gyfer pob rôl. O ran gwirfoddolwyr, nododd un sylw y dylid gosod unrhyw ddyletswyddau ar lefel sefydliadol, yn hytrach nag ar lefel unigol.

Os yw dyletswyddau'n cael eu cyflwyno, roedd rhai ymatebwyr – 8 mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(a) a 7 mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(b) – yn teimlo y dylid eu gosod ar unrhyw staff cyflogedig, hyd yn oed y rhai nad ydynt yn aelodau o broffesiynau a reoleiddir, mewn sectorau penodol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd y rhain yn cynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, y gwasanaethau prawf, yr heddlu, ac awdurdodau lleol, yn ogystal â gwasanaethau chwaraeon a hamdden. Tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau bod hyfforddiant a chymorth yn cael ei ddarparu i'r staff hyn, ynghyd â phwysigrwydd, wrth ddiffinio unrhyw restr o rolau, asesu'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod dyletswyddau a'u heffaith bosibl ar ddarpariaeth gwasanaethau. Roedd ymatebwyr eraill – 4 mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(a) a 3 mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(b) – yn teimlo y dylai dyletswyddau fod yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio mewn proffesiynau rheoledig yn unig.

Roedd sylwadau gan rai o'r rhai nad oeddent yn cytuno â chyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol – 5 yr un mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(a) a Chwestiwn 3.7(b) – yn rhoi rhesymau tebyg i'r anfanteision yn y crynodeb i Gwestiwn 3.3.

Cyflwynwyd awgrymiadau amgen gan rai ymatebwyr – 8 mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(a) a 6 mewn perthynas â Chwestiwn 3.7(b) – ynghylch pwy ddylai'r dyletswyddau fod yn berthnasol iddynt, megis gweithwyr y llywodraeth; aelodau etholedig; yr heddlu; a gweithwyr cymdeithasol neu reolwyr (nid staff ar gyflogau is na gwirfoddolwyr); neu unrhyw sefydliad sy'n darparu gwasanaeth gofal a chymorth. Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys yr angen i gyflwyno unrhyw ddyletswyddau newydd yn raddol, i wahanol gategoriâu, er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd cyn eu cyflwyno ymhellach; a galwadau am fwy o arweiniad a chyfathrebu i'r cyhoedd yn ehangach ynghylch hysbysu am bryderon. Nododd ymatebydd arall fod angen cyngor mwy clir ac ymarferol ar sut i hysbysu am gam-drin, ac wrth bwy. Awgrym cyffredin oedd ystyried defnyddio'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd i gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel sail ar gyfer dyletswyddau hysbysu unigol, h.y., y rhai sy'n cymryd rhan mewn 'gweithgaredd rheoledig' o fewn ystyr Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai gwirfoddolwyr fod yn destun dyletswyddau hysbysu unigol mewn perthynas â phlant sy'n wynebu risg, ond nid oedolion. Roedd eraill yn teimlo y dylai unrhyw ddyletswydd mewn perthynas ag oedolion sy'n wynebu risg fod yn berthnasol i rolau neu leoliadau penodol yn unig, lle gallai mynychder y risg i unigolion fod yn fwy, a theimlai un arall, er y dylid cyflwyno dyletswyddau hysbysu, ar ryw lefel, mewn perthynas â phlant, nad oedd yn cefnogi cyflwyno dyletswyddau mewn perthynas ag oedolion.

### **Cwestiwn 3.8: Pa sanctiynau ydych chi'n meddwl fyddai'n gymesur neu'n briodol am fethu â chydymffurfio â dyletswydd hysbysu unigol?**

Rhoddodd 64 o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn, gyda llawer yn cyfeirio at sawl math o sanctiynau neu ddulliau gorfodi, yn aml yn dibynnu ar: y lleoliadau neu'r gweithgareddau dan sylw; a yw unigolion yn weithwyr proffesiynol rheoledig, yn staff cyflogedig neu'n wirfoddolwyr; neu'r amgylchiadau ynghlwm wrth y sefyllfa (er enghraifft, lle bu methiannau dro ar ôl tro, lle'r oedd amheuaeth yn hytrach na gwybodaeth, a hyd yn oed difrifoldeb niwed neu effaith y methiant i hysbysu). Roedd yr angen i unrhyw fath o gosb fod yn gymesur yn sylw oedd yn cael ei fynegi'n aml. Fodd bynnag, nid oedd yn glir bob amser a oedd ymatebion fel 'camau disgyblu' yn cyfeirio at ymateb cyflogwyr neu reoleiddwyr proffesiynol.

Nodwyd – ar gyfer 'partneriaid perthnasol' o dan adrannau 130(5) a 128(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – pan fo 'ymarferydd neu berson mewn swydd o ymddiriedaeth' wedi methu ag adrodd, o dan Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru<sup>10</sup>, y byddai hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfarfod strategaeth broffesiynol a phe bai'r mater yn cael ei gadarnhau, cyfrifoldeb cyflogwr yr unigolyn fyddai cychwyn achos disgyblu ac ymgynghori ag unrhyw gorff proffesiynol perthnasol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch y gofyniad i atgyfeirio.

Roedd yr ymatebion a gyfeiriodd at sanctiynau proffesiynol neu reoleiddiol yn cynnwys sylwadau am atgyfeirio unigolion i'w cyrff proffesiynol; defnyddio adolygiadau addasrwydd i ymarfer lle nad yw unigolion wedi gweithredu yn unol â'u

<sup>10</sup><https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c5/>; <https://diogelu.cymru/cy/adu-i/adu-i-a5/>

codau ymddygiad perthnasol; ac y dylai fod cynnydd mewn sancsiynau: er enghraifft, am “*rybudd cyntaf*” am “*lefel isel o niwed*”, gallai gweithwyr proffesiynol dderbyn cofnod ar eu cofrestriad personol; ond gallai digwyddiadau sylweddol neu dramgwyddo dro ar ôl tro arwain at ddadgofrestru. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen mwy o gysondeb wrth wneud atgyfeiriadau at gyrff proffesiynol, a nododd un arall nad oedd unrhyw gosb droseddol ynghlwm wrth y ddyletswydd i hysbysu am anffurfio organau cenhedlu benywod ond bod gweithdrefnau disgyblu proffesiynol ar gael. Dywedwyd y dylai achos pawb, yn gyffredinol, gael ei ystyried gan eu rheoleiddiwr proffesiynol ar sail unigol, gan y gall cyd-destun fod yn ffactor.

Roedd yr ymatebion a gyfeiriodd at sancsiynau cyflogaeth yn cynnwys sylwadau y dylid ystyried methiant i hysbysu’n fater datblygu neu ddisgyblu o leiaf, ac y dylai fod gan sefydliadau fecanweithiau ar waith i gymryd camau priodol lle mae staff yn methu â hysbysu. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos a ffactorau eraill, fel methiannau cyson, gallai sancsiynau amrywio o hyfforddiant gloywi gorfodol i ddiswyddo. Cafwyd galwadau i brosesau disgyblu gael eu rhoi ar waith a’u rheoli yn gyson, mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol AD a gyda chefnogaeth i staff dan sylw. Roedd awgrymiadau hefyd y dylid defnyddio gweithdrefnau disgyblu sefydliadau i gymryd camau priodol yn erbyn y rhai sy’n gwirfoddoli ar eu rhan. Fodd bynnag, roedd sawl un yn cydnabod yr effaith niweidiol dechrau achos disgyblu ar staff, gan arwain yn aml at absenoldebau staff oherwydd straen. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol na fyddai dychwelyd i ddiwylliant o feio yn digwydd, ac y dylai unrhyw sancsiynau ymgorffori ymarfer myfyriol a gwersi a ddysgwyd. Pwysleisiodd un ymateb yr angen i sefydliadau sicrhau bod ganddynt bolisiau clir ar gyfer chwythu’r chwiban a diogelu corfforaethol ar waith, sy’n cefnogi diwylliant agored o ddysgu.

Ymhlith yr ymatebion a gyfeiriodd at sancsiynau troseddol roedd sylwadau am ymdrin â chuddio, “*celu*” neu “*benderfyniad bwriadol i beidio â hysbysu*” am gamdrin, fel materion troseddol, er mwyn ei gwneud yn glir bod amddiffyn y rhai sy’n wynebu risg o’r pwys mwyaf ac nad yw methu ag ymateb i gamdriniaeth yn opsiwn derbyniol. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ddirwyon cynyddol neu ddedfryd o garchar yn ôl difrifoldeb yr achos neu fethiannau niferus i hysbysu. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai angen arweiniad clir yn nodi’r gwahaniaeth rhwng arfer gwael a bwriad troseddol. Roedd un arall yn pryderu pe bai sancsiynau troseddol ynghlwm wrth hysbysu dyletswyddau i unigolion, y gallai hyn effeithio ar forâl y gweithlu a’r gallu i recriwtio staff newydd, yn enwedig yn y sector gofal cymdeithasol. Cyfeiriodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant at ei ymateb i ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021 ar Fframwaith Dyletswydd Didwylledd a Bod yn Agored, yng Ngogledd Iwerddon<sup>11</sup>. Roedd yn teimlo y byddai effaith cosbau troseddol yn niweidiol ac yn bellgyrhaeddol, gyda phryder yn cael ei greu gan fygythiad troseddoli, a allai annog ymarferwyr i adael y maes.

Roedd ymatebydd unigol yn teimlo bod angen bod yn ofalus ynghylch troseddoli pobl am beidio â gwneud rhywbeth sydd ddim yn rhan o’u gwaith bob dydd yn y bôn, ac y gallai hynny arwain at or-hysbysu neu erlyn pobl barchus. Fodd bynnag, roedd un arall yn teimlo bod angen carcharu’r rhai sy’n methu â gweithredu pan mae risgiau’n cael eu hysbysu, nid unigolion am fethu â hysbysu. Awgrymodd un ymatebydd y

---

<sup>11</sup> <https://www.rcpch.ac.uk/resources/duty-candour-northern-ireland-consultation-response>



gallai unigolion mewn swyddi o ymddiriedaeth sydd wedi celu troseddwr gael eu trin gan y gyfraith mewn ffordd debyg i'r gweithwyr gofal cyflogedig hynny, gan gynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol i oedolion a gweithwyr gofal iechyd, a darparwyr (oni bai eu bod wedi'u heithrio) sy'n cael euogfarn am droseddau'n ymwneud â cham-drin neu esgeulustod bwriadol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015<sup>12</sup>. Mae sanctsiynau amrywiol ynghlwm wrth y troseddau hyn, o orchmynion adfer neu gyhoeddusrwydd (ar gyfer darparwyr) i ddirwyon a charchar (ar gyfer gweithwyr).

Cyfeiriodd 5 o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn at Argymhelliad 13 o adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)<sup>13</sup> a oedd yn cynnig llunio trosedd ar gyfer methiant 'hysbyswyr mandedig' i hysbysu am gam-drin plant yn rhywiol lle maent yn derbyn datgeliad (gan blentyn neu dramgwyddwr) neu os ydynt yn dyst i blentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Mewn perthynas â hynny, roedd un ymatebydd yn ansicr am union natur hynny a phwy fyddai'n monitro; roedd un arall yn teimlo, pe bai cosbau troseddol ynghlwm wrth unrhyw ddyletswydd unigol a gyflwynir yng Nghymru, na ddylent fod yn gymwys i unrhyw un heblaw'r rhai hynny sydd wedi eu nodi fel 'hysbyswyr mandedig' yn adroddiad yr IICSA; ac er na fyddai un arall yn cefnogi gorfodi sanctsiynau troseddol lle'r oedd unigolyn wedi adnabod arwyddion ond heb hysbysu (yn unol ag argymhelliad IICSA), byddai'n annog hysbysu o'r fath, gan argymhell hyfforddi staff yn rheolaidd er mwyn sicrhau hynny. Ni fyddai un ymatebydd yn argymhell cyflwyno hysbysu gorfodol gyda throseddau ynghlwm wrth hynny, gan y byddai hyn yn gwneud ymarferwyr yng Nghymru yn destun cosbau troseddol, lle nad yw hyn yn wir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o bosib. Dywedodd yr ymatebydd arall y gallai canlyniad anfwriadol gosod dyletswyddau ar unigolion olygu bod system ar waith lle mae unigolion yn destun sanctsiynau ond nid y sefydliadau sy'n eu cyflogi.

Roedd sawl ymatebydd yn anghytuno â phennu sanctsiynau troseddol ar gyfer unrhyw ddyletswyddau unigol. Roedd sylwadau'n cynnwys y byddai hyn yn gwbl anghymesur, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd gwirfoddolwyr wedi methu â chanfod neu asesu risg i berson arall yn gywir, a hynny o bosibl ar sail ychydig iawn o ymgysylltu â nhw. Roedd un ymatebydd yn teimlo nad gosod sanctsiynau ar unigolion oedd yr ateb i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu diogelu - yn hytrach, roedd systemau hysbysu clir ac agored mewn sefydliadau, gyda hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol, yn allweddol. Roedd awgrym y byddai angen i unrhyw gosb fod yn gymesur â rôl yr unigolyn. Er enghraifft, ni fyddai'n ymddangos yn briodol rhoi'r un gosb i weithiwr cymdeithasol cymwys a chofrestredig a gyrrwr bws sy'n darparu gwasanaeth i sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd un arall yn teimlo pe bai sanctsiynau cyfreithiol yn cael eu cyflwyno, y byddai angen iddynt wahaniaethu'n effeithiol rhwng y rhai a oedd wedi dewis peidio â hysbysu a'r rhai a oedd wedi methu â gwneud hynny. Nododd un ymatebydd y byddai gwybod y gellid bod wedi osgoi risg yn faich ar gydwybod y rhan fwyaf o ymarferwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyfeirio unigolion sy'n methu â rhoi gwybod am blant ac oedolion sy'n wynebu risg at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ystyried a ddylid eu rhoi ar y rhestr waharddedig

<sup>12</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/2/part/1/crossheading/offences-involving-illtreatment-or-wilful-neglect/enacted>

<sup>13</sup> [F.6: Adrodd Mandadol ar gyfer Cymru a Lloegr | Adroddiad Annibynnol IICSA i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#)

berthnasol. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn daer na ddylai hyn ddigwydd fel mater o drefn o reidrwydd, ar gyfer pob achos o dramgwyddo unrhyw ddyletswydd newydd. Roedd ymatebydd unigol yn teimlo y dylai methu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd unigol i hysbysu, sy'n arwain at fethiant i amddiffyn plentyn, olygu na chaniateir i'r person weithio gyda phlant mwyach.

Roedd sylwadau pellach a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- Mae penderfynu a yw plant neu oedolion yn wynebu risg yn gallu bod yn oddrychol yn aml a chynnwys barn sawl unigolyn a sefydliad.
- Dylai hysbysu gael ei ysgogi gan anghenion plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn hytrach na phroses neu ofn ôl-ffeithiau personol am beidio â hysbysu.
- Mae angen ystyried pwy fydd yn plismona unrhyw sancsiynau a sicrhau bod y rhai sy'n methu â chydymffurfio yn cael eu cosbi.
- Mae angen mwy o bwerau i'r heddlu neu awdurdodau lleol atal gwasanaethau rhag gweithredu os oes pryderon diogelu sylweddol.
- Dylai arian o unrhyw ddirwyon a osodir gael ei ddefnyddio i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu diogelu.
- Os yw unigolion yn destun dyletswyddau i hysbysu, pwysleisiodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod yn rhaid cael gweithdrefn glir i gwyno nad yw person wedi hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a fyddai'n bosibl ymchwilio i gwynion o'r fath o dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 neu a fyddai angen llwybr amgen i achwynwyr.

**Cwestiwn 3.9: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 3.10: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion ar gyfer cyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cyflwynodd 46 o ymatebwyr sylwadau naill ai mewn perthynas â Chwestiwn 3.9, Cwestiwn 3.10 neu'r ddau, ynghylch effeithiau posibl cyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol ar y Gymraeg.

Nid oedd 14 o'r ymatebwyr hyn yn gweld unrhyw effeithiau nodedig ar ddefnyddio'r Gymraeg nac yn credu y byddai cyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol yn golygu y byddai'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pwysleisiodd 18 o ymatebwyr bwysigrwydd galluogi hysbysu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, gyda rhai'n tynnu sylw hefyd at yr angen i sicrhau bod mecanweithiau ar waith i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg i wneud datgeliadau yn yr iaith o'u dewis neu angen. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y 'Cynnig Rhagweithiol', a ddylai olygu bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg, heb fod angen i bobl ofyn am hynny, a'r teimlad oedd ei bod yn hanfodol fod cyfleoedd i roi gwybod am bryderon – yn bersonol, dros y ffôn neu e-bost, neu ddulliau eraill – yn cael eu gwneud yn ddwyieithog. Nododd un ymatebydd bod yn rhaid i bob 'gwasanaeth drws ffrynt' allu derbyn atgyfeiriadau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd un arall yn teimlo y byddai galluogi pobl i sgwrsio a thrafod pryderon yn eu hiaith gyntaf neu brif iaith, o fudd iddynt, yn enwedig ar adegau o argyfwng.

Roedd 5 o'r ymatebwyr yn credu y dylai pobl allu cael gafael ar wasanaethau gwybodaeth a chymorth yn yr iaith fwyaf priodol iddyn nhw, sy'n estyn y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg, i ieithoedd eraill ac sy'n cynnwys fformatau hygyrch fel Hawdd i'w Ddeall. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr angen i sicrhau bod cynlluniau hyfforddi cadarn ac ymgyrchoedd cyfathrebu, i gefnogi cyflwyno unrhyw ddyletswyddau newydd, yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n ddwyieithog. Nododd un ymatebydd bwysigrwydd sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio ar gael i'w cwblhau yn y naill iaith neu'r llall neu yn y ddwy iaith; ac un arall bod sefydliadau'n sicrhau bod digon o staff Cymraeg eu hiaith i gyflawni dyletswyddau hysbysu ac ymchwilio.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai cyflwyno dyletswyddau newydd gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, gan gynnwys annog sefydliadau i sicrhau bod ganddynt ddigon o staff Cymraeg eu hiaith, a recriwtio digon, i gefnogi gwasanaethau cwbl ddwyieithog; a sicrhau gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, sy'n defnyddio ac yn ceisio cael gafael ar wybodaeth yn y Gymraeg.

Nodwyd rhai effeithiau negyddol posibl. Er enghraifft, teimlai un ymatebydd y gallai cyflwyno dyletswyddau unigol i hysbysu, yn eang, olygu na fydd llawer o bobl yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu rolau lle gallai fod angen iddynt adnabod arwyddion o gam-drin a hysbysu amdanynt, yn enwedig gwirfoddolwyr. Gwnaeth yr ymatebydd sylw fod sefydliadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio cefnogi plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn draddodiadol yn arbennig o ddibynnol ar wirfoddolwyr ac felly gall unrhyw ostyngiad mewn gwirfoddoli, oherwydd gosod dyletswydd i hysbysu, effeithio ar sefydliadau Cymraeg yn anghymesur a thanseilio nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddai effeithiau cymdeithasol a lles negyddol hefyd i'r unigolion hynny sy'n mynychu gweithgareddau diwylliannol a hamdden cyfrwng Cymraeg.

Soniodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru am yr angen i ystyried, pan fydd person dwyieithog yn cael diagnosis o ddementia, mai hyfedredd mewn ail iaith sy'n cael ei gollu gyntaf yn aml. O ganlyniad, pwysleisiodd fod sicrhau bod pob agwedd o'r broses ddiogelu yr un mor hygyrch i siaradwyr Cymraeg yn hanfodol, er mwyn atal pobl rhag cael eu heithrio neu eu hynysu oherwydd rhwystr ieithyddol.

Rhybuddiodd ambell un o'r ymatebwyr na ddylai fod oedi gormodol wrth wneud atgyfeiriadau, wrth gynnal asesiadau, nac wrth i bryderon gael sylw, oherwydd

unrhyw rwystrau ieithyddol. Roedd un ymatebydd yn pryderu bod y cwestiynau ynghylch cynwysoldeb iaith yn canolbwyntio'n llwyr ar y Gymraeg ac yn teimlo y gallai hyn beri risg o borthi hierarchaeth sy'n effeithio'n negyddol ar y rhai sy'n siarad ieithoedd eraill.

**Cwestiwn 3.11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

O'r rhai a ymatebodd i gwestiynau ym Mhennod 3 ar hysbysu gorfodol am bryderon diogelu, cyflwynodd bron i'w chwarter sylwadau mewn perthynas â Chwestiwn 3.11 ynghylch materion cysylltiedig. Roedd rhai materion wedi cael eu crybwyll eisoes, wrth ateb cwestiynau eraill yn y bennod hon, felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y crynodeb canlynol o bwyntiau ychwanegol.

- Byddai cyflwyno hysbysu gorfodol yn sicrhau bod unrhyw unigolion a grwpiau (y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt) sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed yn ailystyried unrhyw arferion sydd ganddynt lle nad ydynt yn hysbysu'n agored ac yn dryloyw.
- Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol i gefnogi unrhyw ddeddfwriaeth a oedd yn cynnwys sancsiynau troseddol, fel y byddai'r gwasanaethau barnwrol a chosbi'n gallu ymdopi â hyn.
- Mae'n bwysig defnyddio fframweithiau sefydledig i annog dulliau diogel o rannu gwybodaeth bersonol – dylid cyfeirio at WASPI – Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth at ddibenion cydnaws, megis y dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Mae creu amgylchedd cefnogol sy'n seiliedig ar ofal ar gyfer hysbysu yn gofyn am ymdrech a newid diwylliannol. Dylai hyn fod yn ffocws gweithgareddau mewn gwasanaethau, ysgolion a chymunedau.
- Nid yw'r un prosesau diogelu ar waith gan lawer o sefydliadau llai heb eu rheoleiddio, neu fasnachwyr hunangyflogedig/unig fasnachwyr, â sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio, sy'n cynrychioli bwlb sylweddol o ran diogelu'r cyhoedd.
- Un maes ble gallai fod angen sylw ac eglurder penodol yw mewn perthynas ag ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc hŷn, i atgyfnerthu'r ffaith fod y ddyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg yn berthnasol i bawb o dan 18 oed.
- Mae cefnogi hysbysu unigol – boed hynny mewn deddfwriaeth newydd neu ddyletswyddau sefydliadol presennol i hysbysu a dyletswyddau proffesiynol – yn hanfodol. Mae llais dioddefwyr yn cael lle amlwg drwy gydol adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, e.e. Rhan F "Dim ond angen i un person weithredu oeddwn i".

- Mae dyletswyddau hysbysu gorfodol yn debygol o fod mor effeithiol â'r sefydliad sy'n eu gweithredu a'u dilyn gyda'r bwriadau gorau. Dylai fod dull unffurf cyson; bydd hyn yn gofyn am ganllawiau clir heb le i ddehongli, meysydd amwys na bylchau.
- Dylai unrhyw gyfreithiau hysbysu gorfodol gynnwys dyletswydd glir i hysbysu cyn-geni hefyd, er mwyn canfod ymddygiad camdriniol cyn geni a diogelu'r plentyn heb ei eni.
- Rhaid i agweddau newid, yn ogystal â dyletswyddau unigol i hysbysu. Mae ymatebion o anghrediniaeth, diffyg ymddiriedaeth a beio dioddefwyr y mae pobl ifanc wedi'u profi, ac yn eu profi, yn gallu cael effaith negyddol uniongyrchol ar eu dyfodol a'u canlyniadau hirdymor.
- Gall fod gwahaniaethau diwylliannol o ran dealltwriaeth pobl o faterion diogelu a cham-drin. Mae rhywun yn gallu ymddwyn yn sarhaus yn anfwriadol, oherwydd bod ymddygiad o'r fath wedi cael ei normaleiddio yn eu diwylliant hwy. Mae'n bwysicach o lawer creu manau diogel heb farnu, lle mae'n bosibl addysgu pobl am gyfreithiau'r DU a Chymru sy'n ymwneud â diogelu, effeithiau niweidiol pob agwedd ar gam-drin, a dysgu sut i gyfnewid ymddygiad ymosodol am ymddygiad parchus. Yn hytrach na chosbi arweinwyr grwpiau os nad ydynt wedi hysbysu am bryder diogelu, dylid cynnig cymorth ychwanegol gydag atal drwy addysgu.
- Rhaid i unrhyw drefniadau deddfwriaethol gael eu cynnal gan bolisiâu a gweithdrefnau rhagorol a'u gweithredu a'u monitro i sicrhau bod pobl sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cymryd camau effeithiol i'w diogelu. Mae trefniadau arolygu a gofynion rheoleiddio yn allweddol wrth sicrhau bod systemau, hyfforddiant a gweithgareddau ymwybyddiaeth effeithiol ar waith.
- Mae angen mwy o ddadansoddi data, er mwyn llywio unrhyw benderfyniad i gyflwyno hysbysu gorfodol. Gan gynnwys nifer y pryderon sy'n deillio o fethiant i hysbysu; faint o gyfarfodydd (strategaeth broffesiynol) Adran 5<sup>14</sup> sy'n cael eu cynnull oherwydd methiant i hysbysu; a yw cyrff llywodraethu a rheoleiddio'n cadw data ar fethiant i hysbysu; faint o unigolion sydd wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi hynny a'u hychwanegu at restr waharddedig?
- A yw'r arolygiaethau'n defnyddio eu pwerau'n ddigonol ac yn llawn? A yw'r system arolygu ei hun yn ddigon cadarn i ganfod cam-drin ac i dawelu meddwl ac amddiffyn darpar chwythwyr chwiban?
- Dylai fod hysbysebion ar y teledu a'r cyfryngau cymdeithasol i esbonio pam ei bod mor bwysig peidio ag edrych y ffordd arall neu gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn hysbysu.

<sup>14</sup> <https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c5/>; <https://diogelu.cymru/cy/adu-i/adu-i-a5/>

- Ai diffyg hysbysu yw'r brif broblem yng Nghymru? Mae angen mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yn gyntaf a dylid defnyddio Ystorfa Ddiogelu Cymru (rhan o'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl) i'r perwyl hwn.
- Er bod hysbysu gorfodol a deddfwriaeth yn gallu peri iddi ymddangos i'r cyhoedd fod rhywbeth yn cael ei wneud ynglŷn â'r broblem, bydd effeithiolrwydd hynny'n dibynnu ar ddarparu cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni cymorth priodol yn y gymuned, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol.
- Un agwedd ar gadw pobl yn ddiogel/codi pryderon yw hysbysu, mae agweddau eraill yn cynnwys beth sy'n digwydd yn dilyn yr hysbysu.
- Yn y pen draw, mae llwyddiant unrhyw ddull cyfreithiol yn dibynnu ar farn, gwybodaeth a sgiliau proffesiynol ymarferwyr wrth gydbwyso ymreolaeth gydag amddiffyniad. Yng Nghymru, rydym yn parhau i weithio'n galed i roi mecanweithiau ar waith i wrando a gweithredu ar farn plant ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Dylai pawb sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, mewn asiantaethau partner ac eraill, gan gynnwys ysgolion a'r heddlu, gael eu cofrestru gyda rheoleiddiwr annibynnol a bod yn destun trefniadau addasrwydd i ymarfer.
- Mae pryder y gallai cyflwyno dyletswydd i hysbysu gymell unigolion i beidio gwneud hynny. Y pryder yw y bydd hyn yn gallu achosi nerfusrwydd am y broses a all arwain at unigolion yn cau eu llygaid i'r hyn sy'n digwydd.
- Dylid ystyried yr hyn sy'n gweithio eisoes a sut y gellir ailadrodd hyn mewn sefydliadau eraill.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n falch o nodi lefel yr ymgysylltiad yn yr ymgynghoriad archwiliadol hwn ac mae'n ddiolchgar am yr holl ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau sy'n ymwneud â'n dyletswyddau presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae'r safbwyntiau hyn gyda'i gilydd wedi llywio ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 13 o adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 20 Hydref 2022, ac mae'r adran sy'n ymwneud ag hysbysu gorfodol i'w gweld yma: [F.6: Adrodd Mandadol ar gyfer Cymru a Lloegr | Adroddiad Annibynnol IICSA i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#)

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 20 Ebrill 2023, ac mae ar gael i'w ddarllen yma: [Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad annibynnol ynghylch cam-drin plant | LLYW.CYMRU](#)

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a'n hystyriaeth o Argymhelliad 13, yn y cyd-destun diogelu cyffredinol yn ogystal ag yng ngoleuni canfyddiadau ehangach yr Ymchwiliad, bwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau yw cryfhau a gwella

cydymffurfiaeth â'n fframweithiau rheoleiddio presennol ar draws gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn hybu ffocws, cysondeb a gwyliadwriaeth o ran amddiffyn ac ymarfer diogelu ac yn helpu i gymryd camau i fynd i'r afael â diffyg cymffurfiaeth, pan fo angen. Byddwn yn adolygu ac yn ymgynghori'n briodol ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i gynorthwyo â hyn.

Er enghraifft, rydym yn ymgynghori<sup>15</sup> (tan 7 Awst 2023) ar reoliadau i ddynodi gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig fel 'gwasanaeth a reoleiddir', o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bydd hyn yn golygu – fel gyda 'gwasanaethau eraill a reoleiddir'<sup>16</sup> – lle mae unrhyw honiad neu dystiolaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, sy'n codi o fewn y gwasanaeth neu fel arall, rhaid i ddarparwyr sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith i sicrhau diogelwch unigolion y mae gofal a chymorth yn cael eu darparu ar eu cyfer, a gwneud unrhyw atgyfeiriadau priodol i asiantaethau perthnasol eraill i sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod.

Bydd Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, sydd hefyd yn destun ymgynghori<sup>17</sup> (tan 14 Awst 2023), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod eu gwasanaethau comisiynu gofal a chymorth yn hyrwyddo ac yn amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Bydd yn tynnu sylw at yr angen i'r partneriaid statudol hyn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar eu rhan, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg a bydd yn eu hatgoffa i roi sylw i ganllawiau statudol perthnasol a'u hannog i hyrwyddo Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn eu gweithgareddau comisiynu.

Mae'r ymateb i Argymhelliad 13 yn ein hymrwymo hefyd, yn ystod tymor y Senedd hon, i ymgysylltu'n eang ac archwilio safbwyntiau ar sicrhau bod trefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith gan eraill – sefydliadau, grwpiau neu unigolion - sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant ac i oedolion a allai fod yn wynebu risg. Rydym yn bwriadu, fel rhan o'r sgwrs, ofyn am farn bellach ac archwilio goblygiadau rhoi unrhyw ddyletswyddau ar unigolion i roi gwybod am blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn adlewyrchu galwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gyfer archwilio ac ymgynghori pellach i ystyried manylion, ehangder ac effeithiau unrhyw ddyletswyddau newydd.

Bydd y pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn parhau i lywio'r gwaith hwn ac unrhyw deddfwriaeth yn y dyfodol.

---

<sup>15</sup> <https://www.llyw.cymru/rheoleiddio-gwasanaethau-preswyl-ysgolion-arbennig>

<sup>16</sup> Gofal (oedolion a phlant); cymorth cartref; lleoli oedolion; mabwysiadu; maethu, a rheoleiddio gwasanaethau eiriolaeth.

<sup>17</sup> <https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth>

## **2.1.4 Penodau 4, 5 a 6: Diwygiadau i reoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol**

### **Pennod 4: Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol**

#### **Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 79 o'r 200 o ymatebion a ddaeth i law yn cynnwys ymatebion mewn perthynas â'r cynigion ym Mhennod 4, sef 39% o'r nifer cyffredinol.

**Cwestiwn 4.1: (a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig – pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu gwybodaeth pan fo achos rhesymol i gredu ei fod yn darparu gwasanaeth a ddylai gael ei reoleiddio?

Roedd pob un o'r 65 ymateb a gafwyd yn cefnogi'r cynnig. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw i'r cwestiwn a ofynnwyd.

Dyweddodd sawl ymatebydd fod y cynnig yn ddiwygiad rhesymol i Ddeddf 2016 gan y byddai'n diogelu unigolion. Awgrymodd un y byddai'n atal unigolion rhag darparu gwasanaeth heb ei reoleiddio ac fe groesawodd un arall unrhyw gynnig i gryfhau pwerau AGC.

Roedd ymatebion eraill yn awgrymu bod angen rhagor o wybodaeth ac eglurder ynghylch yr hyn sy'n 'achos rhesymol' ac am eglurder o ran y diffiniadau o wasanaethau y mae angen eu cofrestru.

Codwyd y fiwrocratiaeth a'r adnoddau y mae sydd eu hangen i gofrestru fel rhwystr posibl i gofrestru.

Awgrymwyd y dylid gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol hysbysu AGC os ydynt yn dechrau darparu trefniant heb ei reoleiddio pan fyddant wedi dihybyddu pob dewis arall i wneud trefniadau rheoleiddiedig, gan sicrhau bod camau rhesymol wedi'u cymryd i ddiogelu unigolion.

Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynnig gan y byddai'n atal unigolion rhag darparu gwasanaethau heb eu rheoleiddio ond roedd yn pryderu am ddifrifoldeb posibl y gosb i ddarparwyr anghofrestredig.

Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor i ymchwilio i faterion llety heb ei reoleiddio a lleoliadau anghofrestredig.

**Cwestiwn 4.2: (a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig – pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i estyn y drosedd o fethu â darparu gwybodaeth pan fo'n ofynnol i wneud hynny, i gynnwys y personau hyn?



Cafwyd adborth cadarnhaol o blaid y cynnig hwn gan bob un o'r 57 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd un ymatebydd o'r farn y bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru (AGC) y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i ganfod a yw unigolion yn gweithredu gwasanaeth heb gofrestru. Cyfeiriodd un arall at y fframwaith rheoleiddio clir yng Nghymru gan deimlo y dylai fod yn ofynnol i'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio ddarparu gwybodaeth a chael eu dwyn i gyfrif. Ategwyd hyn gan un arall a oedd yn cytuno y dylid trin methu â darparu gwybodaeth fel trosedd. Roedd un arall yn teimlo y gallai'r cynnig annog mwy o ddarparwyr i geisio rheoleiddio.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at amserlenni a sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn glir gan ystyried sut y gellid darparu'r wybodaeth hon yn absenoldeb y person y gwneir y cais iddo.

**Cwestiwn 4.3: (a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig - pŵer mynediad:**  
**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddileu amwysedd a'i gwneud yn glir bod gan Weinidogion Cymru (AGC) y pŵer i fynd i mewn ac archwilio unrhyw fangre y mae ganddynt achos rhesymol i gredu ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) fel man y darperir (neu y darparwyd gwasanaeth ynddo neu ohono, neu ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig?**

Roedd 58 o'r 59 o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig, neu roeddent yn ei gefnogi yn gyffredinol. Mae'n ymddangos bod un ymatebydd wedi camddeall bwriad y cwestiwn fel cwestiwn sy'n ymwneud â gwasanaeth heb ei reoleiddio, yn hytrach na darpariaeth anghofrestredig gwasanaeth rheoleiddiedig, ac yn anghytuno â'r cynnig gan ddweud nad yw'r gwasanaeth yn ymwneud ag AGC os yw heb ei reoleiddio. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan sawl ymatebydd a groesawodd ddileu unrhyw amwysedd mewn perthynas â phŵer mynediad ac arolygu gwasanaethau yr amheuir nad ydynt wedi cofrestru. Roedd teimlad y byddai'r diwygiad yn diogelu unigolion a allai fod mewn risg os bydd yn defnyddio gwasanaeth nad oes ganddo'r oruchwyliaeth neu'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'r cynnig yn atal gwasanaethau heb eu rheoleiddio rhag gweithredu.

Roedd un ymatebydd o'r farn ei fod yn ddull rhesymol sy'n awgrymu y byddai'n fuddiol cael trafodaethau cyn defnyddio'r pŵer hwn pan fydd awdurdod lleol yn cymryd rhan.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan ymatebydd arall a awgrymodd ei bod yn bwysig ystyried geiriad y diwygiad yn ofalus er mwyn dileu unrhyw amwysedd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai arolygiadau o'r fath fod yn ddirybudd, gydag un ymatebydd yn awgrymu y dylid ysgrifennu hyn yn glir ar ffurf diwygiad i Ddeddf 2016 er mwyn osgoi amwysedd. Roedd un ymatebydd â'r cynnig ond pwysleisiodd yr angen i gael lefel uchel o barch at yr unigolion a allai fod yn preswyllo yn y gwasanaethau hyn a pharchu eu gofod a'u hamgylchedd oherwydd mai eu cartref hwy ydyw.

**Cwestiwn 4.4: (a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig - pŵer mynediad: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i estyn y drosedd o rwystro arolygydd neu fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan arolygydd, i gynnwys yr amgylchiadau hyn?**

O'r 57 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 53 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig. Roedd 4 ymateb yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd adborth yn cytuno â chryfhau pwerau'r rheoleiddiwr. Galwodd un ymatebydd am eglurder ynghylch y cosbau y gellid eu codi ac awgrymodd, er mwyn cysondeb, y dylai'r un cosbau fod yn gymwys ag ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig.

Roedd rhywfaint o adborth yn adleisio ymatebion a gyflwynwyd yn y cwestiwn blaenorol, yn enwedig o ran gwell mesurau diogelu i bobl a allai fod mewn risg trwy o ddefnyddio gwasanaeth heb ei reoleiddio a'r angen i sicrhau bod unrhyw bŵer mynediad yn cael ei wneud gydag urddas ac nid ar draul y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Awgrymodd un ymatebydd y gallai fod ystyriaethau ynghylch yr amgylchiadau sy'n ymwneud â lleoliad heb ei gofrestru, yn enwedig pan fydd pob llwybr arall wedi'i ddihsbyddu, gan awgrymu bod angen deialog â swyddogion.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai dirwyon yn helpu gyda chydymffurfio ac yn cynnig y dylai defnyddwyr gwasanaeth allu dewis sut i wario'r arian hwnnw.

**Cwestiwn 4.5: (b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi eu datganiadau blynyddol?**

O'r 65 o ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn, roedd 49 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig. Roedd 16 o ymatebion yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno. Ni wnaeth y 135 o ymatebwyr oedd yn weddill roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Dyweddodd un ymatebydd y bydd y diwygiad arfaethedig yn darparu tryloywder i'r cyhoedd. Cododd adborth gan sawl ymatebydd fater darparwyr nad oes ganddynt bresenoldeb ar y we / gwefan. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid sicrhau bod cymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r seilwaith gofynnol i alluogi darparwyr heb bresenoldeb ar y we i gyhoeddi eu datganiad blynyddol. Dywedodd un arall y dylai AGC allu eu cyhoeddi. Gofynnodd ymatebydd pellach a ellid

defnyddio Dewis fel llwyfan rhannu gwybodaeth. Gwnaeth un ymatebydd sylw ar y cyfrifoldeb gweinyddol ychwanegol y byddai'r cynnig yn ei greu.

Gofynnodd ychydig o ymatebwyr am ddiffiniad pellach o 'gyhoeddi', gan gwestiynu a fyddai llwyfannau heblaw gwefan yn briodol e.e., Instagram neu Facebook. Gofynnodd un ymatebydd am wybodaeth bellach am y fformat y mae ei angen ar gyfer y datganiad blynyddol. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai angen canllawiau i gefnogi rhoi'r cynnig hwn ar waith. Galwodd un ymatebydd am ystyriaeth ofalus cyn rhoi'r cynnig ar waith.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ond yn cwestiynu a fyddai'n briodol i bob gwasanaeth gyhoeddi ei ddatganiadau blynyddol. Crybwyllodd ychydig o sylwadau sensitifrwydd data a thoriadau posibl gydag un ymatebydd yn codi'r mater y gallai cyhoeddi gwybodaeth sensitif fod yn rhwystr posibl i'r diwygiad arfaethedig.

Awgrymodd un ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig y byddai goblygiadau cost datblygu a chynnal gwefan a meddu ar y sgiliau sylw i wneud hynny, yn faich ar sector sy'n dirywio ac yn cael trafferth gyda chynaliadwyedd ariannol, gan awgrymu y dylid rhannu gwybodaeth ar gais yn hytrach na thrwy gyhoeddi

**Cwestiwn 4.6: (b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu trosedd gysylltiedig sef methu â chyhoeddi datganiad blynyddol?**

O'r 66 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 46 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig. Roedd 20 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Cafwyd rhai sylwadau am yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyhoeddi a phryd y byddai camau'n cael eu cymryd.

Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig bu iddynt alw am gosb gymesur gan eu bod yn teimlo bod y posibilrwydd o garchar yn ymddangos yn llym yn enwedig i ddarparwyr llai. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a ddylai hyn fod yn drosedd. Gofynnodd ymatebydd arall a fyddai'r gosb i rywun sy'n methu â chyhoeddi a chyflwyno eu datganiad blynyddol yn fwy difrifol nag i'r rhai nad ydynt yn cyflwyno eu datganiad blynyddol? Cododd un ymatebydd gwestiwn problemau technegol ac a fyddai darparwr yn cael ei gosbi os byddai ganddo broblemau gyda'i wefan.

Yn olaf, dywedodd un ymatebydd fod gosod trosedd am fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol yn achosi rhwystr rhwng y rheoleiddiwr a'r darparwr gwasanaeth gan ofyn a fyddai'n fuddiol ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio yn hytrach na chosb.

**Cwestiwn 4.7: (c) Cyhoeddi adroddiadau arolygu: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi hyblygrwydd ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) i gydnabod amgylchiadau pan na fyddai llunio a/neu gyhoeddi adroddiad arolygu o bosibl yn briodol, yn berthnasol neu'n gymesur?**

O'r 59 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, cytunodd 49 yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig. Roedd 8 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Er bod nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, dywedodd un ymatebydd fod angen meini prawf clir i ddiffinio'r math o amgylchiadau lle na fyddai adroddiad arolygu yn cael ei baratoi na'i gyhoeddi. Roedd sylwadau eraill yn adleisio'r galw hwn am ffiniau clir a'r angen i ystyried fesul achos a pheidio â chymryd yn ganiataol mai adroddiadau sy'n ymwneud â chartrefi i blant sy'n derbyn gofal neu ar gyfer oedolion 'agored i niwed' yw'r unig rai na ddylid eu cyhoeddi. Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynnig ac awgrymodd y gallai'r rhesymau dros beidio â chyhoeddi'r adroddiad a pha fath o arolygiad sydd wedi digwydd fod ar gael i'r cyhoedd trwy log arolygu.

Cytunodd un ymatebydd mewn egwyddor, gan amodi hyn gyda: "os nad yw'n esgus dros guddio camymddygiad".

Galwodd ymatebydd arall am eglurder pellach ynghylch yr amgylchiadau y mae'r cynnig yn cyfeirio atynt. Oherwydd gwelliannau sylweddol sy'n ofynnol gan rai darparwyr, pwysleisiwyd na fydd y cyhoedd yn cael gwybod drwy adroddiadau cyhoeddedig, yn enwedig teuluoedd preswylwyr.

Yn olaf, roedd un ymatebydd yn cytuno mewn egwyddor ond dywedodd na fyddai'r cynnig yn rhoi tystiolaeth i'r comisiynwyr/cyhoedd am welliant neu ddirywiad yn narpariaeth y gwasanaeth.

**Cwestiwn 4.8: (d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru (AGC) roi hysbysiad gwella i ddarparwr pan nad yw'r darparwr bellach yn darparu'r gwasanaeth hwnnw neu'n defnyddio'r lle hwnnw i ddarparu gwasanaeth?**

O'r 47 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 43 yn cytuno'n benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; Roedd 4 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y broses bresennol yn ddiangen o fiwrocraidaidd yn ddiangen ac y byddai'r diwygiad arfaethedig yn lleihau'r baich ar adnoddau AGC. Dywedodd un ymatebydd nad oes rheswm i fynd ar drywydd hyn os nad yw'r darparwr bellach yn darparu'r gwasanaeth. Bydd y diwygiad arfaethedig yn arbed amser i ddefnyddwyr AGC a darparwyr gwasanaethau drwy symleiddio'r broses o ddileu gwasanaeth sydd eisoes wedi peidio â gweithredu o'r cofrestriad.

Dangosodd adborth gan un ymatebydd yr angen i sicrhau bod cysylltiad â chofrestriadau newydd i alluogi gwiriadau i gael eu gwneud i sicrhau bod unrhyw hysbysiadau gwella blaenorol a roddwyd i'r darparwr hwnnw yn cael eu nodi. Adleisiodd ymatebydd arall y sylw hwn gan ddweud bod angen mesurau diogelu

priodol ar waith i ddiogelu'r cyhoedd rhag endid cyfreithiol arall rhag cael ei sefydlu gyda phersonél tebyg ac yn darparu'r un gwasanaeth (o bosibl yn yr un lleoliad).

Holodd un ymatebydd a fyddai proses i ddarparwyr apelio os oes gwahaniaeth barn neu gamddealltwriaeth ynghylch a yw'r darparwr yn dal i ddarparu gwasanaeth neu'n darparu gwasanaeth o fan penodol neu beidio.

Dyweddodd un ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig y dylai'r hysbysiad gwella fod yn gymwys i'r darparwr gwasanaeth, nid lleoliad y gwasanaeth yn unig.

Yn olaf, teimlai ymatebydd arall nad oedd yn cytuno â'r cynnig, fod cadw'r hysbysiad gwella yn cynnig cyfleoedd i ddysgu ac i roi newid ar waith.

**Cwestiwn 4.9: (d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestrriad – dileu amod ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i ddileu amod ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth heb roi hysbysiad o gynnig (adran 18) a hysbysiad o benderfyniad yn dilyn hysbysiad o gynnig (adran 19), pan nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd at osod yr amod yn gymwys bellach?**

O'r 52 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, cytunodd 38 yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig. Roedd 8 o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno, 6 heb gytuno nac anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Ychydig iawn o sylwadau manwl a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn. Dywedodd un ymatebydd fod y broses bresennol yn ddiangen ac y bydd y diwygiad arfaethedig yn lleihau biwrocratiaeth. Dywedodd un arall na ddylai fod bwllch i ganiatáu i ddarparwyr gau gwasanaeth ac osgoi unrhyw gosbau neu gamau gorfodi neu ailagor y gwasanaeth heb dystiolaeth glir o reoli'r gwasanaeth yn briodol. Dangoswyd yr angen i sicrhau bod cysylltiad â chofrestrriadau newydd i alluogi gwiriadau i gael eu gwneud i sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi blaenorol yn cael eu nodi gan ymatebydd arall.

Roedd un ymatebydd yn teimlo bod hwn yn ddull rhesymol, ond awgrymodd y dylid cytuno ar amserlen at y diben hwn. Roedd ymatebydd arall yn cytuno â'r cynnig a dywedodd "dim ond mewn amgylchiadau eithriadol".

Dyweddodd ymatebydd sy'n anghytuno â'r cynnig ei bod yn hanfodol bod yna ymgysylltu â darparwyr. Dywedodd un arall y dylai darparwyr bob amser gael rhybudd o newidiadau i gofrestrriad, ni waeth a yw'r cyflwr yn parhau i fod yn gymwys.

**Cwestiwn 4.10: (d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestrriad - pŵer i ganslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru (AGC) ddilyn y broses hysbysiad gwella i ganslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth pan fydd y darparwr eisoes wedi peidio â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig?**

O'r 51 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 45 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 3 o'r ymatebwyr yn anghytuno, 3 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

O'r rhai a ymatebodd, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig, nid oedd dau ymatebydd yn cytuno, gydag un yn nodi y gallai dileu'r gofyniad i ganslo cofrestriad agor cyfleoedd i barhau i fasnachu yn breifat. Adleisiwyd y sylw hwn mewn ymatebion eraill. Dywedodd un ymatebydd y dylid ymgysylltu â'r darparwr i sicrhau nad oes cynnig i ailagor y gwasanaeth. Cododd rhai ymatebwyr y pwynt bod angen cysylltiadau clir â phrosesau cofrestru yn y dyfodol er mwyn galluogi gwiriadau i gael eu gwneud i sicrhau bod gweithgarwch gorfodi blaenorol yn cael ei ddangos.

Dywedodd un ymatebydd nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddiben rhoi hysbysiad gwella i ddarparwr gwasanaeth nad yw bellach yn darparu gwasanaeth. Dywedodd un arall na fyddai'n briodol rhoi hysbysiad gwella i ddarparwr ar gyfer gwasanaeth nad yw'n gweithredu bellach.

**Cwestiwn 4.11: (d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – gwybodaeth gan ddarparwr sy'n canslo eu cofrestriad: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 14 o Ddeddf 2016 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n canslo ei gofrestrriad ac yn gadael y farchnad?**

O'r 54 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 49 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 2 o'r ymatebwyr yn anghytuno, 3 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd y sylwadau a ddaeth i law yn cefnogi'r cynnig. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y byddai'r wybodaeth sy'n ofynnol gan ddarparwr gwasanaeth yn canslo eu cofrestriad neu'n gadael y farchnad yn ddefnyddiol gan y gellid defnyddio'r data i ymchwilio i dueddiadau yn y sector. Awgrymwyd ei bod yn bwysig deall pam y byddai darparwr gwasanaeth yn canslo ei gofrestrriad ac yn gadael y farchnad.

Dywedodd un ymatebydd y bydd y cynnig yn cysoni'r dull gweithredu ar gyfer darparwr gwasanaethau sy'n gadael y farchnad â'r dull gweithredu ar gyfer y rhai sy'n amrywio eu cofrestriad. Dywedodd un arall, pan fydd darparwr yn gadael y farchnad, y gallai fod yn anodd cael gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau (efallai na fydd rhai Unigolion Cyfrifol neu Reolwyr Cofrestredig ar gael). Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch canlyniadau cyflawni trosedd os byddai'r gofyniad hwn yn cael ei dorri.

Gofynnwyd i'r ymatebion a fyddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r cyrff comisiynu perthnasol ac a fyddai AGC yn cyhoeddi'r wybodaeth a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth.

**Cwestiwn 4.12: (d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestrriad – pŵer i estyn y terfyn amser mewn Hysbysiad Gwella: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i estyn yr amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth pan roddir hysbysiadau gwella?**

O'r 55 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 49 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 3 o'r ymatebwyr yn anghytuno, 3 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd un ymatebydd yn cytuno'n gryf â'r cynnig, gan ddweud ei bod yn hanfodol bod gofyniad cyfreithiol i AGC ystyried sylwadau darparwyr o fewn amserlenni cyraeddadwy ar gyfer gwelliannau, cyn penderfyniad terfynol AGC. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rai ymatebwyr gyda'r cafeat bod amserlenni clir, sy'n gymesur â'r hysbysiad gwella, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw welliannau strwythurol. Dywedodd un ymatebydd fod angen canllawiau tryloyw a disgwyliadau clir.

**Cwestiwn 4.13: (d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestrriad – pŵer i ganslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth o dan amgylchiadau rhagnodedig: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i ddatgymhwyso gofyniad adran 16(3)(b) mewn hysbysiad gwella – i gymryd camau penodol neu ddarparu gwybodaeth – o dan amgylchiadau rhagnodedig, pan na fyddai diben cymhwyso'r gofyniad?**

O'r 48 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 44 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 3 o'r ymatebwyr yn anghytuno, 3 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn ond ychydig iawn o sylwadau a gyflwynwyd. O'r sylwadau hynny a dderbyniwyd dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na ddylai hyn fod yn gymwys ond os na ellir adfer y sefyllfa. Roedd un ymatebydd yn cefnogi'r cynnig ond awgrymodd y gallai fod angen diffiniad o 'anadferadwy' er mwyn sicrhau eglurdeb a chysondeb ac i osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Nododd un ymateb y gallai hyn fod yn risg uchel a byddai angen ystyriaeth ac ymgynghoriad gofalus iawn â'r sector (ynghylch cyflwyno mesurau diogelu deddfwriaethol i sicrhau nad oedd hyn yn cael ei gymhwyso'n amhriodol).

Gofynnodd rhai a fyddai mecanwaith apelio yn bosibl a nododd un arall fod cyfle i apelio yn erbyn cyhuddiad troseddol hyd yn oed ar ôl euogfarn.

**Cwestiwn 4.14: (e) Unigolion cyfrifol – cyflwyno sylwadau: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi'r hawl i Unigolion Cyfrifol gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru (AGC), yn erbyn hysbysiad gwella neu fwriad i ganslo eu dynodiad, ar yr amod y gwneir y sylwadau o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad?**

O'r 57 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 54 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 3 o'r ymatebwyr yn anghytuno, 3 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Cafwyd nifer bach o sylwadau byr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd sylwadau'n cefnogi'r cynnig hwn gyda rhai yn dweud ei fod yn deg, yn fwy cadarn a thryloyw gan ychwanegu y dylai fod gan unigolyn yr hawl i gael ei gynrychioli. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid pennu amserlen ddynodedig o fewn yr hysbysiad gan ei bod yn deg y dylai Unigolion Cyfrifol gael y cyfle i ymateb.

Dywedodd un ymatebydd y byddai hyn yn ddull rhesymol; er hynny, roedd yn teimlo y byddai canllawiau a hyfforddiant yn cael eu croesawu i ddarparwyr ar yr elfen hon.

**Cwestiwn 4.15: (e) Unigolion cyfrifol – anfon yr Hysbysiad Gwella at y darparwr gwasanaeth: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw hysbysiad gwella a roddir i Unigolyn Cyfrifol hefyd yn cael ei anfon at y darparwr gwasanaeth?**

O'r 55 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 53 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 3 o'r ymatebwyr yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd yr ychydig sylwadau a gafwyd yn fyr iawn ac yn cefnogi'r cynnig. Gofynnodd un ymatebydd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi sut y gellid rhannu hysbysiadau gwella â chyrrff comisiynu neu a ddylid gwneud hynny. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid anfon copi o'r hysbysiad gwella at bob unigolyn a restrir fel cyfarwyddwr o dan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer yr endid cyfreithiol.

Roedd y sylwadau eraill a ddaeth i law yn nodi y bydd y cynnig yn caniatáu gwell cyfathrebu ac yn rhoi mwy o gyfle i'r darparwr gwasanaeth ymateb.

**Cwestiwn 4.16: (e) Unigolion cyfrifol - Dileu Unigolyn Cyfrifol heb wneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ganiatáu i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i Weinidogion Cymru (AGC) i amrywio amodau ei gofrestrriad i ddileu Unigolyn Cyfrifol pan nad yw'n dynodi'r Unigolyn Cyfrifol newydd fel rhan o'r un cais?**

O'r 51 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 50 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 1 ymatebydd yn anghytuno ond ni chyflwynodd sylw. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Rhodddwyd adborth mewn perthynas â'r angen am amserlenni clir y dylid penodi person priodol i rôl Unigolyn Cyfrifol o'u mewn. Roedd sawl ymatebydd yn cefnogi'r cynnig gan ddweud bod hwn yn syniad da ac yn teimlo ei fod yn gam cadarnhaol sy'n caniatáu hyblygrwydd wrth recriwtio. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar



yr angen am drefniadau amgen cadarn neu dystiolaeth glir o sut y bydd swyddogaethau'n cael eu cyflawni i gefnogi'r gwasanaeth cofrestredig yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Dywedodd un ymatebydd y bydd y newid arfaethedig yn rhoi eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldeb pan na fydd yr Unigolyn Cyfrifol bellach yn gweithio i'r gwasanaeth.

**Cwestiwn 4.17: (f) Diffiniad o 'Ofal' i blant a phobl ifanc: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i addasu'r diffiniad o 'ofal' yn adran 3 o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn gwbl glir bod darparu gofal sy'n debyg i ofal rhiant yn cael ei gydnabod fel 'gofal' o fewn yr ystyr yn Neddf 2016?**

O'r 46 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 43 yn cytuno yn benodol neu roedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi'r cynnig; roedd 1 ymatebydd yn anghytuno, 2 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr roi sylw ar y cwestiwn a ofynnwyd.

Cafwyd adborth cadarnhaol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda sawl ymatebydd yn croesawu eglurder a chryfhau mewn perthynas â'r diffiniad o 'ofal'. Croesawodd un ymatebydd y cynnig hwn gan ei fod yn teimlo bod y diffiniad presennol yn canolbwyntio gormod ar oedolion ac y gallai gyfrannu at roi rhai pobl ifanc mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio o 16 mlwydd oed, gan eu bod yn cael eu hasesu fel rhai nad oes arnynt angen 'gofal', dim ond 'cymorth' o dan y diffiniad presennol. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai'r diffiniad gynnwys pob math o ofal a roddir gan rieni gan gynnwys rhai meysydd gofal wedi'i addasu e.e., bwydo drwy diwb, gweinyddu meddyginiaeth bresgripsiwn a meddyginiaeth dros y cownter y byddai rhiant fel arfer yn ymgymryd â hwy.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r cynnig hwn ymgorffori gofal sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn grefyddol, sy'n cynnwys dyletswydd i ddarparu cyfleoedd i siarad iaith frodorol, mynychu addoldai, cael cynnig lle dynodedig i weddïo a phrydau bwyd sy'n adlewyrchu deiet diwylliannol unigolyn.

Gofynnodd rhai ymatebion am eglurder ynghylch yr ystod oedran sy'n cael ei hystyried.

Gofynnodd un ymatebydd sut y bydd hyn yn effeithio ar ddarpariaeth heb ei rheoleiddio i bobl ifanc sy'n byw mewn llety preswyl â chymorth. Galwodd ymatebydd arall i Lywodraeth Cymru arwain ar ddeall y gwahanol fathau o opsiynau llety y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal.

Dywedodd un ymatebydd y byddai'r newid arfaethedig yn cael effaith andwyol ar dai â chymorth i bobl ifanc 16 i 18 oed gan na fyddai gan lawer o'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn y seilwaith i gofrestru gydag AGC. Awgrymu y gallai newidiadau deddfwriaethol arwain at ostyngiad yn y cyflenwad o lety â chymorth i bobl ifanc.

**Cwestiwn 4.18: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn y bennod hon? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:**

- **Manteision, ac anfanteision;**
- **Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;**
- **Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;**
- **Materion ymarferol eraill**

**Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol. Esboniwch eich ateb, naill ai yma neu, os yw'n haws, mae croeso ichi nodi unrhyw effeithiau sy'n benodol i gynnig unigol o dan y cwestiwn priodol uchod.**

Er na wnaeth nifer mawr o ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd y rhai a ymatebodd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn y bennod hon ar y cyfan.

Dywedodd rhai ymatebwyr y bydd y cynigion yn dileu amwysedd o'r ddeddfwriaeth, gan ddarparu eglurder, mynd i'r afael â rhai anghysondebau a hwyluso mwy o lywodraethu.

Daeth adborth i law hefyd a oedd yn gadarnhaol yn gyffredinol oddi wrth ymatebwyr ynghylch diogelu unigolion pan nad yw darparwyr wedi'u cofrestru neu'n darparu gwasanaeth "nad yw'n ddiogel nac yn ddigonol."

Un o'r themâu rheolaidd oedd y byddai goblygiadau adnoddau posibl i ddarparwyr er mwyn cyhoeddi datganiadau blynyddol. Cododd un ymatebydd fater materion diogelu data a gofynnodd ymateb arall sut y bydd y cyhoedd yn gwybod sut i gael mynediad at ddatganiadau gwasanaeth penodol.

Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd cyfleu unrhyw newidiadau sy'n darparu pwerau ychwanegol yn glir i ddarparwyr gofal, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n gwella'r system ddiogelu.

**Cwestiwn 4.19: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y bennod hon yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb na chyflwyno sylwadau ar y cwestiwn hwn.

Roedd y sylwadau a ddaeth i law yn cydnabod na fyddai fawr o effaith neu ddim effaith o gwbl ar y Gymraeg. Codwyd sawl sylw am anogaeth i ddogfennau fod yn Gymraeg gan gymryd anghenion iaith pobl i ystyriaeth. Dywedodd un ymatebydd y byddai effeithiau cadarnhaol yn cynyddu trwy recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a hrwyddo a datblygu'r Gymraeg.

Rhoddyd adborth mewn perthynas â chynhyrchu datganiadau blynyddol ac adroddiadau yn ddwyieithog a'r effaith y byddai hyn yn ei chael os na fyddai darparwr yn gallu gweithredu hyn.

**Cwestiwn 4.20: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion yn y bennod hon gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ni chyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau nac ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd ni nododd tri o'r ymatebwyr unrhyw effaith yn unol â deddfwriaeth. Awgrymodd un ymatebydd mai'r unig effaith fyddai os byddai darparwr yn methu â chynhyrchu ei adroddiad yn ddwyieithog.

Ni allai ymatebydd arall weld ffordd y gallai'r newid hwn effeithio'n ffafriol ar y Gymraeg. Awgrymodd un ymatebydd y gellid creu templedi er mwyn symleiddio datganiadau blynyddol yn Gymraeg.

Yn olaf, roedd un ymatebydd yn ansicr sut i ateb y cwestiwn hwn. Datganodd y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg yn gallu cymryd rhan lawn mewn trafodaethau ar y cynigion hyn ac mae hefyd yn codi'r mater o gael dogfennau hawdd eu deall yn Gymraeg.

**Cwestiwn 4.21: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Cododd 4 ymatebydd faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Awgrymodd y dylai Unigolion Cyfrifol ddod yn gategori cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwnaethant awgrymu ymhellach, os nad yw Unigolion Cyfrifol wedi'u cofrestru, y dylid cymryd y cyfle i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru pwy yw eu Hunigolyn Cyfrifol a darparu a chadw manylion cyswllt cyfredol.

Roedd un ymateb yn argymhell penodi Gweinidog Plant ar lefel cabinet i hyrwyddo a diogelu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cododd ymateb arall gwestiynau mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn olaf, gwnaeth un ymatebydd sylw ynghylch sut y bydd darparwyr yn cyhoeddi eu hadroddiadau ei hunain os nad oes ganddynt wefan.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Roedd y cynigion yn y bennod hon o'r ymgynghoriad yn awgrymu gwelliannau i'r drefn reoleiddio ar gyfer darparwyr gofal a chymorth yng Nghymru. Bwriadwyd y rhain naill ai i helpu i gyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol, i ddatrys anghysondebau sydd wedi codi'n ymarferol, neu i helpu Arolygiaeth Gofal Cymru i gyflawni ei swyddogaethau. Rydym yn croesawu'r lefel uchel o gefnogaeth i'r cynigion hyn.

Mae'r ymatebwyr wedi codi nifer o gwestiynau perthnasol yn eu hymatebion. Mewn rhai achosion, mae'r rheoliadau a'r canllawiau presennol eisoes yn mynd i'r afael â'r rhain, ond bydd eraill yn cael ystyriaeth bellach wrth i'r camau nesaf ar y cynigion hyn gael eu hystyried.

## **Pennod 5: Diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol**

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Mewn rhai achosion, cafodd y materion a godwyd eu hailadrodd yn nifer o'r cwestiynau. Er mwyn osgoi ailadrodd, byddwn yn ymateb unwaith yn unig i'r materion hynny yn y ddogfen hon.

Dim ond 50 o'r 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad atebodd y cwestiynau yn y Bennod hon ac felly rydym wedi canolbwyntio ein dadansoddiad ar yr ymatebion hyn yn yr adran hon.

### **Cwestiwn 5.1: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddarparu y gall person sydd wedi dal swydd fel aelod o Gofal Cymdeithasol Cymru gael ei ailbenodi unwaith?**

O'r 50 o ymatebion a gafwyd i gwestiynau yn y bennod hon, roedd 37 yn cytuno â'n cynnig, gan gytuno bod hyn yn cyd-fynd â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus ar gyfer cyrff cyhoeddus. Roedd saith o'r ymatebion yn teimlo bod y cynnig yn rhoi'r gallu i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw arbenigedd a'i fod yn gyfle i sicrhau parhad pan fydd angen recriwtio aelodau newydd o'r Bwrdd. Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys bod y cynnig "*...yn galluogi aelod i barhau i weithio. Mae'n ymddangos yn deg ac yn dryloyw...*", neu byddai'n helpu "*...i sicrhau parhad a phrofiad, wrth i eraill newid rolau...*", neu "*...byddai'n cyd-fynd â sefydliadau tebyg eraill a byddai'n arwain at fanteision o ran parhad a sefydlogrwydd arweinyddiaeth a chyfeiriad sy'n bwysig wrth weithio tuag at strategaethau a fframweithiau tymor hir.*" Roedd yr ymatebion hyn yn cydnabod yr angen i sicrhau proses glir a thryloyw ond gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd hefyd i sicrhau y gellir cadw profiad ac arbenigedd am gyfnod cymesur.

Wrth gytuno â'r cynnig, teimlai un ymateb ei bod yn bwysig bod y geiriad yn canolbwyntio ar beth yw'r cyfnod hiraf o amser y gallai aelod o'r Bwrdd ei gael yn hytrach na sawl cyfnod, oherwydd mewn rhai achosion gellid rhoi cyfnod byrrach i aelod i ddechrau. Pe bai hyn yn wir, dywedon nhw y "*byddai ail dymor llawn ond yn caniatáu iddynt gwblhau chwe blynedd ac nid yr wyth llawn fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.*" Roedden nhw hefyd yn dadlau y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru allu "*ailbenodi aelod sy'n gadael neu gyn-aelod o'r Bwrdd i bwyllgorau neu i'r Bwrdd os yw ei sgiliau a/neu ei brofiad yn ddefnyddiol ar gyfer nod strategol ac nad yw'r sgiliau/profiad ar gael gan aelodau presennol eraill y Bwrdd;*" neu estyn y cyfnod am gyfnod penodol os disgwylir oedi yn y broses o recriwtio aelod newydd.

Ni wnaeth mwy nag un o bob pump (11) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau yn y bennod hon ateb y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 5.2: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi'r pŵer i Gofal Cymdeithasol Cymru i roi cofrestriad amodol i berson, pan fo'r person hwnnw'n adnewyddu ei gofrestrriad, mewn rhai amgylchiadau?**

O'r 43 a atebodd y cwestiwn hwn, cytunodd 40 ohonynt fod y cynnig i roi pŵer i reoleiddiwr y gweithlu roi cofrestriad amodol yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i

ganiatáu ailgofrestru unigolyn gyda chymorth i gyflawni ei rwymedigaethau. Roedd un o'r ymatebwyr yn teimlo "*...byddai hyn yn gwneud synnwyr. Os yw rhywun wedi cofrestru ar hyn o bryd ond heb gwblhau'r gofynion i ailgofrestru, nid yw'n gwneud synnwyr eu dadgofrestru tra byddwch yn aros iddynt wneud hynny.*" Roedd ymatebydd arall yn teimlo y byddai'r cynnig yn "*...briodol mewn rhai amgylchiadau. Mae'n caniatáu rhai eithriadau i rai staff sydd â rhesymau dilys dros beidio â chydymffurfio â'r gofynion cofrestru.*" Derbynnir yn eang fod hwn yn "*...ddull cymesur sy'n dileu'r risg y bydd cyflogaeth gweithwyr da yn cael ei beryglu o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth neu am resymau cymharol fach neu dechnegol.*" Roedd rhai yn teimlo y byddai hyn hefyd yn "*...pwysleisio rôl Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gefnogi'r gweithlu cofrestredig i gyflawni eu rhwymedigaethau a chryfhau pwysigrwydd cofrestru wrth greu gweithlu proffesiynol;*" a byddai'n helpu cyflogwyr i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai mewn angen.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn annog bod yn ofalus, oherwydd oni bai bod "*...yr eithriadau wedi'u diffinio'n glir a bod yr amodau'n gymesur ac yn sensitif o ran amser,*" gallai fod perygl y daw'r rhain "*yn arfer cyffredin.*" Gofynnodd ymatebydd arall am i "*gyflogwyr gael gwybod am unrhyw gofrestrriad amodol, fel y gallant gefnogi'r gweithiwr cofrestredig i fodloni'r gofynion drwy roi cymorth ymarferol;*" a bod cyflogwyr a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr amodau'n cael eu monitro ac y cydymffurfir â nhw i sicrhau bod yr holl ofynion cofrestru wedi'u bodloni.

Roedd dau ymateb yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth am yr hyn sydd gyfystyr â chofrestriad amodol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw hyn yn ateb y broblem.

Nid roddodd saith o'r 50 ymateb i'r rhan hon o'r ymgynghoriad unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn.

### **Cwestiwn 5.3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ganiatáu panel i adolygu ac estyn gorchmynion interim fel sy'n briodol, am hyd at uchafswm o 18 mis?**

Roedd 40 o ymatebion yn cytuno â'n cynnig i roi grym i Gofal Cymdeithasol Cymru symleiddio'r broses Addasrwydd i Ymarfer a chaniatáu adolygu ac estyn paneli dros dro hyd at uchafswm o 18 mis heb fod angen gwneud cais i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi. Roedd un ymateb yn teimlo "*...byddai hyn yn galluogi amserlen llawer byrrach ar gyfer gwneud gorchmynion interim, gyda'r nod cychwynnol o gwblhau'r broses addasrwydd i ymarfer yn llawer cyflymach. Ar hyn o bryd mae amserlen llawer hirach ar gyfer gwneud gorchmynion interim er mwyn osgoi'r angen i gael gwrandawriad llys.*" Roedd ymatebydd arall yn teimlo y gallai'r cynnig "*... ei gwneud yn fwy tebygol y bydd gorchmynion interim yn cael eu gwneud am y cyfnod gofynnol priodol sydd ei angen yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o estyniad.*" Rhannwyd y farn hon gan ymatebydd arall, a oedd yn teimlo y byddai "*... yn sicrhau bod gorchmynion interim yn cael eu defnyddio fel y bo'n briodol ac yn gymesur â'r amgylchiadau ac y dylid rhoi'r pŵer i baneli Gofal Cymdeithasol Cymru eu hadolygu a'u hestyn, yn ôl yr angen, hyd at uchafswm cyfnod o 18 mis. Byddai hyn yn darparu ar gyfer proses symlach, sy'n fuddiol i bawb.*"

Un elfen o'r cynnig oedd, pe bai ymchwiliadau'n cymryd hirach na'r amserlen o 18 mis, yn yr amgylchiadau eithriadol hynny byddai dal yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru wneud cais i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi am unrhyw estyniadau pellach. Cadarnhaodd sawl un y byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw prosesau'n cymryd rhy hir, ond eu bod hefyd yn diogelu hawl yr unigolyn i wrandawriad teg. Roedd un yn dadlau "...credwn y bydd hyn yn lleihau gosod gorchmynion hir yn ddiangen rhag ofn na fydd 6 mis yn ddigon. Teimlir fod hyn yn decach i'r person sy'n destun yr ymchwiliad i'w addasrwydd i ymarfer. Bydd hefyd yn lleddfu'r beichiau ar ddarparwyr os oes angen iddynt wneud trefniadau ychwanegol i ganiatáu i'r person gydymffurfio â'r gorchymyn, er enghraifft peidio â chaniatáu i unigolion weithio ar eu pennau eu hunain." Roedd ymatebwyr yn cydnabod y gallai rhai achosion gael eu cwblhau'n hawdd ac felly gellid dod â nhw i ben o fewn amserlen fer, ond efallai y bydd angen mwy o amser ar gyfer achosion mwy cymhleth. Roedd un yn teimlo y byddai'r cynnig "...yn caniatáu ar gyfer cwblhau ymchwiliad llawn a theg, yn enwedig ar gyfer achosion cymhleth..." sy'n amcan allweddol o'r prosesau hyn.

Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn dadlau fod angen mwy o dryloywder yn y broses – "...deall faint o bobl sydd ar y panel, a phwy ydynt? Beth yw'r meini prawf i fod ar banel? Mae angen rhagor o wybodaeth sy'n darparu eglurder." Byddai hyn yn helpu unigolion i ddeall y broses a chefnidir y panel i allu penderfynu ar eu hachos a'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Ni wnaeth 11 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn na rhoi unrhyw farn na sylwadau ar y cynnig.

#### **Cwestiwn 5.4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddarparu panel Addasrwydd i Ymarfer sydd â'r gallu i ddirymu gorchymyn interim, yn ystod achosion adolygu, pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol?**

Cytunodd 33 o ymatebion y byddai'r cynnig hwn yn darparu dull symlach o ymdrin â'r achosion hyn. Dywedodd rhai y byddai yn "...galluogi dull symlach a fyddai'n fuddiol i bawb ac yn rhoi mwy o eglurder nad yw'r broses yn rhy ragnodol ac anhyblyg..." neu "...yn ddull rhesymol, ac yn darparu hawl deg a chyson i adolygiad ar gyfer unigolion..." ac "...yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i wybodaeth newydd." Dywedodd un arall eu bod yn teimlo "...byddai'r newid hwn yn cefnogi darparu eglurder ac yn helpu i gefnogi polisiâu'r gweithlu[;] mae hefyd yn sicrhau cydraddoldeb o ran hawliau ymarferwyr a gobeithio y bydd yn atal oedi diangen mewn achosion." Teimlai'r sylwadau hyn fod y cynnig yn cydnabod yr angen am ddull cytbwys ar gyfer gwrandawriad teg a hyblygrwydd i sicrhau y gellir clywed ac ystyried gwybodaeth newydd yn gynharach yn yr achos.

Dadleuodd un ymatebydd, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, bod angen rhywfaint o ddealltwriaeth bod "...effaith yr achos ar unigolion yn sylweddol a phan fydd yn amlwg bod tystiolaeth i herio perthnasedd parhaus gorchmynion interim, dylid eu dirymu cyn gynted â phosib." Atgyfnerthwyd hyn gan ymatebydd arall a oedd yn cytuno "...mae hyn yn teimlo'n decach i'r person sy'n destun achos addasrwydd i ymarfer a bydd yn eu hatal rhag teimlo eu bod yn cael eu cosbi tra bod achosion yn dal i fynd rhagddynt, os nad oes angen y gorchymyn mwyach."

Fodd bynnag, roedd pedwar o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen sefydlu "...proses adolygu lle byddai gan y panel fynediad llawn at yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r gorchymyn interim i allu gwneud penderfyniad gwybodus ar orchymyn y tu allan i'r prif fater." Roedden nhw'n teimlo nad oedd y manylion yn yr ymgynghoriad yn ddigon clir a'u bod yn "...methu ymateb i hyn gan nad ydym yn deall yn iawn sut y byddai'n cael ei ddefnyddio."

Ni wnaeth 11 o'r ymatebwyr i'r bennod roi unrhyw safbwyntiau na sylwadau ar y cynnig hwn.

### **Cwestiwn 5.5: Beth yn eich barn chi fyddai'n ei gwneud yn angenrheidiol ac yn briodol i banel Addaswydd i Ymarfer ddirymu gorchymyn interim?**

Nid wnaeth 23 o'r ymatebion i'r bennod hon roi ateb i'r cynnig hwn.

O'r rhai a atebodd, roedd 22 yn cytuno â'r cynnig yn y cwestiwn hwn. O'r rhain, dywedodd 14 y dylid dirymu gorchymynion interim "...os yw'r rheswm dros y gwaharddiad gwreiddiol wedi'i ddatrys er boddhad y panel..." neu "os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg sy'n golygu nad oes angen Gorchymyn Interim mwyach." Neu os "...daw gwybodaeth newydd i'r amlwg a fyddai, pe bai wedi bod yn hysbys yn flaenorol, wedi newid y penderfyniad gwreiddiol i roi gorchymyn interim ar waith..." neu fod y "... pryder wedi'i wrthbrofi neu ei israddio a allai leihau'r risg yn sgil presenoldeb yr unigolyn mewn gwasanaeth. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol os daw tystiolaeth bellach i'r amlwg yn ystod ymchwiliad." Roedd yr ymatebion hyn yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod gorchymynion interim yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod ymchwiliad a bod yr holl dystiolaeth yn cael ei chlywed i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn cael eu trin mewn modd amserol. Teimlai sawl ymateb y byddai'r cynigion yn symleiddio'r broses ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd.

Roedd rhai ymatebion yn amlinellu'r rhesymau pam roedden nhw'n teimlo y dylid dirymu gorchymynion o'r fath, pe bai materion mwy difrifol yn cael eu codi - e.e. "...mwy o risg, tystiolaeth o niwed neu niwed posibl..."; "... diogelwch, diogelu, lleoliadau heb eu rheoleiddio, llety anaddas, cymysgedd a lefelau sgiliau staff, diffyg rhesymeg gwasanaeth neu ddarpariaeth ddiogel..." ac "...euogfarnau, ond dim ond os yw bron yn sicr nad oes unrhyw siawns y bydd yn cael ei wrthdroi..." – ac felly dylid cymryd camau mwy priodol.

Roedd tri o'r ymatebwyr yn dadlau y byddai angen rhesymeg glir ar gyfer unrhyw benderfyniad i ddirymu gorchymyn interim cyn gwneud hynny a themlwyd fod angen eglurhad pellach ar y cynigion cyn y gellir gwneud penderfyniad manylach. Roedd ymateb ychwanegol yn awgrymu y dylid datblygu gweithgor i archwilio'r mater hwn ymhellach a'r hyn fyddai'n rhesymol o ran dirymu gorchymyn interim.

### **Cwestiwn 5.6: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn y bennod hon? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:**

- Manteision, ac anfanteision;
- Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;
- Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;
- Materion ymarferol eraill



**Croesewir hefyd eich barn ar sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu sut y gallai effeithiau negyddol gael eu lliniaru. Esboniwch eich ateb, naill ai yma neu, os yw'n haws, mae croeso ichi nodi unrhyw effeithiau sy'n benodol i gynig unigol o dan y cwestiwn priodol uchod.**

Rhoddodd 16 ymatebydd atebion i'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a atebodd, teimlai un y byddai'n *"fwy buddiol i unigolion â nodweddion gwarchoddedig a materion ymarferol eraill,"* a dadleuai un arall *"Ni ddylai fod unrhyw effaith ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, ond i sicrhau hyn - dylid cadw'r holl ddata am gamau gweithredu/penderfyniadau ac adolygu'r wybodaeth yn rheolaidd i chwilio am unrhyw dueddiadau sy'n peri pryder."*

Roedd yr ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio mwy ar y cynigion na'u heffaith ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Ymatebodd wyth i ddweud eu bod yn teimlo y byddai'r cynigion yn gwella materion ac yn sicrhau mwy o symlrwydd a hyblygrwydd, a fyddai o fudd i bob agwedd o'r gweithlu.

**Cwestiwn 5.7: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y bennod hon yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu lliniaru'r effeithiau negyddol?**

Ni wnaeth 30 o'r ymatebwyr i'r bennod ateb y cwestiwn hwn.

O'r rhai a atebodd, roedd wyth ymateb yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg nac ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu i gael mynediad at wasanaethau. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai gynyddu'r cyfleoedd ond ni wnaeth ymhelaethu ar sut y gallai hyn ddigwydd. Amlygodd chwe ymateb pellach y gofynion presennol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Dywedodd un fod *"cyfrifoldeb eisoes i ymateb i geisiadau yn y Gymraeg lle gofynnwyd am hynny, [ond roedd yn teimlo bod angen] ystyried ieithoedd eraill."* Roedd tri ymateb yn ein hatgoffa bod dyletswydd eisoes ar y rheoleiddiwr a darparwyr gwasanaethau i gyflawni'r "Cynnig Rhagweithiol" i ganiatáu i unigolion gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dywedodd un ymatebydd, *"fel rhan o'r "Cynnig Rhagweithiol" bydd pob unigolyn yn cael cynnig y cyfle i gynnal eu sgysiau a'u hasesiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg."* Aeth ymlaen i ychwanegu y gallai fod manteision ac anfanteision i'r cynigion – e.e. *"Byddai effeithiau cadarnhaol yn cynyddu drwy recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a'r gallu i adnabod siaradwyr Cymraeg o fewn pob Adran, a hybu defnydd a datblygiad y Gymraeg. Byddai effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru drwy sicrhau na fydd unrhyw oedi o ran rhoi cefnogaeth neu asesiadau i ddinasyddion sy'n gofyn am eu hapwyntiad drwy gyfrwng y Gymraeg."* Atgyfnerthwyd hyn gan ddau ymateb arall a oedd yn teimlo yr hoffent *"i unrhyw ddiwygiadau i'r broses gofrestru ymrwymo i sicrhau bod anghenion iaith defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu hystyried i ganiatáu i bobl fyw a gweithio mewn cymunedau ieithyddol cytûn. Mae angen i fynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys unrhyw hawliau cyhoeddi neu adrodd estynedig, ddod yn 'Gynnig Rhagweithiol' a bydd*

*angen eu hystyried drwy gydol y broses gofrestru yn ogystal ag yn y broses o gynllunio a darparu gofal..." a "byddai angen ystyried mynediad at gais i adolygu gyda'r broses yn cael ei chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg."*

Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai'r cynigion yn helpu i roi mwy o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio eu dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg, a gofyn am fwy o wybodaeth yn yr iaith honno.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg ond ni wnaeth ymhelaethu ymhellach.

**Cwestiwn 5.8: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion yn y bennod hon gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Atebodd 18 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd chwech yn teimlo na fyddai unrhyw effaith, ond ni wnaethant roi unrhyw fanylion pellach ynghylch pam. Roedd un ymatebydd yn teimlo "*nad oes unrhyw ffordd o wella ymgysylltiad â'r Gymraeg o'r newidiadau hyn.*" Pwysleisiodd dau ymateb arall y gofynion presennol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog er budd unigolion. Ailadroddodd un ymatebydd ei sylw i'r cwestiwn blaenorol sef bod "*cyfrifoldeb eisoes i ymateb i geisiadau yn y Gymraeg lle gofynnwyd am hynny, [ond roedd yn teimlo bod angen] ystyried ieithoedd eraill.*" Gwnaeth ymatebydd arall gais i adolygu paneli fel y gallant "*...gynnal eu busnes yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â dewis iaith yr unigolyn.*"

Roedd un ymateb yn teimlo "*...mae'n ymddangos bod manteision o ran prosesau ac felly costau cysylltiedig hefyd...*" ond dadleuodd "*...byddai angen i'r diwygiadau hyn fod â pharmedrau clir a gosod cyfnodau adolygu er mwyn osgoi defnydd amhriodol ac unrhyw berygl o osgoi prosesau cofrestru cywir.*"

Gofynnodd un ymatebydd y "*...dylai unrhyw ganllawiau ychwanegol i'r broses gofrestru yn dilyn y diwygiadau a awgrymwyd i Ddeddf 2016 hefyd fod ar gael yn y Gymraeg i ddiwallu anghenion gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf;*" a gofynnodd un arall "*dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir fod ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddeall yn Gymraeg a Saesneg a dylid ei gynhyrchu ar yr un pryd â'r fersiwn anhygyrch.*"

Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai effaith negyddol ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg ond ni roddodd unrhyw fanylion pellach ynghylch pam ei fod yn meddwl hyn.

**Cwestiwn 5.9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Ni wnaeth 41 o'r ymatebwyr i'r bennod ateb y cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd, roedd pedwar yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu at eu hymatebion i'r cwestiynau hyn. Canolbwyntiodd dau ymateb arall eu safbwyntiau ar gofrestru. Yn benodol gwnaethant nodi eu bod yn *"...poeni am yr effaith y mae cofrestru yn ei chael ar y gallu i gadw a recriwtio gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hwn yn bwysau ychwanegol ar draws y sector ar weithlu nad yw'n cael ei wobrwyo'n briodol o hyd am ymgymryd â rôl broffesiynol."* Ychwanegon nhw hefyd *"...o ystyried y gyfran o'r gweithlu presennol sy'n rhan-amser, hoffem weld gweithwyr rhan-amser yn cael mwy o amser i fodloni gofynion cofrestru."*

Roedd un ymateb yn dadlau y dylai *"Llywodraeth Cymru archwilio trefniadau cynllunio'r gweithlu ar gyfer y gweithlu Adsefydlu Golwg gyda'r bwriad o'i gynnwys wrth gynllunio'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, a'i gwneud yn ofynnol i'r rhai a gyflogir yn y sector gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Rhwydwaith o Weithwyr Adsefydlu Proffesiynol."*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd y cynigion yn y bennod hon o'r ymgynghoriad yn awgrymu gwelliannau i drefn reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y rhain yn ymdrin â thelerau swyddi ar gyfer aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru; cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol yn amodol; a'r broses ar gyfer ymchwiliadau ac adolygiadau sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer.

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r cynigion hyn. Mae'r ymatebwyr hefyd wedi codi nifer o bwyntiau perthnasol y byddwn yn eu hystyried ymhellach.

O ran y cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi'r pŵer i Gofal Cymdeithasol Cymru i ganiatáu cofrestriad amodol, lle bo person wedi profi amgylchiadau eithriadol sydd wedi ei atal rhag adnewyddu ei gofrestriad, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i GCC ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol ynghylch yr hyn a olygir wrth amgylchiadau eithriadol, er mwyn sicrhau bod y rhain yn glir ac yn gymesur; ac y bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r gweithlu ac i gyflogwyr.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion i ddarparu pwerau i ganiatáu i Banel Addasrwydd i Ymarfer adolygu ac estyn gorchymynion interim fel y bo'n briodol, hyd at uchafswm o 18 mis; a'r gallu i ddirymu gorchymyn dros dro, yn ystod trafodion adolygu, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda GCC i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu i helpu i nodi unrhyw effeithiau anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, ar draws yr holl broses addasrwydd i ymarfer.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth i'r "Cynnig Rhagweithiol" a'i bwysigrwydd ar draws y sector gofal cymdeithasol; ac yn cydnabod bod rheoleiddiwr y gweithlu yn darparu llawer o'i wasanaethau'n ddwyieithog. Rydym wedi'n bodloni na fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar hyn nac yn ei newid.

Bydd pwyntiau eraill nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y cynigion hyn, gan gynnwys sylwadau ehangach a wneir am gofrestru, yn cael eu trafod gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

## **Pennod 6: Estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae**

Roedd y bennod hon yn cynnig diwygiad i Ddeddf 2016 i egluro'r sail gyfreithiol ar gyfer gwaith presennol Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) gyda'r sector gofal plant a gwaith chwarae drwy roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu bod rhaid trin gweithwyr gofal plant a chwarae fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion perthnasol.

Mae'r cynnig yn ceisio cynnwys y gweithwyr hynny sy'n darparu gofal plant (nid y rhai mewn swyddi gweinyddol neu rolau eraill mewn lleoliadau) ac sy'n cael eu cyflogi drwy amrywiaeth o drefniadau contractiol (parhaol, tymor sefydlog, dim oriau etc) yn ogystal â staff asiantaeth a'r rhai sy'n gwirfoddoli mewn lleoliadau.

### **Trosolwg o'r ymatebion**

Daeth 64 o ymatebion i law i'r cwestiynau ynghylch y newid arfaethedig i ystyr gweithiwr gofal cymdeithasol fel y'i hamlinellir yn Neddf 2016. Roedd yr ymatebion mwyaf sylweddol yn ymatebion oddi wrth sefydliadau sy'n cynrychioli sefydliadau gofal plant a gwaith chwarae.

Ni wnaeth rhai ymatebwyr unrhyw sylwadau sylweddol, ond nododd nifer a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â rhai o'r diwygiadau/estyniadau arfaethedig.

Roedd 49 o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, roedd eraill yn anghytuno neu'n amheus neu'n betrus am ganlyniadau anfwriadol posibl.

Roedd llawer o ymatebion, gan gynnwys y rhai oddi wrth sefydliadau gofal plant a gwaith chwarae, yn dangos camsyniadau cyffredin ac ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'r newid arfaethedig i'r diffiniad yn ei olygu yn ymarferol yn ogystal ag effaith hyn ar y Gymraeg. Ymdrinnir â'r camsyniadau hyn ar ddiwedd pob cwestiwn o dan "ymateb Llywodraeth Cymru."

**Cwestiwn 6.1: Hoffem wybod eich barn ar y cynnig i estyn y diffiniad o 'gweithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae. Yn benodol, ydych chi'n ffafrio estyn rôl Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae sy'n gweithio yn y sector gofal plant. Esboniwch eich rhesymau.**

Roedd 49 o ymatebwyr o blaid estyn y diffiniad er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb yn y cymorth sydd ar gael i weithwyr gofal plant a gwaith chwarae. Soniwyd yn benodol am gael yr un cyfleoedd datblygu a mynediad at adnoddau i ddatblygu a chynnal y sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu rolau. Soniwyd yn benodol am yr angen i ddiogelu plant a sicrhau eu bod yn derbyn gofal 'o ansawdd' fel rhesymau dros gefnogi'r cynnig, gyda'r farn y byddai hyfforddiant yn helpu i gyflawni hyn.

Dywedodd 4 o'r ymatebwyr nad oeddent o blaid estyn y diffiniad i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae ond ni roesant resymau.

Dyweddodd 6 ymateb fod angen gofal (gweler isod).

Ni wnaeth gweddill y 5 ymateb i'r bennod ddarparu ateb na mynegi barn.

### **Themâu allweddol**

#### Y gwahaniaeth rhwng gofal cymdeithasol a gofal plant a gwaith chwarae

Roedd y rhan fwyaf o'r **chwe** ymateb a oedd yn mynegi bod angen cymryd gofal neu a oedd yn mynegi pryder neu anghytundeb ynghylch y cynnig yn ymwneud â chymylu'r gwahaniaeth rhwng gofal cymdeithasol a gofal plant a gwaith chwarae.

Mynegodd dau ymatebydd bryder am yr effaith ar weithwyr gofal cymdeithasol ac awydd i gadw gwahaniaeth clir rhwng y ddau sector. Y gwrthwynebiad amlycaf oedd:

*“Mae hyn yn estyn cyrhaeddiad sector sydd eisoes dan bwysau... a chynnwys mwy nag a fwriadwyd yn y diffiniad o ofal cymdeithasol. Gallai hefyd danseilio rôl y gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol.”*

Atebodd un arall nad oedd o blaid y cynnig yn llwyr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd eu bod yn teimlo bod gwaith chwarae yn *“bwrpasol”* ac y byddai cwmpo o dan gylch gwaith GCC yn glastwreiddio'r proffesiwn.

Mynegodd un ymatebydd bryder ynghylch a fyddai disgwyl yn benodol i weithwyr chwarae *“ffitio i mewn”* gyda gweithwyr gofal cymdeithasol ond roedd yn croesawu unrhyw welliant y gallai ei gynnig i safonau a phroffesiynoldeb. Gyda geiriau tebyg o ofal, nododd ymatebydd arall y gallai cynnwys gwaith chwarae yng nghylch gwaith GCC *“lastwreiddio, ymyleiddio neu ddiethrio”* y gweithlu a oedd eisoes yn teimlo eu bod wedi'u difreinio pan ddaeth Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (2010) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (2015) i rym.

Awgrymodd un ymatebydd, er mwyn lliniaru pryderon ynghylch gwanhau cymwysterau, fod rôl Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC) yn parhau i fod yn glir ac wedi'i ddiffinio i lywio gwaith GCC a bod PETC Cymru yn cadw ei swyddogaeth weithredol o gymeradwyo cymwysterau ar gyfer y sector, hyd yn oed os bydd fframweithiau cymwysterau GCC a PETC yn cael eu dwyn ynghyd yn un.

Roedd yn ymddangos bod sawl ymatebydd a oedd yn annog pwyll yn credu y byddai'r cynnig i *“estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae,”* yn caniatáu i weithwyr cymdeithasol ddod yn weithwyr gofal plant neu chwarae ac i'r gwrthwyneb.

Cyfeiriodd pump o'r ymatebwyr at gyfraddau cyflog a buddion a roddir i weithwyr gofal cymdeithasol, a dadleuodd, pe bai gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae yn cael eu cynnwys o dan yr un diffiniad, y dylent, er lles cydraddoldeb, ddisgwyl yr un peth er mwyn osgoi gwaethygu'r materion recriwtio a chadw o fewn y sector ymhellach.

## Cofrestru'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae

Roedd rhai ymatebwyr yn credu, drwy nodi bod gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae yn 'weithwyr gofal cymdeithasol' yn golygu y byddai'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 gyfan yr un mor gymwys iddynt - yn fwyaf nodedig, y gofyniad i weithwyr gofrestru gyda GCC. Cyfeiriodd un ymatebydd at adran 80 (1) (b) o Ddeddf 2016 sy'n nodi:

*“Rhaid i GCC gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.”*

Awgrymodd tri ymatebydd y dylid oedi cyn gweithredu'r diwygiad oherwydd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i gofrestru'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn broffesiynol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod diwygio'r Ddeddf, cyn i waith y gweithgor a'r ymgynghoriad arfaethedig ar gofrestru'r gweithlu ddod i ben, yn achub y blaen ar waith a chanlyniad y grŵp. Yn ogystal, roedd teimlad y gallai oedi i'r diwygiad helpu i sicrhau y byddai unrhyw ddiwygiadau yn seiliedig ar ddiffiniadau cywir.

## Rôl bresennol GCC mewn perthynas â hyfforddiant a chymwysterau

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai effeithiau'r newid yn gadarnhaol i raddau helaeth, gan ffurfioli rôl bresennol GCC mewn perthynas â hyfforddiant a chymwysterau. Gwell cefnogaeth i weithlu'r sector oedd y budd canfyddedig mwyaf cyffredin, ynghyd â mwy o gysondeb o ran cefnogaeth i'r gweithlu cyfan, yn enwedig i leoliadau ac ymarferwyr sydd â rolau amrywiol ac sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o leoliadau a gofal i blant ar draws yr ystod oedran, nid yn unig y blynyddoedd cynnar.

Roedd GCC yn cefnogi'r cynnig gan ei fod yn credu y byddai'n helpu:

*“i ddileu amwysedd yn y diffiniadau cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf a chael gwared ar ansicrwydd cyfreithiol am ein gwaith ar draws y sector... gyda'r rhai sy'n gweithio y tu allan i leoliadau ffurfiol.”*

Dywedodd un ymatebydd y byddai diwygio'r diffiniad yn galluogi GCC i lenwi bwlch cyfredol mewn cefnogaeth i'r sector gwaith chwarae ar ôl i gyllid pwrpasol i SkillsActive ddod i ben mewn perthynas â hyfforddiant a sgiliau. Awgrymodd dau ymatebydd y gallai diwygiad hwyluso creu un fframwaith cymwysterau i leihau dryswch a thrwy hynny symleiddio mynediad i'r sector.

Mynegodd sawl ymateb y farn y gallai gwell cefnogaeth i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae leddfu rhai materion recriwtio a chadw ac felly helpu lleoliadau i fod yn fwy cynaliadwy.

## Proffesiynoli'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae

Roedd rhai ymatebion yn dadlau y gallai diwygio'r diffiniad ddyrchafu'r statws proffesiynol ar ofal plant a chwarae, hyrwyddo'r sector gwaith chwarae ac, felly, godi ymdeimlad gweithwyr o'u gwerth.

Nododd un ymateb y byddai ehangu'r diffiniad yn cefnogi gweithredu'r agenda addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar ac yn caniatáu gwell eglurder ynghylch cymwysterau, a pharhad rhwng cymwysterau. Cyfeiriodd ychydig o ymatebion at gydweithio fel rheswm dros gefnogi'r cynnig.

**Cwestiwn 6.2: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:**

- **Manteision, ac anfanteision**
- **Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion**
- **Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig**
- **Materion ymarferol eraill**

**Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol. Esboniwch eich ateb.**

I gyd, nid atebodd 25 o'r rhai a ymatebodd i bennod 6 o'r ymgynghoriad y cwestiwn hwn. O'r 39 a ymatebodd, ymatebodd 21 yn gadarnhaol gan awgrymu manteision, tra nododd 17 anfanteision posibl i'r cynnig.

### Manteision

Ymhlith y 21 o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn gan awgrymu manteision, y brif fantais ganfyddedig oedd mwy o gefnogaeth i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, er bod rhai yn credu y byddai'n caniatáu tegwch mewn cyflog ar draws gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant a gwaith chwarae.

Roedd rhai o'r ymatebion yn teimlo y byddai cynnydd yn y gefnogaeth i'r gweithlu yn codi proffil y sector ac yn cefnogi cynaliadwyedd, yn enwedig mewn gwaith chwarae. Gwnaeth nifer y pwynt bod y diwygiad yn ffurfioli rôl a swyddogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae. Roedd manteision eraill yn cynnwys gwell diogelu, gwelliannau i hyfforddiant a chymwysterau, cysondeb o ran cefnogaeth ar draws darpariaeth a phroffesiynoli'r sector.

### Anfanteision

Roedd llai o ymatebwyr, sef 17, yn awgrymu bod anfanteision i'r cynnig. Yr anfantais fwyaf cyffredin a grybwyllwyd oedd yr effaith bosibl ar GCC a chyrrff ymbarél eraill o ran cylch gwaith a chwmpas cynyddol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar eu capasiti. Nid oedd hyn, er hynny, yn fater a godwyd gan GCC.

Roedd yn ymddangos bod sawl ymatebydd yn credu y byddai'r cynnig yn golygu y byddai'n ofynnol i weithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae gofrestru i ymarfer a gwnaethant rybuddio am effaith unrhyw gost a baich ychwanegol gwaith papur i ddarparwyr gofal plant mewn perthynas â chofrestru'r gweithlu.



Soniodd eraill am faterion recriwtio a chadw, yn enwedig pe nai bai galwadau am gyflog cyfartal a buddion yn cael eu bodloni, neu pe bai disgwyl i weithwyr gofrestru. Pwysleisiodd pedwar arall y gwahaniaeth rhwng gofal cymdeithasol a gofal plant a gwaith chwarae, gan bryderu y gallai diwygiad "*lastwreiddio*" neu "*ddieithrio*" y gweithlu, yn benodol gweithwyr chwarae, gydag un ymatebydd yn nodi nad yw'r term '(gweithwyr) gofal cymdeithasol' yn "*adlewyrchu ethos a gwerthoedd gwaith chwarae.*"

### Costau

Ychydig iawn o ymatebwyr a gyfeiriodd at gostau mewn ymateb i gwestiwn 6.2. Soniodd tri am faich cost posibl i GCC a chyrrff ymbarél; roedd eraill yn dadlau y byddai cost i ymarferwyr ar y sail y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ac felly dalu.

### Arbedion

Ychydig iawn o ymatebwyr a gyfeiriodd at arbedion mewn ymateb i gwestiwn 6.2. Soniodd dau ymatebydd mai arbediad ymarferol yn hytrach nag arbediad costau fyddai i GCC feddu ar un rhestr gymwysterau yn hytrach na chadw dwy restr ar wahân ar gyfer gofal plant a gwaith chwarae gan wahanol gyrrff.

### Materion ymarferol

Soniodd nifer o'r ymatebwyr fod angen ystyried canlyniadau anfwriadol, yn bennaf o ran diffinio gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae yn 'weithwyr gofal cymdeithasol' ac unrhyw ofynion rheoleiddio a fyddai'n deillio o hynny ac yn cael eu gosod arnynt. Dywedodd un arall y gallai "*greu problemau gydag addysg a'r arolygiaethau ac y dylai unrhyw brosesau sydd ganddynt ar waith gael eu hystyried,*" er na roddwyd rhesymau nac enghreifftiau.

### Sylwadau ychwanegol

Dywedodd un ymatebydd: "*Yn draddodiadol, mae gweithwyr chwarae wedi gweithio gyda phlant rhwng 3 a 12 oed; nid ydynt yn weithwyr blynyddoedd cynnar, nac ychwaith yn weithwyr ieuencid. Bydd cynnwys gweithwyr chwarae yn rôl Gweithiwr Gofal Cymdeithasol yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y rôl y maent yn ei darparu fel rhan o'r economi sylfaenol.*"

**Cwestiwn 6.3: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Ni roddodd 37 o ymatebwyr i bennod 6 ateb i gwestiwn 6.3.

O'r rhai a ymatebodd, rhoddodd rhai atebion yn ystyried niferoedd presennol y gweithlu sy'n siarad Cymraeg ac argaeledd hyfforddwyr Cymraeg yn y sector yn

hytrach nag ystyried yr *effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael* ar y Gymraeg ac unrhyw gyfleoedd.

Roedd 20 o ymatebion i'r cwestiwn yn teimlo y byddai effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Ymhlith yr enghreifftiau a grybwyllwyd roedd mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg i gefnogi recriwtio a chadw o fewn y gweithlu; mwy o 'fuddsoddiad' a chefnogaeth i'r sector gwaith chwarae. Teimlai un ymatebydd y gallai diwygio:

*“roi mwy o hyder yng ngallu (Gofal Cymdeithasol Cymru) i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg.”*

Dadleuodd un ymatebydd y gallai cynyddu cylch gorchwyl GCC helpu i fynd i'r afael â phrinder *“hyfforddwyr gwaith chwarae dwyieithog sy'n gymwys yn alwedigaethol”* i gefnogi'r gweithlu i ddatblygu sgiliau Cymraeg, gan bwysleisio'r angen am seilwaith gwell i hwyluso hyn.

Cafwyd rhai ymatebion ynghylch 'Mwy na geiriau' 2022-25 a galwadau i gynnwys lleoliadau gofal plant.

Un ymateb i'r cwestiwn hwn oedd y gred y byddai rhaid i weithwyr gofal plant a gwaith chwarae sy'n dod yn 'weithwyr gofal cymdeithasol' gofrestru a bod yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â gweithwyr gofal cymdeithasol. Roedd yr ymatebydd yn gweld budd yn y data a fyddai ar gael i gofrestrfa ar sgiliau Cymraeg y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen gofalu nad oedd y cynnig yn rhoi'r sector o dan unrhyw faich rheoleiddio ychwanegol.

Roedd chwe ymatebydd yn teimlo na fyddai unrhyw effaith negyddol, gyda rhai'n datgan bod Deddf yr Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r un pwysigrwydd i Gymraeg a Saesneg beth bynnag. Dyfynnodd un y canlynol yn ei ateb: *“Dylai pob corff cyhoeddus fod yn gyfarwydd â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg a dylent fod yn eu cyflawni.”*

Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ond nid esboniodd y rheswm dros hyn.

### Sylwadau ychwanegol

Dywedodd dau ymatebydd y byddai mwy o gefnogaeth i ieithoedd eraill, yn ogystal â Chymraeg a Saesneg, i'w chroesawu, ac y dylid ystyried unrhyw effaith ar weithwyr sy'n siarad ieithoedd eraill.

Ni wnaeth un ymatebydd sylw ar yr effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar y Gymraeg ond nododd, *“Mae'n bwysig nad oes beichiau rheoleiddio ychwanegol yn cael eu gosod ar leoliadau gofal plant a chwarae cyfrwng Gymraeg.”*

**Cwestiwn 6.4: Eglurwch sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau**

**cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nid ymatebodd 45 o ymatebwyr i Bennod 6 i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, cyfeiriodd wyth at yr ymateb yr oeddent wedi'i ddarparu i gwestiwn 6.3.

Cyfeiriodd un ymatebydd eto at y cynnig rhagweithiol/Mwy na Geiriau, a dweud y byddai'n croesawu *"cynnwys y sector gofal plant a chwarae yn well o fewn hyn"*.

Yn gyffredinol, er hynny, nid oedd unrhyw ystyriaeth glir o *"sut y gellid llunio'r cynnig neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg"*, er i un ymatebydd ddweud *"nad yw'n gweld ffordd o drin y Gymraeg yn fwy ffafriol gyda'r newid hwn"*.

Roedd tri o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynnig helpu i hyrwyddo'r Gymraeg gydag un yn amlinellu sut y gallai hyn arwain at *"sector gofal plant a chwarae mwy cydweithredol a chydlynol yng Nghymru"* fel rhan o daith gofal parhaus plentyn wrth iddo fynd yn hŷn. Nododd un arall eu bod yn *"rhag-weld y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol trwy sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg, ac sydd â mynediad at wybodaeth drwy'r Gymraeg"*.

Ni nodwyd unrhyw effaith/newid gan dri ymatebydd arall gydag un yn pwysleisio fel yr oedd yn ei ymateb i gwestiwn 6.3 bod hyn yn dibynnu ar *"gymhwyso'r cynnig yn unol â rheoliadau/polisi eraill"*.

Ymatebodd eraill hefyd mewn modd tebyg i'w hymatebion i gwestiwn 6.3 gydag un yn pwysleisio y dylai pob corff cyhoeddus eisoes fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r Gymraeg ac un arall yn galw am *"beidio â gosod beichiau rheoleiddio ychwanegol ar leoliadau a gwirfoddolwyr"*.

Roedd dau ymatebydd yn cytuno â phwysigrwydd cael mynediad at wasanaethau/cymorth yn y ddewis iaith neu iaith yr angen, ond nododd y gallai hyn estyn y tu hwnt i'r Gymraeg neu'r Saesneg ac y dylid rhoi ystyriaeth briodol i ieithoedd eraill, gydag un yn pwysleisio y dylid estyn unrhyw ddysgu o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i *"gefnogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith neu iaith yr angen"*.

**Cwestiwn 6.5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Ychydig iawn o faterion ychwanegol yn unig gafodd eu codi mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r ymatebion a roddwyd, pwysleisiodd y rhan fwyaf y pwyntiau a wnaed eisoes. Roedd y rhain yn cynnwys nodi y byddai cynnwys gweithwyr chwarae yn pwysleisio rôl bwysig gweithwyr chwarae ar draws y sector.

Roedd ymholiadau ynghylch a fyddai'r diffiniad yn cael ei ehangu ymhellach i gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau megis canolfannau dydd a chlybiau

chwaraeon. Gwnaed sylw hefyd yn nodi absenoldeb Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r ymgynghoriad.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n falch o nodi lefel y cymorth ar gyfer y diwygiad arfaethedig i alluogi gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae (ac nid gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yn unig) sy'n gweithio mewn lleoliadau cofrestredig i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at rai dibenion, er mwyn cael mynediad at fwy o'r cymorth a'r cyngor a ddarperir gan GCC.

Tynnodd yr ymatebion sylw at yr angen i barhau i nodi mor glir â phosibl ddiben arfaethedig y diwygiad arfaethedig, a'i effaith ddisgwyliedig. Mae rheoliadau eisoes yn bodoli o dan adran 79 o Ddeddf 2016 (y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol). Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud personau sydd wedi'u cofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd ar hyn o bryd) yn 'Weithwyr Gofal Cymdeithasol' **ond dim ond** at rai o ddibenion GCC. Byddai'r diwygiad arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sicrhau bod y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae cyfan (nid gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yn unig) yn cael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at rai o ddibenion GCC. Y rhain yw:

- a) Amcan GCC o arfer ei swyddogaethau er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol a hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol
- b) Dyletswydd GCC i baratoi a chyhoeddi codau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n eu cyflogi
- c) Swyddogaeth GCC o gymeradwyo cyrsiau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol
- d) Swyddogaethau cysylltiedig GCC mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant.

Roedd rhai o'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr yn seiliedig ar gamddealltwriaeth ynghylch beth fyddai effaith y newid:

- ni fyddai diwygio'r diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' yn hwyluso symud rhwng gofal cymdeithasol a gofal plant a gwaith chwarae am fod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yn amlinellu lefelau'r cymwysterau ar gyfer ymarferwyr ac yn cysylltu â'r fframweithiau cymwysterau sy'n nodi cymwysterau derbyniol i weithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae (nad ydynt yn cynnwys cymwysterau gofal cymdeithasol).
- nid yw materion cyfraddau a buddion cyflog wedi'u nodi yn Neddf 2016 ac felly ni fyddai diwygio Deddf 2016 i gynnwys gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae yn arwain at unrhyw newid yn hyn o beth. Mae ymrwymadau megis y cyflog byw gwirioneddol yn ymyriadau polisi ac nid ydynt yn gysylltiedig â Deddf 2016 na deddfwriaeth arall. Fe'i gwneir yn glir wrth ddatblygu polisi nad yw gofal plant, hyd yn hyn, wedi'i gynnwys yn y datblygiadau cyflog byw gwirioneddol. Nid yw'r diwygiad arfaethedig yn newid y safbwynt polisi hwn.

- Ni fyddai'r diwygiad arfaethedig i Ddeddf 2016 a gwneud unrhyw reoliadau dilynol o dan adran 79 yn pennu bod rhaid trin gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae fel gweithwyr gofal cymdeithasol yn golygu bod rhaid i weithwyr gofal plant a chwarae (fel 'gweithwyr gofal cymdeithasol' sydd newydd gael eu diffinio gofrestru gyda GCC. Byddai newid o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol gwneud/diwygio rheoliadau pellach, ac nid dyna'r bwriad ar hyn o bryd. Diben y diwygiad arfaethedig yw sicrhau y gall gwaith presennol GCC barhau â sail gyfreithiol glir. Nid yw'n effeithio ar y ffyrdd posibl ymlaen ar gyfer cofrestru neu achub y blaen ar unrhyw benderfyniad ynghylch a fydd y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cael ei gofrestru neu pa sefydliad a allai fod â chofrestr os caiff ei symud ymlaen yn y dyfodol. Nid oes unrhyw benderfyniadau ynghylch cofrestru gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae wedi'u gwneud.
- Ni fyddai estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae, yn golygu y byddai Deddf 2016 yn ei chyfarwydd yn gymwys i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae.

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth a ddarparwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach iddo wrth inni benderfynu ar y camau nesaf ynghylch y cynigion hyn.

## 2.2 Y Camau Nesaf

Bydd yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn a'r dadansoddiad canlyniadol yn llywio ymhellach y gwaith o ddatblygu ein polisi a deddfwriaeth, wrth inni fwrw ymlaen â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio i "roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal", ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol". Bydd canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hefyd yn llywio ein gwaith pellach ar ddyletswyddau adrodd gorfodol, a gwelliannau i'r gyfraith ar reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid eraill wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.